Prifysgol Caerdydd
Cardiff University

Canolfan Llywodraethiant Cymru
Wales Governance Centre

London Metropolitan University
Social Professions



# Dadansoddi Amrywiaeth:

## Rhwystrau a chymhellion i sefyll yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad wedi'i Gomisiynu gan Fwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Gorffennaf 2018

# AWDURON


YR ATHRO ROGER AWAN-SCULLY

Athro Gwyddor Wleidyddol, Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd

DR DIANA STIRBU

Uwch Ddarlithydd Polisi Cyhoeddus, Ysgol Proffesiynau Cymdeithasol, Prifysgol Metropolitan Llundain

DR HUW PRITCHARD

Darlithydd Cyfraith a Llywodraethiant Ddatganoledig, Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd

NYE DAVIES

Myfyriwr PhD, Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd

JAC LARNER

Myfyriwr PhD, Canolfan Llywodraethiant Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd


Hoffem ddiolch i Elisabeth Laird (Cynorthwyydd Ymchwil gwadd), a Naomi White (a ariannwyd drwy raglen Lleoliadau Cyfleoedd Ymchwil Prifysgol Caerdydd) am eu gwaith caled a'u cymorth wrth lunio'r adroddiad hwn. Cafodd y prosiect hwn gymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moesegau Ymchwil Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Caerdydd ar 30/05/2017 (Cyfeirnod Mewnol: SREC/300517/16).

---

# AMDANOM NI

Mae Canolfan Llywodraethiant Cymru yn ganolfan ymchwil sy'n rhan o Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Prifysgol Caerdydd. Gwna ymchwil arloesol i bob agwedd ar y gyfraith, gwleidyddiaeth, llywodraeth ac economi wleidyddol Cymru, yn ogystal â chyd-destunau ehangach llywodraethu tiriogaethol yn y DU ac Ewrop. Un o amcanion allweddol y Ganolfan yw hwyluso ac annog trafodaeth gyhoeddus wybodus am ddatblygiadau allweddol ym maes llywodraethiant yng Nghymru, nid yn unig drwy ei hymchwil, ond hefyd drwy ddigwyddiadau ac addysg ôl-raddedig.

Nod Prifysgol Metropolitan Llundain yw trawsnewid bywydau drwy addysg o'r radd flaenaf. Mae'r Ysgol Proffesiynau Cymdeithasol yn arbenigo ym meysydd datganoli a llywodraethu da.

---

# MANYLION CYSWLLT

Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd, Adeilad y Gyfraith, Rhodfa'r Amgueddfa, Caerdydd CF10 3AX

E-bost: wgc@cardiff.ac.uk      Gwefan: http://sites.cardiff.ac.uk/wgc/cy/

# TABL CYNNWYS


CRYNODEB GWEITHREDOL ........ 6

RHESTR O ARGYMHELLION O FEWN FFRAMWAITH THEORI O NEWID ........ 8

RHAN 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR ........ 11

1.1. Ein cylch gorchwyl ........ 11

1.2. Cefndir ........ 12

1.3. Ein dull gweithredu a methodoleg ........ 13

1.3.1. Yr adolygiad o dystiolaeth ........ 14

1.3.2. Yr astudiaeth maes - methodoleg ........ 15

*Yr Arolwg* ........ 15

*Grwpiau Ffocws* ........ 17

*Cyfweliadau Lled-strwythuredig* ........ 18

*Loomio - grŵp trafod ar-lein* ........ 19

1.4. Cyfyngiadau ........ 19

RHAN 2. ADOLYGIAD O'R DYSTIOLAETH ........ 21

2.1. Adolygiad o'r llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes ........ 21

2.1.1 Esboniadau ........ 21

*Ffactorau unigol* ........ 22

*Ffactorau strwythurol* ........ 23

*Ffactorau gwleidyddol* ........ 23

*Ffactorau sefydliadol* ........ 24

*Ffactorau diwylliannol-gymdeithasol* ........ 25

*Cyfyngiadau'r llenyddiaeth* ........ 26

2.1.2 Atebion ........ 26

2.2. Adolygiad o arferion presennol mewn deddfwrfeydd eraill ........ 28

2.2.1 Cyflog, Lwfansau a Phensiynau ........ 28

2.2.2. Costau tai a theithio ........ 30

2.2.3 Cymorth Swyddfa ........ 31

2.2.4 Trefniadau gwaith ........ 32

2.2.5 Buddiannau ychwanegol ........ 33

2.2.6 Cymhellion etholiadol ........ 34

2.3. Fframwaith dadansoddol ........ 35

RHAN 3. ASTUDIAETH MAES ... 36
3.1. Dod yn AC - Y daith: yn gymwys i fod yn ddarpar ymgeisydd ... 36
3.1.1 Beth y gwnaethom edrych arno ... 36
3.1.2 Yr hyn a nodwyd gennym ... 36
Cymdeithasoli i mewn i Wleidyddiaeth ... 36
Profiad o Bleidiau Gwleidyddol: Meithrin Cysylltiadau a Rhwydweithiau ... 39
Profiad o bleidiau gwleidyddol: Dethol Ymgeiswyr ... 40
Tuedd (Anymwybodol) a'r broblem 'detholwyr' ... 44
Profiadau a Chanfyddiadau o Sefyll Etholiad ... 45
Y System Etholiadol ... 48
Cymorth i Sefyll ... 50
3.1.3 Cymhellion i sefyll ... 54
3.1.4 Trafodaeth ... 57
3.2 Bod yn Aelod Cynulliad ... 57
3.2.1 Beth y gwnaethom edrych arno ... 57
3.2.2 Yr hyn a nodwyd gennym ... 58
*Rôl AC* ... 58
*Cyflog* ... 60
*Agwedd tuag at dreuliau* ... 63
*Cymorth swyddfa* ... 63
*Gofal plant* ... 64
*Llety a Theithio* ... 66
*Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith* ... 67
*Diogelwch swydd* ... 69
3.2.3 Syniadau ar gyfer newid ... 70
3.2.4 Trafodaeth ... 75
3.3. Y darlun mwy ... 75
3.3.1 Canfyddiadau cysylltiedig ... 75
3.3.2 Yr hyn a Nodwyd Gennym ... 75
*Y Cynulliad Cenedlaethol ac Amrywiaeth* ... 75
*Diffyg Dealltwriaeth o Amrywiaeth* ... 77
*Y Gymraeg a Hunaniaeth Gymreig* ... 79
*Cam-drin ac Aflonyddu* ... 81
*Addysg a Gwybodaeth* ... 84
3.3.3 Trafodaeth ... 85

CASGLIADAU AC ARGYMHELLION ........ 86
Rhestr o Argymhellion o fewn Fframwaith Theori o Newid ........ 88
ATODIAD 1: ASTUDIAETH MAES ........ 91
ATODIAD 2: CRYNODEB O DDADANSODDIAD YR AROLWG ........ 92
ATODIAD 3: THEORI O NEWID MANWL ........ 108

# CRYNODEB GWEITHREDOL

Cafodd yr adroddiad hwn ei gomisiynu gan Fwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn ystyried y rhwystrau a'r cymhellion i bobl sydd wedi'u hatal rhag sefyll etholiadau'r Cynulliad, ac ateb y cwestiwn 'a gaiff amrywiaeth eang o bobl sydd â'r sgiliau a'r diddordeb priodol eu hatal rhag sefyll etholiadau'r Cynulliad gan unrhyw agwedd ar y pecyn taliadau (cyflog, pensiwn, gofal plant a lwfansau swyddfa a staff) a beth a allai eu cymell i wneud hynny'.

Cafodd yr ymchwil ei chynnal ar ddau gam; drwy adolygu tystiolaeth oedd yn ystyried agweddau academaidd ac ymarferol ar amrywiaeth a recriwtio gwleidyddol, ac astudiaeth maes a ddefnyddiodd amrywiaeth o ddulliau meintiol ac ansoddol i nodi profiadau go iawn a chanfyddiadau darpar ymgeiswyr. Gwnaed hyn drwy arolwg, grwpiau ffocws, cyfweliadau un i un, a llwyfan ymgysylltu ar-lein.

Seiliwyd yr adolygiad o dystiolaeth ar fodel cyflenwi a galw recriwtio gwleidyddol a chanolbwyntiodd ar nodi 1) yr esboniadau dros ddiffyg amrywiaeth a'r rhwystrau sy'n wynebu unigolion wrth gael swydd wleidyddol, a 2) yr atebion i wella amrywiaeth mewn deddfwrfeydd, gan gynnwys cymhellion i bobl sefyll. O ganlyniad i hyn, bu modd ystyried ffactorau unigol, strwythurol, gwleidyddol, sefydliadol, a diwylliannol a all effeithio ar recriwtio gwleidyddol. Roedd yr adolygiad hefyd yn cynnwys manylion trefniadau taliadau deddfwrfeydd o feintiau tebyg ledled y byd.

Edrychodd yr astudiaeth maes ar brofiadau a chanfyddiadau darpar ymgeiswyr yn ystod eu taith o fod yn gymwys a dyheu i fod yn ymgeisydd, sefyll fel ymgeisydd, i gael eu hethol yn Aelod Cynulliad. Gwnaeth hyn ein galluogi i nodi rhwystrau gwahanol, neu ganfyddedig, ar gamau gwahanol, a'r cymhellion posibl i oresgyn hyn.

Mae'r adroddiad yn nodi gwahanol ffurfiau ar gymdeithasoli i mewn i wleidyddiaeth gan dri gwahanol grŵp o bobl; y rhai sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth bleidiol, cynghorwyr lleol, a newydd-ddyfodiaid i wleidyddiaeth ffurfiol. Roedd y rhwystrau wrth fynd o fod yn gymwys i fod yn ddarpar ymgeisydd yn dibynnu'n rhannol ar y llwybr. Roedd gan y rhai ar lwybr gwleidyddiaeth bleidiol fantais amlwg o ran cymorth, gwybodaeth, a gwybodaeth am brosesau.

Fodd bynnag, mae'r ymchwil yn nodi rhwystrau strwythurol, sefydliadol, unigol, gwleidyddol, a diwylliannol i ymgeiswyr ar hyd y tri llwybr. Tynna sylw at rwystrau strwythurol o ran cost, amser, a hygyrchedd sefyll, sy'n rhwystrau penodol i grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol. Ystyriwyd bod ffactorau diwylliannol, strwythurol, a gwleidyddol, o ran dewis ymgeiswyr a'r system a'r broses etholiadol, yn rhwystrau i gynrychiolaeth amrywiol hefyd. Cafodd ffactorau gwleidyddol a diwylliannol cyfoes ehangach, gan gynnwys hinsawdd wenwynig gwleidyddiaeth a diffyg dealltwriaeth o werth amrywiaeth, eu codi fel rhwystrau cymdeithasol.

Gwnaethom ystyried agweddau ar y swydd ei hun, fel cael gafael ar wybodaeth am y rôl, cyflog a buddiannau eraill, trefniadau teithio a llety, trefniadau gwaith, gofal plant, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a diogelwch swydd. Nodwyd gennym fod cyfranogwyr o blaid nodweddion *gweithle'r 21ain ganrif* - gweithio hyblyg ac o bell, a'r defnydd o dechnoleg - er mwyn ymdrin â rhwystrau sefydliadol ac unigol fel teithio a bod oddi cartref.

Gwna'r adroddiad argymhellion sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Bwrdd a'i amcanion strategol. Hefyd, gwna argymhellion lle gall y Bwrdd ddylanwadu ac addysgu eraill neu gynnwys materion amrywiaeth ar yr agenda. Mae'r adroddiad yn awgrymu theori o newid ble y gall y Bwrdd gyflawni ei  amcanion strategol drwy ganolbwyntio ar: wella'r wybodaeth sydd ar gael i ddarpar ymgeiswyr; gwella'r strategaeth ymgysylltu, darparu ar gyfer trefniadau gweithio hyblyg; a, trefniadau rhannu swydd posibl.

Mae'r adroddiad hefyd yn gwneud argymhellion ble y gall y Bwrdd gymryd rhan mewn trafodaeth ehangach ar: gwefan cyngor 'siop un stop' i ymgeiswyr nad oes ganddynt gysylltiadau gwleidyddol; cymryd rhan mewn 'sioeau teithiol' i ymgeiswyr sy'n rhoi gwybodaeth i gymunedau am sefyll.

# RHESTR O ARGYMHELLION O FEWN FFRAMWAITH THEORI O NEWID

Rydym yn gosod ein hargymhellion o fewn cyd-destun ein canfyddiadau, ac o fewn cyd-destun amcanion strategol y Bwrdd ei hun:

**Ymgysylltu'n effeithiol ag ystod eang o randdeiliaid i sicrhau ein bod yn deall eu hanghenion a'u safbwyntiau [AS1] a Pharatoi Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau cyfansoddiadol newidiol y Cynulliad a'r cyd-destun Cymreig ehangach, a rhoi gwybod amdano i'r holl ymgeiswyr posibl flwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru [AS3]**

**A1:** Dylai'r Bwrdd adolygu / cynllunio strategaeth ymgysylltu cyhoeddus clir.

**A2:** Fel rhan o'r strategaeth, dylai'r Bwrdd adolygu ei ddarpariaeth o wybodaeth a'r defnydd o sianeli cyfathrebu allanol. Bydd hyn yn golygu ail-ddylunio gwefan y Bwrdd Taliadau, a llwyfannau eraill, yn unol â'r egwyddorion o:

A. **Rhyngweithiol:** Symud oddi wrth gynnwys statig i gynnwys mwy deinamig. Er enghraifft, gall y Bwrdd greu fideos byr ynghylch yr ystod o dreuliau y gall ACau eu hawlio, a'r rheolau ar gyfer hawlio treuliau, ond hefyd am y gefnogaeth mae ACau yn derbyn yn eu swyddi.

B. **Hygyrchedd:** creu a chyhoeddi fersiynau hawdd i'w darllen ar gyfer pob adroddiad o bwys a'u lledaenu drwy amryw o sianeli a ffurfiau.

C. **Cyfathrebu dwyffordd:** symud oddi wrth 'wthio' gwybodaeth i sefydlu deialog gyda rhanddeiliaid e.e. 'gweminarau' rhyngweithiol.

**A3:** Fel rhan o'r strategaeth newydd, dylai'r Bwrdd ystyried cysylltu â rhanddeiliaid mewnol perthnasol (e.e. Gwasanaeth Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Cynulliad) er mwyn adolygu pa fath o gynnwys a deunydd a ellir ei fwydo i fentrau ymgysylltu ac addysg y Cynulliad.

**A4:** Fel rhan o'r strategaeth newydd, dylai'r Bwrdd gysylltu â rhanddeiliaid mewnol perthnasol (e.e. Comisiwn y Cynulliad) er mwyn adolygu sut i wella gwelededd y Cynulliad Cenedlaethol a'r Bwrdd Taliadau ar draws Cymru: cynnal mwy o gyfarfodydd ar draws Cymru; cymryd rhan mewn 'Wythnos Senedd Agored', neu 'sioe deithiol' i ymgeiswyr, er mwyn dod â gwybodaeth ynglŷn â sefyll fel AC i mewn i gymunedau.

**A5:** Fel rhan o'r strategaeth, dylai'r Bwrdd ystyried ymgysylltu cyson â rhanddeiliaid allanol (e.e. pleidiau gwleidyddol, grwpiau ymgyrchu, rhaglenni mentora ac arwain anwleidyddol, darpar ymgeiswyr nad sy'n gysylltiedig â phleidiau gwleidyddol). Dylai'r Bwrdd ddarparu gwybodaeth gynnar a chanllawiau ynglŷn â'r penderfyniad a'r cymorth fydd ar gael.

A6: Dylai'r Bwrdd ystyried ffyrdd y gall ddarparu cyfleoedd cysgodi neu agor rhai o'i gyfarfodydd i'r cyhoedd er mwyn rhoi gwell cyhoeddusrwydd i'w waith ei hun.

**Er mwyn sicrhau bod y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad yn parhau'n addas i'r diben [AS2] ac er mwyn sicrhau bod y system o gymorth ariannol ar gyfer Aelodau yn cynrychioli gwerth am arian i drethdalwyr a bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol [AS4], dylai'r Bwrdd:**

A7: Ystyried alinio ei ddarpariaeth ar gymorth gofal plant (treuliau a chyfleusterau) â:

A. cyfnod eistedd y Cynulliad, ac

B. amserlen ACau er mwyn cynnwys amser cymudo (boreau cynnar a nosweithiau hwyr)

A8: Dylai'r Bwrdd godi gyda Chomisiwn y Cynulliad ar gyfer ystyriaeth:

A. Adolygu priodoldeb y ddarpariaeth o ran gweithio hyblyg (gan gynnwys pleidleisio o bell) ac archwilio ffyrdd eraill ble gall technoleg hwyluso gwaith Aelodau Cynulliad.

B. Rhinweddau rhannu swydd, neu ail swyddi, ar gyfer Aelodau Cynulliad.

A9: Ystyried adolygu rheolau ar gyfer 'treuliau eithriadol', egluro ym mha sefyllfaoedd y mae'r rhain yn gymwys, a rhoi cyhoeddusrwydd gwell ynglŷn â'r gefnogaeth benodol sydd ar gael (e.e. cefnogaeth benodol ar gyfer pobl ag anabledd).

A10: Dylai'r Bwrdd ystyried os yw'n bosibl rhoi lwfans i ACau i gefnogi cyfleoedd cysgodi a phrofiad gwaith ar gyfer pobl o'u hetholaethau a rhanbarthau. Er enghraifft, lwfans er mwyn cefnogi etholwyr i deithio i'r Cynulliad ar gyfer cyfle cysgodi wedi ei ddarparu drwy becyn taliadau'r ACau. Dylai'r Bwrdd ystyried pa fath o reolau a ddylai fod mewn lle er mwyn cefnogi hyn.

A11: Dylai'r Bwrdd archwilio gyda sefydliadau megis y Comisiwn Etholiadol, y Cynulliad Cenedlaethol, a Llywodraeth Cymru, sut y gellir sefydlu cronfa Mynediad at Wleidyddiaeth ar gyfer ymgeiswyr. Dylai cronfa o'r fath gael ei ddefnyddio ar gyfer cefnogi ymgeiswyr ag anabledd ac ymgeiswyr o grwpiau tangynrychioledig eraill.

**Yn ogystal, mae cyfres o feysydd ble mae angen trafodaeth ehangach. Rydym yn cydnabod nad oes efallai gan y Bwrdd rym i weithredu'n uniongyrchol, ond mae'n bwysig i gael y sgwrs hon gyda rhanddeiliaid y Bwrdd. Mae ymchwil pellach ac ymgynghori eu hangen er mwyn ymateb i rai o'r rhwystrau allweddol i amrywiaeth a drafodir yn yr adroddiad hwn:**

- Byddai gwefan gynghori 'siop un stop' ar gyfer ymgeiswyr yn mynd i'r afael â pheth o'r diffyg gwybodaeth, cyfyngiadau, a rhwystrau sy'n wynebu rhai ymgeiswyr ar y ffordd o fod â diddordeb mewn gwleidyddiaeth i sefyll mewn etholiadau. Dylai hwn gynnwys gwybodaeth wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd Taliadau ar y pecyn taliadau, y swydd ei hun, cymorth ychwanegol a gynigir i ACau a'r rheolau ar gyfer hawlio treuliau.

- Dylai'r Bwrdd gyfrannu at y drafodaeth, ynghyd â chyrff eraill (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Comisiwn Etholiadol, pleidiau gwleidyddol ayyb) ynglŷn â gweithredu cwotâu amrywiaeth a monitro amrywiaeth ac adrodd ar bob cam o daith yr ymgeiswyr.
- Mae'r effaith y caiff natur ymgyrchu wleidyddol ar gyfyngu amrywiaeth angen ymchwil pellach. Y Comisiwn Etholiadol a'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol yw o bosib y cyrff mwyaf priodol, ynghyd â Chomisiwn y Cynulliad, i gychwyn trafodaeth i'r perwyl hwn.
- Bydd mynd i'r afael â materion o gam-drin ac aflonyddu ymgeiswyr a gwleidyddion etholedig angen trafodaeth drawsbleidiol ac ymgynghoriad gyda phleidiau gwleidyddol, y Comisiynydd Safonau, cyrff cymdeithas sifil eraill a chyrff cyhoeddus.

# RHAN 1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

## 1.1. Ein cylch gorchwyl

Gwnaeth Bwrdd Taliadau [y Bwrdd] Cynulliad Cenedlaethol Cymru [y Cynulliad] gomisiynu Canolfan Llywodraethiant Cymru i gynnal ymchwil academaidd er mwyn ateb y cwestiwn *"a gaiff amrywiaeth eang o bobl sydd â'r sgiliau a'r diddordeb priodol eu hatal rhag sefyll etholiadau'r Cynulliad gan unrhyw agwedd ar y pecyn taliadau (cyflog, pensiwn, gofal plant a lwfansau swyddfa a staff) a beth a allai eu cymell i wneud hynny".*

Yn fwy penodol, roedd gan y Bwrdd ddiddordeb mewn meithrin ei ddealltwriaeth o'r cymhellion a rhwystrau, o fewn ei gylch gwaith, sy'n wynebu'r rhai sy'n cael eu hatal rhag sefyll etholiadau'r Cynulliad. Ymhlith y grŵp targed a nodwyd yn eang gan y Bwrdd roedd:

- y rhai sy'n ymwneud â chymdeithas ddinesig
- y rhai sydd â diddordeb mewn gwleidyddiaeth yn gyffredinol a/neu
- unrhyw unigolion sydd wedi gadael ar ôl dim ond un tymor yn y Cynulliad.

Nododd y Bwrdd yn glir fod ganddo ddiddordeb mewn adolygiad trwyadl o'r dystiolaeth sydd ar gael ac astudiaeth maes o'r ffactorau presennol sy'n annog neu'n atal unigolion rhag sefyll etholiadau'r Cynulliad, gan gynnwys:

- yr agweddau ar y swydd sy'n ei gwneud yn ddeniadol;
- yr agweddau ar y swydd sy'n atal rhai pobl neu grwpiau rhag sefyll;
- a ystyrir bod y pecyn taliadau presennol yn atal pobl rhag sefyll a sut y dylid ei newid er mwyn eu hannog i sefyll;
- i ba raddau, os o gwbl, y mae'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a diogelwch swydd Aelod Cynulliad yn ffactor, a pha fesurau y gellid eu cymryd i wneud y rôl yn fwy deniadol.

Ceisiodd ein cynnig cychwynnol fynd i'r afael â'r agweddau hyn mewn ffordd gadarn, ac i ddechrau, canolbwyntiodd ein methodoleg arfaethedig bron yn gyfan gwbl ar gylch gwaith y Bwrdd a sut y gallai agweddau ar ei gylch gwaith rwystro neu atal pobl rhag sefyll.

Fodd bynnag, daeth yn glir bod gan y Bwrdd ddiddordeb mewn deall y rhwystrau a'r cymhellion i sefyll yn ehangach, gan bwysleisio ei fod am i ni ganolbwyntio ar ymgysylltu â grŵp ehangach o bobl fel ein bod yn nodi barn ystod ehangach o gefndiroedd galwedigaethol ac economaidd-gymdeithasol. Roedd y Bwrdd yn gobeithio cael barn y rhai sydd wedi'u hatal yn benodol neu sy'n teimlo bod rhwystrau iddynt gymryd rhan yn y broses etholiadol. Yn naturiol, mae hyn yn ehangu'r ymchwil y tu hwnt i gylch gwaith y Bwrdd i raddau, tra'n golygu y gellir meithrin dealltwriaeth fwy cyfannol.

## 1.2. Cefndir

Cynhaliwyd yr ymchwil hon gan ystyried datblygiadau cyfansoddiadol diweddar yng Nghymru, sef darpariaethau yn Neddf Cymru 2017, yn enwedig newid maint y Cynulliad a'r system etholiadol.[1] Ym mis Chwefror 2017, penododd Llywydd y Cynulliad *Banel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad* i edrych ar faint, trefniadau etholiadol ac etholfraint etholiadau'r Cynulliad. Mae'r gwaith hwn, a gynhaliwyd ar y cyd â'n hymchwil i raddau, yn berthnasol iawn, gan ei fod yn ymdrin â natur, strwythur a gweithrediad y Cynulliad ar ôl 2021. Cyflwynodd y Panel Arbenigol ei adroddiad ym mis Rhagfyr 2017 gan argymell 1) cynyddu maint y Cynulliad, 2) newid y system etholiadol i gynrychiolaeth gyfrannol, 3) cyflwyno cwotâu rhywedd a 4) gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed - sydd i gyd yn berthnasol o ran newid cyfleoedd etholiadol o safbwynt amrywiaeth.[2]

Yn gyffredinol, mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi perfformio'n arbennig o dda ym maes cynrychiolaeth o ran y rhywiau (ni fu canran y menywod sy'n ACau erioed o dan 40%). Hwn oedd un o'r cynulliadau deddfwriaethol cyntaf yn y byd i gyrraedd 50-50 yn 2003. Eto i gyd, mae agweddau eraill ar amrywiaeth yn dal i fod ymhell ar ei hôl hi o ran cyfansoddiad cyffredinol cymdeithas Cymru, yn enwedig anabledd, ethnigrwydd a chefndir economaidd-gymdeithasol, ymhlith llawer mwy. I ddangos hyn, dim ond yn 2007 y cafodd yr Aelod Cynulliad cyntaf o gefndir pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) ei ethol, ac ar hyn o bryd dim ond tri aelod o leiafrifoedd ethnig sy'n hysbys. Yn etholiadau 2016, roedd ychydig dros draean o'r Aelodau Cynulliad a etholwyd yn newydd i'r Cynulliad, ond, o ran cefndiroedd proffesiynol, roedd tua wyth eisoes wedi gweithio mewn gwleidyddiaeth mewn rhyw rinwedd (cyn-AS, cyn-AC, cyn-ASE, cyn-gynorthwyydd i wleidydd etholedig, cyn-ymchwilydd gwleidyddol ac ati), ac roedd y rhan fwyaf o'r Aelodau eraill yn dod o'r hyn a alwn yn 'broffesiynau hwyluso gwleidyddiaeth' (y gyfraith, newyddiaduraeth, addysg) neu o lwybrau traddodiadol i mewn i wleidyddiaeth yng Nghymru - undebau llafur, llywodraeth leol a'r sector gwirfoddol;[3] felly, ni wnaed fawr ddim i wella amrywiaeth yn y Cynulliad o ran cyfansoddiad proffesiynol-gymdeithasol.

Mae ein hymchwil hefyd yn ategu ymchwil flaenorol a wnaeth archwilio'r rhwystrau a'r cymhellion i ymuno â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.[4] Gwnaeth yr adroddiad - *Gwerthuso'r Rhwystrau i Ddod i'r Cynulliad: Beth sy'n ein Rhwystro rhag Sefyll i gael ein Hethol i'r Cynulliad?* - a gyhoeddwyd yn 2014 ganolbwyntio'n benodol iawn ar y rhwystrau a wynebwyd gan ACau presennol a gwnaeth gyfres o argymhellion, yn ymwneud â chefnogi aelodau o ran llety, ail-leoli, gofal plant ac eglurder y gweithdrefnau treuliau.

Cefndir ychwanegol yr ymchwil hon yw'r hinsawdd o ymddieithrio cronig, anfodlonrwydd â gwleidyddiaeth a diffyg ymddiriedaeth ynddi yn gyffredinol. Mae'r archwiliad diweddaraf ym maes ymgysylltu â gwleidyddiaeth gan Gymdeithas Hansard yn 2017 yn gosod Cymru ar y gwaelod o ran gwybodaeth am wleidyddiaeth (39%) ac islaw'r cyfartaledd cenedlaethol o ran

1 Deddf Cymru 2017, Rhan 1, Adran 9 (2).
2 EPAER (2017) Senedd sy'n gweithio i Gymru, URL: https://goo.gl/zDdkNb
3 BBC Cymru (2016). Who are the new AMs? URL: http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-36312542
4 Prifysgol Bangor (2014) *Gwerthuso'r Rhwystrau i Ddod i'r Cynulliad: Beth sy'n ein Rhwystro rhag Sefyll i gael ein Hethol i'r Cynulliad?*

boddhad â'r system wleidyddol (17% - ar y cyd â'r Alban) a diddordeb mewn gwleidyddiaeth (47%) [5]. Nid yw'r nifer a bleidleisiodd yn etholiadau'r Cynulliad erioed wedi mynd uwchlaw 50% ac mae'n sylweddol is nag etholiadau cyffredinol y DU (45% yn Etholiadau'r Cynulliad yn 2016 o gymharu â 66% yn etholiadau cyffredinol y DU yn 2015 a 68.6% yn 2017).

**Felly, mae'n briodol ac yn amserol i gynnal y sgwrs hon am wella amrywiaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol a deall beth sy'n atal pobl o ystod ehangach o gefndiroedd rhag sefyll Etholiadau'r Cynulliad a beth allai wneud rôl Aelod Cynulliad yn fwy deniadol.**

## 1.3. Ein dull gweithredu a methodoleg

Ein nod oedd mynd i'r afael â chylch gorchwyl y Bwrdd, tra'n ymgysylltu'n ehangach a meithrin ein dealltwriaeth o'r rhwystrau a'r cymhellion i amrywiaeth wrth sefyll etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Wrth gynllunio ein hymchwil, rydym wedi ceisio dilyn yr egwyddorion canlynol er mwyn sicrhau bod y cylch gorchwyl yn cael ei fodloni a'n bod yn rhoi dadansoddiad amserol a pherthnasol i'r Bwrdd:

- *Ymgysylltu'n ehangach a thargedu mewn modd effeithiol* - er bod ein hymchwil yn ceisio ehangu cyfranogiad drwy ddefnyddio set benodol o ddulliau a sianeli dosbarthu i gyrraedd unigolion, gwnaethom hefyd sicrhau ein bod yn targedu'r grwpiau roedd gan y Bwrdd ddiddordeb ynddynt.
- *Dull gweithredu cyfannol* - er mwyn cydnabod natur gymhleth a chysylltiadau recriwtio gwleidyddol ac amrywiaeth, bu'n rhaid archwilio profiad y 'darpar' ymgeisydd o'r daith lawn i wleidyddiaeth (dod yn wleidyddol weithgar, enwebu, sefyll, dod yn Aelod Cynulliad a rhoi'r gorau i fod yn Aelod Cynulliad);
- *Dadansoddiad ac iddo ffocws* - gwnaethom anelu at gyflwyno argymhellion defnyddiol ac ystyrlon lle gall y Bwrdd naill ai weithredu, dylanwadu, hysbysu neu eu cynnwys ar yr agenda.

Ar gam cynnar iawn yn y broses, gwnaethom sylweddoli 1) y byddai'n anodd cyrraedd grŵp targed yr ymchwil mewn ffyrdd traddodiadol, a 2) byddai meithrin ein dealltwriaeth o'r rhwystrau a'r cymhellion i amrywiaeth yn ein tywys ar hyd llwybr nad yw'n uniongyrchol gysylltiedig â chylch gwaith y Bwrdd Taliadau, ond lle mae gan y Bwrdd rôl i hysbysu, dylanwadu neu gynnwys materion ar yr agenda o hyd. Mae hyn yn parhau'n gyson ag egwyddorion arweiniol ac amcanion y Bwrdd.[6]

- Ymgysylltu'n effeithiol ag ystod eang o randdeiliaid i sicrhau ein bod yn deall eu hanghenion a'u safbwyntiau;
- Sicrhau bod y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad yn parhau'n addas i'r diben;
- Paratoi Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau cyfansoddiadol newidiol y Cynulliad a'r cyd-destun Cymreig ehangach, a rhoi gwybod amdano i'r holl ymgeiswyr posibl flwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru; a

5 Cymdeithas Hansard (2017) Audit of Political Engagement 14, URL https://goo.gl/rewoYL
6 Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Strategaeth y Bwrdd Taliadau ar gyfer 2016-2021* (Ionawr 2017) [2.1].

- Sicrhau bod y system o gymorth ariannol ar gyfer Aelodau yn cynrychioli gwerth am arian i drethdalwyr a bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol.

Yn unol â'r cylch gorchwyl dan sylw, roedd ein hymchwil yn cynnwys 1) adolygiad trylwyr o'r dystiolaeth oedd yn cwmpasu'r agweddau academaidd ac ymarferol ar amrywiaeth a recriwtio gwleidyddol a 2) astudiaeth maes a ddefnyddiodd amrywiaeth eang o ddulliau ymchwil meintiol ac ansoddol er mwyn casglu barn ac archwilio profiadau go iawn, yn ogystal â chanfyddiadau pobl sydd wedi ystyried sefyll etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ond sydd heb wneud hynny am ryw reswm.

### 1.3.1. Yr adolygiad o dystiolaeth

Gwnaethom ddefnyddio fframweithiau damcaniaethol pwysig ar ***alw a chyflenwi ym maes recriwtio gwleidyddol***[7] er mwyn deall rôl amgylchiadau personol, cymhelliant, dyhead darpar ymgeiswyr i gael swydd etholedig, yn ogystal â rôl 'porthorion' - pleidiau gwleidyddol - yn ogystal â sefydliadau gwleidyddol eraill wrth ddileu rhwystrau a gwella cyfleoedd etholiadol i bobl o grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol. Bu'r broblem tangynrychiolaeth yn hanfodol i'n hadolygiad, a gwnaethom ganolbwyntio'n arbennig ar dynnu sylw at benderfynyddion strwythurol, sefydliadol a diwylliannol tangynrychiolaeth. Gwnaethom hefyd archwilio rôl cymdeithasoli mewn gwleidyddiaeth a'r llwybrau a ddilynir gan bobl i swyddi gwleidyddol neu i ddangos eu diddordeb gwleidyddol. Ein tybiaeth sylfaenol oedd bod gwir brofiad y daith i wleidyddiaeth yn pennu i raddau p'un a fydd pobl yn sefyll am swydd etholedig yn y pen draw ai peidio.

Cafodd yr adolygiad o dystiolaeth ei gwblhau gan adolygiad o arfer presennol mewn deddfwrfeydd eraill, o ran y mesurau sefydliadol sy'n effeithio ar yr agweddau amrywiol ar y swydd roedd gan y Bwrdd ddiddordeb ynddynt: pecyn cyflog, cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, diogelwch swydd ac ati. Gwnaethom edrych ar:

- ddeddfwrfeydd yn y DU (Senedd San Steffan, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd yr Alban);
- senedd Seland Newydd;
- deddfwrfeydd yn Sweden a Norwy;
- deddfwrfeydd o feintiau tebyg eraill (h.y. Slofenia, Cyprus)
- deddfwrfeydd Gwledydd y Baltig (Latfia, Lithwania ac Estonia);
- dau gynulliad deddfwriaethol is-wladol yn yr Almaen (Westffalia Gogledd y Rhein a Berlin);
- ac enghreifftiau eraill o bob cwr o'r byd lle daethom o hyd i arferion diddorol.

7 Norris, P., a Lovenduski, J. (1995). *Political recruitment: Gender, race and class in the British Parliament.* Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

### 1.3.2. Yr astudiaeth maes - methodoleg

Roedd ein hymchwil yn cynnwys cymysgedd manwl o ddulliau casglu data meintiol ac ansoddol a oedd yn cefnogi ymarfer ymgysylltu uchelgeisiol. Gwnaethom gynllunio proses pedwar cam oedd yn targedu unigolion, yn gyntaf, yn ehangach, drwy ***arolwg***, ac yna drwy gyfres o ***grwpiau ffocws*** a ***chyfweliadau*** un i un manwl, tra hefyd yn cynnig y cyfle i gyfrannu at ***fforwm trafod ar-lein***. Ceisiodd pob un o'r dulliau hyn ategu ei gilydd ac ymdrin â'r bylchau posibl mewn ymgysylltu a adawyd gan y rhai eraill. Cafodd yr ymchwil ei hyrwyddo ymhellach drwy erthygl blog ar amrywiaeth a gyhoeddwyd ar borth *Click on Wales* ym mis Medi 2017.

Cynhaliwyd yr ymchwil dros gyfnod o bum mis, rhwng mis Awst a mis Rhagfyr, ar ôl cael cymeradwyaeth foesegol gan Brifysgol Caerdydd. Drwy gydol yr astudiaeth rydym wedi sicrhau bod y safonau methodolegol a moesegol uchaf yn cael eu parchu.

Trefnwyd y camau (gweler Atodiad 1) yn fwriadol er mwyn ein helpu i gwmpasu cynifer o bobl â phosibl; yna cafwyd mwy o ffocws er mwyn meithrin dealltwriaeth lawn a sicrhau bod ein dadansoddiad yn fanwl gywir. Drwy drefnu'r broses casglu data yn ofalus, gwnaethom hefyd geisio mynd i'r afael â diffygion pob dull a ddaeth i'r amlwg (h.y. lledaeniad daearyddol yr arolwg, demograffeg y grwpiau ffocws).

#### *Yr Arolwg*





Gwnaethom gynllunio a chynnal arolwg wedi'i dargedu gan ddefnyddio adnodd Bristol Online Survey, a ddosbarthwyd wedyn drwy gyfres o sianeli yr oeddem yn hyderus y byddent yn ein helpu i dargedu yn effeithlon unigolion sydd â diddordeb mewn gwleidyddiaeth, sy'n weithgar yn eu cymunedau ac sydd wedi ystyried sefyll etholiadau. Fel y cyfryw, nid yw'r sampl yn cynrychioli poblogaeth gyffredinol Cymru.

Gwnaethom ddosbarthu'r arolwg drwy rwydwaith o fwy na 50 o sefydliadau ag aelodaeth broffesiynol, pleidiau gwleidyddol, sefydliadau yn y sector gwirfoddol a'r gymuned, undebau, yn ogystal â thrwy gynghorwyr llywodraeth leol. Lluniwyd yr arolwg yn Gymraeg a Saesneg.

## 196 o Ymatebion i'r Arolwg

- 13.26% yn Siaradwyr Cymraeg rhugl
- 23.2% yn siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl
- 16.76% yn nodi bod ganddynt anabledd corfforol
- 12.29% yn nodi bod ganddynt anabledd meddyliol
- 24% hyfforddiant galwedigaethol, addysg uwchradd, addysg ôl-uwchradd
- 29% gradd gyntaf
- 45% ôl-radd




Er i'r dosbarthiad o ran rhywedd, oedran ac anabledd fod yn dda, gwnaethom gydnabod nad oedd yr arolwg wedi cyrraedd unigolion o leiafrifoedd ethnig yn ddigonol a bod gan y rhan fwyaf o'n hymatebwyr raddau addysg uwch. Gwnaethom geisio ymdrin â chyfyngiadau'r arolwg drwy grwpiau ffocws a'r cyfweliadau a gynhaliwyd wedyn.

Cafodd yr arolwg ei drefnu mewn pum rhan ac roedd yn cynnwys 49 o gwestiynau yn cwmpasu agweddau yn amrywio o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth a gwybodaeth am y maes, boddhad â'r system wleidyddol, ac archwiliad o weithgarwch gwleidyddol yr unigolyn, i ymchwilio i'r rhwystrau unigol a strwythurol sy'n wynebu pobl wrth sefyll etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol, ac archwilio ystod eang o gymhellion posibl. Talwyd sylw arbennig i fonitro amrywiaeth a chynhwyswyd adran arbennig yn yr arolwg a wnaeth ein helpu i olrhain rhywedd, oedran, anabledd, rhywioldeb, ethnigrwydd, crefydd, lefel addysg a chefndiroedd economaidd-gymdeithasol.

Gan ddefnyddio'r set hynod gydnabyddedig o sgiliau ymchwil feintiol o fewn Canolfan Llywodraethiant Cymru, cafodd y data eu dadansoddi gan ddefnyddio pecyn meddalwedd ystadegol pwerus Stata. Ceisiodd ein dadansoddiad nodi patrymau allweddol o ran yr hyn y gallai ymatebwyr eu hystyried wrth feddwl am sefyll i fod yn Aelod Cynulliad. Haenwyd y data yn gategorïau demograffig-gymdeithasol o ddiddordeb er mwyn gweld a oedd yr ystyriaethau hyn yn gysylltiedig ag unrhyw rai o benderfynyddion economaidd-gymdeithasol yr unigolion. Drwy ddefnyddio'r haenau hyn, bu modd i ni nodi rhwystrau neu gymhellion penodol grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol yn hanesyddol yn y Cynulliad (er enghraifft, a yw ymatebwyr ar gyflog is o'r farn bod cost rhedeg ymgyrch etholiadol yn rhwystr pwysicach na'r rhai ar gyflog uwch?), yn ogystal ag arsylwi tueddiadau cyffredinol sy'n bodoli yn y data.

### *Grwpiau Ffocws*

Trefnwyd y grwpiau ffocws gyda'r nod o archwilio dealltwriaeth unigol a chyffredin o'r broses o sefyll etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Cysylltwyd ag ystod eang o bobl mewn chwe lleoliad yng Nghymru: Aberystwyth, Caernarfon, Wrecsam, Llanelli, Merthyr Tudful a Chaerdydd.


Cyflawnwyd gwaith targedu ar-lein gofalus (Twitter a Facebook) er mwyn hyrwyddo'r cais am gyfranogwyr a defnyddiwyd rhwydweithiau lleol (yn enwedig cynghorau lleol) i'w gwahodd i'n digwyddiadau.

Ym maes ymchwil gwyddor gymdeithasol, ystyrir yn aml fod grwpiau ffocws wedi'u lleoli yn y man lle ceir croestoriad o addysgeg, gweithredu ac ymholi deongliadol. [8] Fel ymchwilwyr a chymedrolwyr y trafodaethau, roeddem yn ymwybodol o hyn ac, yn ein dadansoddiad o ddata'r grwpiau ffocws, gwnaethom dalu sylw arbennig er mwyn gwahaniaethu rhwng profiadau go iawn a'r canfyddiadau a'r agweddau a leisiwyd. Gwnaethom sicrhau nad oedd y broses o gymedroli'r trafodaethau yn arwain cyfranogwyr mewn unrhyw ffordd. Drwy ddefnyddio dull grŵp ffocws, bu modd i ni sicrhau ein bod yn ychwanegu lefel o ddealltwriaeth gyfoethog ac aml-haenog, oedd yn cynnwys sylwadau cyferbyniol yn aml.

Gwnaethom gynnal saith grŵp ffocws i gyd: un ym mhob lleoliad a nodir uchod, heblaw am Gaerdydd lle cynhaliwyd dau ddigwyddiad. Y rheswm dros hyn oedd y galw uchel, oherwydd roedd gennym restr aros hir ar gyfer y grŵp ffocws cyntaf a drefnwyd yng Nghaerdydd. Fodd bynnag, yn sgil y nifer isel a oedd yn bresennol penderfynwyd cynnal grŵp ychwanegol yn y brifddinas. Parodd trafodaeth pob grŵp ffocws rhwng 60 a 65 munud. Hwyluswyd y drafodaeth gan gymedrolwr profiadol a gwnaeth un neu ddau ymchwilydd gymryd nodiadau mewn rhai achosion. Hefyd cafodd y sgwrs ei recordio. Ym mhob grŵp ffocws, cafodd y cyfranogwyr y cyfle i gyfrannu yn Gymraeg a Saesneg.

## 7 Grŵp Ffocws

- defnyddio Twitter a Facebook i gyrraedd unigolion
- 42 o gyfranogwyr ym mhob grŵp ffocws
- 20 o ddynion a 22 o ferched
- 3 yn nodi bod ganddynt anabledd
- dosbarthiad da o ran cefndiroedd economaidd-gymdeithasol, oedran, anabledd ac addysg




8 Kamberelis, G., a Dimitriadis, G. (2013). *Focus groups*. Routledge.

Denodd y grwpiau ffocws unigolion o gefndiroedd amrywiol iawn. Yr eithriad nodedig oedd pobl BME. Ym mhob maes arall o amrywiaeth (oedran, cefndir economaidd-gymdeithasol, anabledd, addysg a rhywedd), roedd y grwpiau ffocws yn weddol gytbwys ar y cyfan. O'r 42 o gyfranogwyr, clywsom, ymhlith eraill, gan gynghorwyr lleol, academyddion, awduron, rheolwyr, cyfreithwyr, pobl hunangyflogedig, gweithwyr gofal, gofalwyr, meddygon, gweithwyr yn y sector gwirfoddol, a myfyrwyr.

### *Cyfweliadau Lled-strwythuredig*



Nod y cyfweliadau oedd meithrin dealltwriaeth fanylach o brofiadau personol o sefyll etholiadau. Mae cyfweliadau lled-strwythuredig, fel dull ymchwil, yn chwarae rôl bwysig mewn dulliau gweithredu aml-ddull, gan eu bod yn darparu 'graen mân' y dadansoddiad ansoddol.[9] Hefyd, anelodd y cam hwn at ymdrin â'r bwlch mewn cynrychiolaeth, yn enwedig o ran hil ac ethnigrwydd.

O ganlyniad i natur hyblyg cyfweliadau lled-strwythuredig bu modd i ni archwilio profiadau personol unigryw ein cyfranogwyr yn fanwl. Gwnaeth hefyd ein galluogi i ddilyn templed thematig, a oedd yn cynnwys diddordeb mewn gwleidyddiaeth a llwybrau iddi, y rhwystrau a'r cymhellion a brofwyd adeg ymgyrchu, a chanfyddiadau o rwystrau a chymhellion mewn perthynas â bod yn AC.

Gwnaethom gynnal cyfanswm o 25 o gyfweliadau lled-strwythuredig gydag unigolion oedd â phrofiad blaenorol o sefyll etholiad yn y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n ystyried gwneud hynny o ddifrif yn y dyfodol agos.  Clywsom gan 14 o fenywod ac 11 o ddynion, 13 o'r de, a 4 yr un o'r gogledd, y canolbarth, a'r de-orllewin. Roedd pump o'r rhain yn gyn-ymgeiswyr yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ac roedd gan y rhan fwyaf o'r unigolion eraill ddiddordeb mewn sefyll yn y dyfodol. Yn arbennig, clywsom gan nifer o unigolion BME, yn ogystal ag unigolion o'r pedair prif blaid wleidyddol, felly bu modd meithrin dealltwriaeth benodol o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ar y camau enwebu a dethol, ac yn ystod yr ymgyrch etholiadol. Hefyd, gwnaethom feithrin dealltwriaeth ddefnyddiol o'r mathau gwahanol o gymorth sydd ar gael o fewn pleidiau gwleidyddol i helpu darpar ymgeiswyr, yn ogystal â meithrin dealltwriaeth o brosesau dethol ymgeiswyr pleidiau.

Cafodd y cyfweliadau eu cynnal wyneb yn wyneb, dros Skype, neu dros y ffôn a gwnaethant bara rhwng 30 a 60 munud. Ceisiwyd sicrhau bod y broses mor hygyrch â phosibl i'r cyfranogwyr. Cynhaliwyd y cyfweliadau â chydsyniad gwybodus ac yn gyfrinachol, gan sicrhau bod cyfranogwyr yn teimlo'n rhydd i rannu eu profiadau, agweddau a chanfyddiadau o'r rhwystrau a'r cymhellion sy'n ymwneud â chael swydd wleidyddol yn y Cynulliad Cenedlaethol.

9 Galletta, A. (2013). *Mastering the semi-structured interview and beyond: From research design to analysis and publication.* NYU Press.

### *Loomio - grŵp trafod ar-lein*



Gwnaethom hefyd sefydlu llwyfan trafod ar-lein (ar Loomio) er mwyn hwyluso trafodaeth ymhlith unigolion a dileu rhwystrau amser a gofod pwysig a fyddai fel arall wedi atal rhai unigolion rhag cyfrannu. Mae trafodaeth wleidyddol ar-lein wedi cael ei labelu'n "one of the oldest manifestations of digital democracy"[10]

Er nad yw'n amlwg yn ateb i drafodion gwleidyddol effeithiol, mae sefydliadau gwleidyddol, yn enwedig deddfwrfeydd, wedi bod yn awyddus i ddefnyddio fforymau trafod ar-lein fel ffurf ar ymgysylltu democrataidd, ac mewn rhai achosion fel ffurfiau ar gasglu tystiolaeth. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi defnyddio llwyfannau trafod ar-lein mewn nifer o fentrau ymgysylltu pwyllgorau.[11] Fel methodoleg ymchwil, gwelsom hyn fel dull ategol, oedd â'r nod o ehangu ymgysylltu a datblygu trafodaeth fanwl am bynciau wrth graidd ein hymchwiliad.

Cafwyd cyfanswm o 24 o gyfranogwyr ac roedd y llwyfan ar agor am dri mis. Creodd y cymedrolwyr ymchwil linynnau trafod a chyfrannodd y cyfranogwyr yn eu hamser eu hunain. Bu modd i'r cyfranogwyr greu meysydd trafod newydd, a ddigwyddodd ar un achlysur. Hefyd, ceisiwyd ysgogi'r drafodaeth drwy sefydlu Pleidlais Gyflym, er enghraifft, gofyn i'r cyfranogwyr raddio gwahanol opsiynau ar gyfer ymdrin â rhwystrau i amrywiaeth. Drwy gydol yr adroddiad hwn, gwnaethom sicrhau bod enwau ein cyfranogwyr yn gyfrinachol.

## 1.4. Cyfyngiadau

Rydym yn ymwybodol o rai o gyfyngiadau ein dull gweithredu.

- O ystyried ein strategaeth dargedu - defnyddio rhwydweithiau dosbarthu gwahanol i gyrraedd yr unigolion roedd gennym ddiddordeb ynddynt - nid oedd gennym fawr ddim rheolaeth dros gyfraddau ymateb yr arolwg. Gwnaethom ddibynnu ar y sefydliadau gwadd i rannu'r arolwg â'u haelodau, tra'n bod ni yn ei hyrwyddo ar sianeli prif ffrwd (gwefan Prifysgol Caerdydd, Twitter, Facebook, ac erthygl a gyhoeddwyd ar *Click on Wales*);
- Prin y cyrhaeddodd yr arolwg unigolion o leiafrifoedd ethnig a chefndiroedd Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LGBT), gan ei gwneud hi'n amhosibl dadansoddi'r ddwy elfen hyn mewn ffordd ddefnyddiol. Rydym wedi ceisio ymateb i'r gwendid hwn drwy sicrhau ein bod yn gwneud iawn amdano yn y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws;
- Yn y grwpiau ffocws, ni wnaethom lwyddo i gynnwys unrhyw unigolion o leiafrifoedd ethnig, er i sawl un gofrestru ar gyfer y grŵp ffocws cyntaf a'r ail grŵp ffocws yng Nghaerdydd. Gwnaethom waith dilynol ar hyn ar y cam cyfweld er mwyn cau'r bwlch o ran cynrychiolaeth unigolion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig;

10 Freelon, D. G. (2010). Analyzing online political discussion using three models of democratic communication. *New Media & Society*, 12(7), 1172-1190.

11 Stirbu, D. (2017). 'Public Engagement in National Assembly for Wales: Developments, Narratives and Consequences'. Papur a gyflwynwyd yn 13eg Gweithdy Ysgolheigion Seneddol a Seneddwyr, Coleg Wroxton, Gorffennaf 2017

- O ystyried natur llwyfan Loomio - sy'n seiliedig ar gadw enwau cyfranogwyr yn gyfrinachol - bu'n anodd gwybod pa mor amrywiol oedd y cyfranogwyr;
- Er i ni fwriadu cyfweld â phleidiau gwleidyddol yn swyddogol, ni wnaethom lwyddo i drefnu cyfweliadau gydag unrhyw swyddogion o bleidiau. Yn lle hynny, rydym wedi clywed yn helaeth gan ymgeiswyr sydd wedi bod yn weithgar o fewn pleidiau gwleidyddol. Er na chawsom wybod beth yw sefyllfa swyddogol pleidiau o ran gwella amrywiaeth, clywsom straeon hynod onest a defnyddiol am brofiadau personol yr ymgeiswyr o brosesau dethol o fewn y pleidiau gwleidyddol hynny. Felly, nid ydym mewn sefyllfa i gyffredinoli ein canfyddiadau o'r rhwystrau o fewn proses dethol ymgeiswyr fewnol, ac ni allwn ychwaith gyffredinoli ein hasesiad o'r cymorth a roddir i ymgeiswyr gan bleidiau.

# RHAN 2. ADOLYGIAD O'R DYSTIOLAETH

Nod yr adolygiad hwn o dystiolaeth yw gosod yr ymchwil bresennol yn ei chyd-destun o fewn y prif ddadleuon academaidd ynghylch amrywiaeth a recriwtio gwleidyddol ac o fewn arfer presennol wrth helpu ymgeiswyr a chynrychiolwyr etholedig i wneud eu gwaith.

Mae'n amlwg na chaiff rhai grwpiau cymdeithasol eu cynrychioli'n ddigonol. Wrth chwilio am y rheswm sylfaenol dros y diffyg amrywiaeth (nid dim ond amrywiaeth rhwng y rhywiau) mewn deddfwrfeydd, mae ysgolheictod wedi holi p'un a yw "the narrow social composition of legislatures suggests either that certain groups within society are less capable of representing others, or that something has gone awry in the recruitment process."[12]

## 2.1. Adolygiad o'r llenyddiaeth sy'n bodoli eisoes

Wrth gysyniadoli cwestiwn ymchwil y Bwrdd, sef *'a gaiff "amrywiaeth eang o bobl sydd â'r sgiliau a'r diddordeb priodol" eu hatal rhag sefyll etholiadau'r Cynulliad gan unrhyw agwedd ar y pecyn taliadau (cyflog, pensiwn, gofal plant a lwfansau swyddfa a staff) a beth a allai eu cymell i wneud hynny'*, gwnaethom ddechrau drwy angori'r ddadl hon ym maes eang recriwtio gwleidyddol.

Yn yr adrannau canlynol, adolygwn y prif ddadleuon ynghylch 1) esboniadau o'r diffyg amrywiaeth ym maes recriwtio gwleidyddol a 2) awgrymiadau normadol i unioni'r anghydbwysedd o ran cynrychiolaeth wleidyddol.

### 2.1.1 Esboniadau

Hyd yn hyn, un o'r modelau mwyaf defnyddiol a ddatblygwyd i fframio recriwtio gwleidyddol ac amrywiaeth fu'r model Cyflenwi a Galw a arloeswyd gan waith Norris a Lovenduski yng nghyd-destun rhywedd, hil a dosbarth yn Senedd Prydain.[13] Y prif honiad yw y gellir dod o hyd i esboniadau o dangynrychiolaeth drwy edrych ar y ffactorau cyflenwi a galw sy'n sail i recriwtio gwleidyddol. Mae ffactorau cyflenwi (fel uchelgais wleidyddol bersonol, cymhelliant, yn ogystal ag argaeledd adnoddau, fel amser ac arian) yn dylanwadu ar bwy sy'n cynnig ei hun fel ymgeisydd, tra bod y ffactorau galw (fel pleidiau gwleidyddol a'u detholwyr, y system etholiadol a normau diwylliannol-gymdeithasol sy'n dominyddu cymdeithas) yn effeithio ar bwy sy'n ddymunol fel ymgeisydd.[14]

Mae'r model galw a chyflenwi, a ddefnyddiwyd gan lawer o astudiaethau empiraidd dilynol yn y DU a thu hwnt, wedi llywio a datblygu ein dealltwriaeth o'r ffactorau unigol, strwythurol, gwleidyddol, sefydliadol a diwylliannol-gymdeithasol sy'n effeithio ar recriwtio gwleidyddol.

---

12 Murray, R. (2014). Quotas for Men: Reframing Gender Quotas as a Means of Improving Representation for All. *American Political Science Review* 108 (3): 520-532, 520.
13 Norris, P., a Lovenduski, J. (1995). *Political recruitment: Gender, race and class in the British Parliament*. Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
14 Idem Norris a Lovenduski (1995)

## *Ffactorau unigol*

Ar ochr gyflenwi recriwtio gwleidyddol, mae ysgolheictod wedi ceisio mynd y tu hwnt i rethreg syml 'oni fyddai mwy o ymgeiswyr sy'n [fenywod, lleiafrifoedd ethnig, unigolion LGBT, pobl ag anableddau ac ati] yn cyflwyno'u hunain' ac ystyried rôl amgylchiadau personol (amser ac arian i gynnal ymgyrch, er enghraifft), profiad a sgiliau, yn ogystal ag uchelgais wleidyddol a chymhelliant unigolion o grwpiau penodol nas cynrychiolir yn ddigonol i geisio swydd etholedig.

Mae rhai astudiaethau wedi nodi bod menywod, er enghraifft, yn llai uchelgeisiol yn wleidyddol na dynion wrth geisio swydd etholedig, ond cysylltir hyn â phatrymau hirsefydledig o wahanol fathau o gymdeithasoli i mewn i wleidyddiaeth a brofir gan ddynion a menywod.[15] Yn ddiddorol, ymddengys mai atgasedd tuag at etholiadau sy'n rhwystro menywod (felly'r broses), lle mae cost a gwirionedd wrth ymgyrchu yn ffactorau pwysig.[16] Nododd astudiaeth Undeb Rhyng-Seneddol [URhS] yn 2011 ar seneddau sy'n sensitif o ran rhywedd,[17] fod uchelgais wleidyddol, hyder a chymhelliant menywod i sefyll etholiadau yn cael eu rhwystro gan systemau gwleidyddol ac etholiadol, heriau diwylliannol a heriau economaidd-gymdeithasol, fel canfyddiadau cyhoeddus, sylw yn y cyfryngau, ond yn bwysicach, gan fynediad mwy cyfyngedig menywod i adnoddau ariannol ac amser[18] er mwyn cefnogi eu henwebiad ac ymgyrchoedd etholiadol. Mae cost ymgyrchu yn debygol o atal ystod eang o unigolion sy'n profi anghydraddoldebau strwythurol dwfn - mae hil ac ethnigrwydd hefyd yn elfennau nodedig. O fewn y cyd-destun Prydeinig, mae ymchwil Allen & Cutts yn darparu golwg ddefnyddiol ar y berthynas gymhleth o ffactorau sy'n effeithio ar uchelgais wleidyddol tu hwnt i rywedd.[19] Mae lefel addysg, incwm a daearyddiaeth hefyd yn nodweddion cryf. Mae'r ymchwil yn datgelu, er enghraifft, bod uchelgais wleidyddol yng Nghymru yn is na'r Alban, Llundain, Dwyrain Lloegr, De Orllewin a De Ddwyrain Lloegr.

Mae astudiaethau empeiraidd eraill wedi ceisio chwalu'r myth mai'r rheswm nad oes pobl dosbarth gweithiol mewn deddfwrfeydd taleithiol yn yr U.D.A., er enghraifft, yw'r ffaith bod ganddynt lai o gymwysterau, ond bod hynny'n ymwneud yn fwy â darpar ymgeiswyr yn cael eu dylanwadu gan ffactorau allanol ar yr ochr alw - gweithdrefnau dewis ymgeiswyr pleidiau gwleidyddol er enghraifft.[20] Ym Mhrydain, mae ysgolheictod yn tynnu sylw at y ffaith, er gwaethaf mwy o symudedd cymdeithasol, fod llwybrau etholiadol, mewn gwirionedd, wedi crebachu oherwydd tueddiadau diweddar wrth broffesiynoli gwleidyddiaeth, lle mae unigolion o broffesiynau sy'n hwyluso gwleidyddiaeth (addysg, y gyfraith, newyddiaduraeth) neu sydd â chefndir mewn gwleidyddiaeth yn barod (ymchwilydd gwleidyddol, yn gweithio i blaid wleidyddol ac ati) yn dueddol o ddominyddu cyfansoddiad sefydliadau etholedig.[21] Yn ategu'r haeriadau hyn mae astudiaeth 2011 y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a archwiliodd

15 Lawless, J. L., a Fox, R. L. (2010). *It still takes a candidate: Why women don't run for office*. Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
16 Kanthak, K., a Woon, J. (2015). Women don't run? Election aversion and candidate entry. *American Journal of Political Science*, 59(3), 595-612.
17 Palmieri, S. (2011) Gender-Sensitive Parliaments. Genefa: Undeb Rhyng-Seneddol, URL: http://archive.ipu.org/pdf/publications/gsp11-e.pdf
18 Norris, P., a Lovenduski, J. (1993). 'If only more candidates came forward': Supply-side explanations of candidate selection in Britain. *British Journal of Political Science*, 23(3), 373-408.
19 Allen, P., & Cutts, D. (2018). An Analysis of Political Ambition in Britain. *The Political Quarterly,* 89(1), 73-81.
20 Carnes, N. (2016). Why are there so few working-class people in political office? Evidence from state legislatures. *Politics, Groups, and Identities,* 4(1), 84-109.
21 Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin (2016). Briffiad Staff: Social background of MPs 1979-2015. URL: http://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-7483/CBP-7483.pdf

lwybrau i wleidyddiaeth, lle honnir bod y llwybrau traddodiadol (ymwneud hirsefydledig â phlaid wleidyddol) a newydd (profiad gwaith ym maes gwleidyddiaeth, addysg prifysgol) i wleidyddiaeth, oherwydd eu hamlygrwydd, yn rhoi ymgeiswyr sy'n dilyn llwybrau amgen o dan anfantais, gan felly leihau eu siawns o gael eu henwebu a chael eu hethol yn y pen draw.[22] Er y dywedwyd bod y Cynulliad Cenedlaethol yn fwy amrywiol na San Steffan, nodwn y nifer fawr o ACau a etholwyd yn 2016 sydd â chefndiroedd yn y 'proffesiynau sy'n hwyluso gwleidyddiaeth' fel y'u gelwir (proffesiwn cyfreithiol, addysg ac addysg uwch, materion cyhoeddus ac eiriolaeth, yn ogystal â chefndiroedd ymchwil wleidyddol neu gynorthwywyr).[23]

Er y gall rhai ffactorau unigol effeithio ar gymhelliant unigolion â nodweddion gwarchodedig i gynnig eu hunain, gall canfyddiad pobl o wleidyddiaeth a sefydliadau gwleidyddol - fel 'clwb y dynion', lle mae rheolau ysgrifenedig anhygyrch yn parhau ac yn dominyddu ymddygiad cynrychiolwyr etholedig, gan greu'r ymdeimlad o beidio â pherthyn i eraill - gael effaith negyddol ar uchelgais wleidyddol.[24]

## *Ffactorau strwythurol*

Gall y ffactorau strwythurol sy'n effeithio ar recriwtio gwleidyddol gynnwys deddfwriaeth gwrthwahaniaethu, cyllid plaid, y system etholiadol ac ati. Gall y system etholiadol, er enghraifft, fod yn rhagfynegydd da iawn o ran rhywedd, lleiafrifoedd ethnig ac amrywiaeth oedran yn y senedd, yn enwedig democratiaethau Gorllewinol. Datgela astudiaethau cymharol fod mathau o gynrychiolaeth gyfrannol (PR) yn lliniaru rhai o effeithiau andwyol systemau mwyafrifol ar fenywod a lleiafrifoedd ethnig[25] [26], yn ogystal ag ar ymgeiswyr ifanc[27], tra bod systemau etholiadol mwyafrifol yn gyfystyr â rhwystr strwythurol a systemig i gael swydd etholedig ar gyfer y grwpiau hyn. Mae cystadleuaeth etholiadol dosbarth aelod unigol hefyd yn ychwanegu cyfnod mewn swydd at y broblem.[28] Mae'r rhain yn cyfyngu ar y cyfle etholiadol am ystod ehangach o unigolion i gymryd rhan yn y broses enwebu o fewn pleidiau gwleidyddol. Nid yw PR ar ei ben ei hun, fodd bynnag, yn ateb i seneddau amrywiol, ac mae ei dylanwad cyffredinol o ran llywio mynediad i rym gwleidyddol ar gyfer lleiafrifoedd ethnig er enghraifft ond yn gyfyngedig os nad eir i'r afael ag agweddau diwylliannol ehangach.[29]

## *Ffactorau gwleidyddol*

Disgrifiwyd pleidiau gwleidyddol fel 'porthorion' y broses recriwtio gwleidyddol a thrafodwyd

---

22 Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011). *Pathways to politics*, Llundain, URL: https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/research-report-65-pathways-to-politics.pdf
23 http://www.walesonline.co.uk/news/politics/assembly-election-2016-full-list-11292401
24 Idem Palmieri (2011)
25 Ruedin, D. (2009). 'Ethnic Group Representation: A Cross-National Comparison.' *The Journal of Legislative Studies* 15(4): 335–54.
26 Bird, K. (2003). The political representation of women and ethnic minorities in established democracies: A framework for comparative research. *Documento presentado ante la Academia de estudios de migración de Dinamarca, Universidad de Aalborg, 11.*
27 Stokemer, D. a Sundstrom, A. (2016). Can Institutions pave the way for the young? - Electoral systems and age participation in parliament, Sefydliad Ansawdd Llywodraeth, Prifysgol Gothenburg, URL: https://qog.pol.gu.se/digitalAssets/1563/1563019_2016_2_stockemer_sundstro--m.pdf
28 Idem Bird, K. (2003).
29 Idem Ruedin (2009)

eu methiannau wrth sicrhau amrywiaeth o fewn cronfa o ymgeiswyr a gyflwynir ganddynt mewn etholiad i raddau helaeth yn y llenyddiaeth. Mae ysgolheictod yn tynnu sylw at weithdrefnau dethol ymgeiswyr anhryloyw ac, ar adegau, wahaniaethol gan bleidiau[30], gwahaniaethu uniongyrchol neu briodoledig[31] a rhagfarn[32] eu detholwyr, ac anallu epistemig pleidiau i ddeall yn llawn y cysyniad o dangynrychiolaeth ac amrywiaeth. Mae 'tuedd anymwybodol' wrth ddethol ymgeiswyr hefyd wedi'i godi yn adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2011.[33]

Un ffactor strwythurol sy'n galluogi pleidiau gwleidyddol i reoli'r broses recriwtio gwleidyddol yw absenoldeb, yn y rhan fwyaf o ddemocratiaethau, feini prawf dethol ymgeiswyr sydd mewn cyfraith genedlaethol, yn hytrach na bod yn destun prosesau mewnol pleidiau gwleidyddol. Ceir rhai eithriadau nodedig yn y Ffindir, yr Almaen, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau.[34]

Mae corff arall o ysgolheictod yn canolbwyntio ar rinweddau mentrau rhai pleidiau gwleidyddol wrth hyrwyddo gweithredu cadarnhaol. Ym Mhrydain, mae cryn dipyn o'r cynnydd o ran cynrychioli'r rhywiau wedi'i briodoli i fabwysiadu Rhestrau Byr Menywod yn Unig gan y Blaid Lafur yn Etholiad Cyffredinol 1997, heb i'r blaid wynebu unrhyw 'gosb' etholiadol o bosibl.[35] Bu ffactorau strwythurol, fel absenoldeb gwaddol sefydliadol a phresenoldeb cyfleoedd newid cyfansoddiadol, yn hollbwysig wrth hwyluso'r effaith heintus ar lefel isgenedlaethol yn yr etholiadau datganoledig cyntaf yng Nghymru, lle gwnaeth Plaid Cymru hefyd fabwysiadu gweithredu cadarnhaol, gan felly wneud cynnydd sylweddol o ran cynrychioli'r rhywiau.[36] Er hyn, rhaid gochel rhag canmol y cynnydd a wnaed yng Nghymru a'r Alban o ran cynrychioli'r rhywiau yn ormodol, gan fod peth o'i lwyddiant parhaus oherwydd lwc yn hytrach nag o ganlyniad i waith cynllunio gofalus a chynaliadwy.[37]

Ystyrir yn arbennig fod prosesau dethol ymgeiswyr yn rhwystr mawr i ddethol unigolion o leiafrifoedd ethnig[38] am fod pleidiau yn dueddol o gredu bod ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig yn colli pleidleisiau ymhlith pleidleiswyr gwyn.[39] Noda ysgolheictod y gallai arwyddocâd 'cosb ethnig' gael ei orddatgan, gan fod effaith negyddol ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig yn rhy fach i beri risg sylweddol mewn etholaethau 'gwyn' diogel.[40]

## *Ffactorau sefydliadol*

Mae ein hadolygiad o dystiolaeth yn cyfeirio at rai ffactorau sefydliadol pwysig sy'n golygu bod y syniad o ddod yn gynrychiolydd etholedig yn llai deniadol i rai unigolion. Er enghraifft, ystyrir bod

30 Niven, D. (1998). Party elites and women candidates: The shape of bias. *Women & Politics*, 19(2), 57-80.
31 Norris, P., a Lovenduski, J. (1995). *Political recruitment: Gender, race and class in the British Parliament*. Gwasg Prifysgol Caergrawnt.
32 Idem Bird (2003).
33 Idem Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011)
34 Hazan, R. Y., a Rahat, G. (2010). *Democracy within parties: Candidate selection methods and their political consequences*. Gwasg Prifysgol Rhydychen.
35 Allen, P., Cutts, D., & Campbell, R. (2016). Measuring the Quality of Politicians elected by gender quotas–are they any different?. *Political Studies*, 64(1), 143-163.
36 McAllister, L., & Stirbu, D. S. (2007). Opportunities for gender innovations in a new political space. *International Journal of the Interdisciplinary Social Sciences*, 1(1), 1-11.
37 Mackay, F., & McAllister, L. (2012). Feminising British politics: Six lessons from devolution in Scotland and Wales. *The Political Quarterly*, 83(4), 730-734.
38 Heath, O. (2015). Policy Representation, Social Representation and Class Voting in Britain. *British Journal of Political Science*, 45(1), 173-193.
39 Idem Norris a Lovenduski (1995)
40 Curtice, J., & Clery, E. (2010). *British Social Attitudes: The 27th Report*. SAGE Publications.

oriau a phatrymau gwaith sefydliadau seneddol yn hynod o broblematig i fenywod.[41] Mae amseru tymhorau seneddau, ar y cyd â chyfleusterau gofal plant (fel creche) cyfyngedig, yn gwrthdaro ag ymrwymiadau gofal plant a theuluol, sy'n effeithio ar fenywod a rhieni sengl yn anghymesur.[42] Dim ond yn ddiweddar yr ystyriwyd agweddau hygyrchedd ystadau seneddol a darpariaethau gofal plant, oriau gwaith sy'n ystyriol o deuluoedd, a chyfnodau o absenoldeb rhiant.[43]

Nid yw'r iaith ffurfiol a hen ffasiwn yn aml, ynghyd â'r gweithdrefnau a'r codau ymddygiad anhryloyw mewn deddfwrfeydd, yn ddymunol i bobl ifanc, menywod a lleiafrifoedd ethnig a phobl o gefndiroedd llai cefnog.[44] Mae naws dadleuon mewn rhai siambrau, sy'n aml yn fychanol neu'n nawddoglyd,[45] yn gwneud fawr ddim i ddenu ystod ehangach o dalent i'n deddfwrfeydd democrataidd.

Ymhlith y ffactorau sefydliadol eraill sy'n effeithio ar recriwtio gwleidyddol mae diffyg gweladwyedd unigolion etholedig o grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol sydd mewn rolau arwain yn y seneddau eu hunain (h.y. cadeiryddion pwyllgorau, chwipiaid, siaradwyr). Hyd nes y cyflwynir gwell mesurau cydraddoldeb sefydliadol fel rhan o weithrediadau seneddau, mae'n amheus p'un a allant greu delwedd gadarnhaol a deniadol i ddarpar wleidyddion o ystod ehangach o gefndiroedd.[46]

### *Ffactorau diwylliannol-gymdeithasol*

Mae anghydraddoldebau dwfn o ran dosbarth, hil a rhywedd wrth wraidd tangynrychiolaeth ac fe'u gwaethygir gan y broses recriwtio gwleidyddol. Mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn 2011 yn tynnu sylw at y ffaith y gall rhai grwpiau â nodweddion gwarchodedig (fel pobl ag anableddau) wynebu rhwystrau sylweddol o ran diffyg dealltwriaeth o'r materion a'r heriau penodol a wynebir gan y grwpiau hyn.[47]

Tanlinellir y rhwystr dwbl ac atgyfnerthu anghydraddoldebau strwythurol ymhellach yn yr adroddiad, 'For candidates from under-represented groups who do put themselves forward, the barriers to their success are high, the pathways available are narrow, and the support they receive from institutions is limited. [...] However, the prevent factors can have the effect of 'disproportionately disenfranchising specific groups' [...]. These groups can often face double barriers by not having push factors present in their socialisation and not being sought out, encouraged or 'pulled in' by political parties or political institutions."[48]

Pwysleisir hyn ymhellach yn y cofnodion prin fel arall o wleidyddiaeth etholiadol ac anabledd. Mae amlygrwydd mater lles cymdeithasol i bobl ag anableddau mewn gwleidyddiaeth etholiadol wedi'i godi yng nghyd-destun democratiaeth aml-haenog y DU. Mae astudiaeth

41 Ballington, J. (2008) Equality in Politics. Genefa: Undeb Rhyng-seneddol.
42 Idem Palmieri (2011).
43 Krook, M. L., a Norris, P. (2014). Beyond quotas: Strategies to promote gender equality in elected office. *Political Studies*, 62(1), 2-20.
44 Idem Palmieri (2011).
45 Idem Palmieri (2011)
46 Mackay, F., a McAllister, L. (2012). Feminising British politics: Six lessons from devolution in Scotland and Wales. *The Political Quarterly*, 83(4), 730-734.
47 Idem Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011).
48 Idem Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011), t. 17.

o 2013 yn sôn am 'failure of political parties to develop policy proposal fully consistent with the UN Declaration on the Rights of Disabled Persons as well as EC [European Commission] exhortations to mainstream equality.'[49] Yng nghyd-destun tangynrychiolaeth ddifrifol pobl ag anableddau yn ein deddfwrfeydd etholedig, nid yw'n syndod nad yw'r sefydliadau hyn yn llwyddo i gynrychioli buddiannau pobl ag anableddau yn sylweddol.

### *Cyfyngiadau'r llenyddiaeth*

Er y gallai'r adolygiad hwn fod o fudd i ddeall rhai o benderfynyddion cryfach tangynrychiolaeth (unigol, strwythurol, gwleidyddol, sefydliadol a diwylliannol-gymdeithasol), nid yw'r dull gweithredu un neu ddwy elfen amrywiaeth (h.y. rhywedd, neu rhywedd ac ethnigrwydd) yn gwneud fawr ddim i feithrin gwell dealltwriaeth o groestorri. Mae rhai astudiaethau yn mynd ati i ystyried y croestoriad rhwng ethnigrwydd, rhywedd a dosbarth o sawl cyfeiriad,[50] [51] ond eithriad yw'r rhain yn hytrach na'r norm.[52] Gall hyn arwain nid yn unig at ddealltwriaeth ddarniog o ffenomenon tangynrychiolaeth ond hefyd ddiriaethu a hanfodoli grwpiau penodol tra'n methu â chydnabod na gwahodd amrywiaeth oddi mewn iddynt.[53] Mae perygl hefyd fod y fath segmentu yn arwain at hierarchaeth llinynnau o amrywiaeth - rhywedd, ethnigrwydd a hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, dosbarth ac ati.

### 2.1.2 Atebion

Mae'r rhan fwyaf o'r llenyddiaeth yn trafod rhinweddau a diffygion gwahanol mesurau sefydliadol a gwleidyddol amrywiol i wella amrywiaeth fel: democrateiddio gweithdrefnau dethol ymgeiswyr o fewn pleidiau gwleidyddol[54]; cyflwyno cwotâu rhywedd[55] neu ieuenctid[56] cadw seddi i grwpiau â nodweddion gwarchodedig[57]; mesurau gweithredu cadarnhaol[58] a gwarantau cydraddoldeb, gwahanol systemau etholiadol neu fathau o fentora a chymorth i unigolion o grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol.

Mae peth cytundeb yn y llenyddiaeth fod angen ymdrin â'r diffyg amrywiaeth hwnnw mewn gwleidyddiaeth o sawl cyfeiriad. Er bod systemau sy'n cynnwys mwy o gynrychiolaeth gyfrannol yn dueddol o wella'r siawns o ethol ystod ehangach o unigolion, nid yw hyn yn ddigon ar ben ei hun. Cytunir hefyd mai cwotâu rhywedd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau ateb cyflym i'r

49 Chaney, P. (2013). Electoral Competition, Issue Salience and Public Policy for Disabled People: Westminster and Regional UK Elections 1945–2011, *Parliamentary Affairs,* 66(2), 364–383.
50 Idem Norris, P., a Lovenduski, J. (1995).
51 Evans, E. (2016). Diversity Matters: Intersectionality and Women's Representation in the USA and UK, *Parliamentary Affairs,* 69(3),569–585.
52 Mügge L. a De Jong S. (2013) 'Intersectionalizing European Politics: Bridging Gender and Ethnicity', *Politics, Groups, and Identities,* 1, 380–389.
53 Bird, K. (2003). 'The political representation of women and ethnic minorities in established democracies: A framework for comparative research'. *Documento presentado ante la Academia de estudios de migración de Dinamarca, Universidad de Aalborg, 11.*
54 Bille, L. (2001). Democratizing a democratic procedure: Myth or reality? Candidate selection in Western European parties, 1960-1990. *Party politics*, 7(3), 363-380.
55 Dahlerup, D. (2012). *The impact of gender quotas.* Gwasg Prifysgol Rhydychen.
56 Idem Stockemer a Sundstrom (2016).
57 Zuber, C. I. (2015). Reserved Seats, Political Parties, and Minority Representation. *Ethnopolitics*, 14(4), 390-403.
58 Norris, P. (2001). Breaking the barriers: Positive discrimination policies for women. *Has liberalism failed women*, 89-110.

anghydbwysedd rhwng y rhywiau mewn deddfwrfeydd[59] [60]; fodd bynnag, mae llai o gonsenswS o ran pa mor ddymunol yw cwotâu[61] a ph'un a all cwotâu ymdrin â chroestorri.[62]

Yng nghyd-destun Prydain, mae adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sef Pathways to Politics, yn cynnwys argymhellion pwysig sydd wedi'u targedu ar lefel plaid wleidyddol, gwladol a sefydliadol. Yn achos y ddau olaf, mae rhai o'r argymhellion yn cynnwys:

- diwygio'r system etholiadol i fodel cynrychiolaeth gyfrannol;
- diwygio gweithdrefnau seneddol er mwyn sicrhau bod yr oriau yn ystyriol o deuluoedd;
- gwneud darpariaethau i gynnig cyfleusterau gofal plant ar y safle neu gerllaw'r ystadau seneddol;
- diwygio gweithdrefnau seneddol fel bod aelodau etholedig yn gallu rhannu swydd;
- sicrhau bod ymgeiswyr, yn enwedig y rhai o grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol, yn cael cymorth gan sefydliadau lle maent yn enwebu eu hunain ar gyfer mentora/rhwydweithio'n anffurfiol â chydweithwyr;
- ymgorffori system monitro amrywiaeth;
- creu 'cronfa mynediad i fywyd cyhoeddus' – yn debyg i Gronfa Waith sy'n talu cost addasiadau rhesymol cyflogi pobl ag anableddau;
- ehangu cylch gwaith y gronfa mynediad hon y tu hwnt i ymgeiswyr ag anableddau i ymgeiswyr o gartrefi incwm isel a grwpiau eraill nas cynrychiolir yn ddigonol.[63]

Un o'r darnau o waith mwyaf cynhwysfawr a defnyddiol hyd yn hyn yw briffiad yr Athro Sarah Child, sef *Diversity Sensitive Parliaments*[64] a gyhoeddwyd yn 2017, sy'n dilyn y *Good Parliament Report*[65] a gyhoeddwyd yn 2016 ac sy'n datblygu fframwaith seneddau sensitif o ran rhywedd[66] yr URhS i fod yn fframwaith seneddau sensitif o ran amrywiaeth. Mae'r fframwaith hwn yn cydnabod "that women are not the only group underrepresented in politics and Parliament, and that these other exclusions should also be recognised and rectified."[67]

Gwnaeth y Good Parliament Report gyfres o 43 o argymhellion wedi'u grwpio yn ôl tair prif elfen *(Cydraddoldeb cyfranogi yn y Tŷ, Seilwaith Seneddol a Diwylliant Tŷ'r Cyffredin)* ac roeddent yn targedu ffigyrau penodol: Llefarydd y Tŷ; strwythurau gwleidyddol a gweinyddol o fewn Tŷ'r Cyffredin; pleidiau gwleidyddol; yn ogystal â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a'r Gweinidog dros Fenywod a Chydraddoldebau. Ymhlith yr argymhellion gwella amrywiaeth hyn, sydd o ddiddordeb i'n hymchwil bresennol, crybwyllwn y canlynol:

59 Mackay, F., & McAllister, L. (2012). Feminising British politics: Six lessons from devolution in Scotland and Wales. *The Political Quarterly,* 83(4), 730-734.
60 Dahlerup, D. (2012). *The impact of gender quotas.* Gwasg Prifysgol Rhydychen.
61 Krook, M. L. (2010). *Quotas for women in politics: Gender and candidate selection reform worldwide.* Gwasg Prifysgol Rhydychen.
62 Hughes, M. M. (2011). Intersectionality, quotas, and minority women's political representation worldwide. *American Political Science Review,* 105(3), 604-620.
63 Idem Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2011).
64 Childs, S. (2017). Diversity Sensitive Parliament - Parliamentary Practice Comparison, URL: http://mlkrook.org/pdf/Childs_2017.pdf
65 Childs, S. (2016). The Good Parliament Report, URL: https://goo.gl/4sCsmW
66 Idem Palmieri (2011).
67 Idem Childs (2017). P. 2.

- Gwella gwybodaeth am rôl a gwaith cynrychiolwyr etholedig, a'u hyrwyddo, gan felly gyfrannu at godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r amrywiaeth o nodweddion, setiau sgiliau a phrofiadau sy'n berthnasol i'r swydd;
- Sicrhau cytundeb trawsbleidiol o ran dethol ymgeiswyr ar gyfer yr etholiad nesaf fel nad yw cynrychiolaeth gyffredinol menywod yn mynd islaw lefelau presennol;
- Cyflwyno gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer cyfnodau o absenoldeb mamolaeth, tadolaeth, rhieni, mabwysiadu a gofalu;
- Cyflwyno cwotâu rhywedd ar gyfer ethol cadeiryddion pwyllgorau dethol os nad yw'r cydbwysedd rhwng y rhywiau mewn rolau arwain pwyllgorau dethol yn gwella erbyn 2024;
- Sicrhau bod y rhywiau / rhywedd yn cael eu cynrychioli ymhlith aelodau pwyllgorau dethol;
- Diwygio cynnwys deunyddiau gwefan seneddol er mwyn ategu'r gred y gall cynrychiolwyr etholedig ddod o gefndiroedd amrywiol;
- Sicrhau y gwneir gwaith adrodd a monitro amrywiaeth (gan gynnwys tystion pwyllgorau dethol);
- Egluro statws ac effeithiolrwydd y Gronfa Mynediad i Swydd Etholedig o ran cefnogi pobl ag anableddau i sefyll etholiad fel cynghorwyr lleol neu ASau;
- Sefydlu pwyllgor parhaol Menywod a Chydraddoldebau;
- Sicrhau bod rheolau, strwythurau a diwylliant sefydliadol yn sensitif o ran amrywiaeth;
- Treialu fformatau newydd ar gyfer Cwestiynau'r Prif Weinidog.

Mae argymhellion *The Good Parliament* Report yn datgelu'r un gofyniad o ran dull gweithredu cyfannol, ac ymdrechion ar y cyd i ymdrin â'r diffyg amrywiaeth mewn seneddau, a welwn yn y llenyddiaeth ehangach.[68]

Mae adroddiad diweddar y Panel Arbenigol ar Ddiwygio Etholiadol y Cynulliad hefyd yn arwyddocaol i'n trafodaeth. Mae'r adroddiad yn cynnwys sawl argymhelliad a allai wella amrywiaeth o fewn y Cynulliad Cenedlaethol, fel cynyddu ei faint, newid y system etholiadol i fodel cynrychiolaeth gyfrannol, ac, yn fwyaf diddorol, gyflwyno cwotâu rhywedd.[69]

## 2.2. Adolygiad o arferion presennol mewn deddfwrfeydd eraill

Mae'r ail ran o'r adolygiad hwn o dystiolaeth yn casglu gwybodaeth berthnasol am arferion presennol mewn deddfwrfeydd eraill. Yn naturiol, mae'r adran hon yn canolbwyntio'n fwy ar benderfynyddion sefydliadol yr hyn sy'n gwneud swydd gwleidydd etholedig yn ddeniadol ai peidio. Lle y gallem, gwnaethom gynnwys rhai o nodweddion y system wleidyddol ac etholiadol hefyd.

Yn y rhan fwyaf o systemau seneddol mae pecynnau taliadau yn cynnwys 1) y cyflog sylfaenol, pensiwn a thaliadau swydd ychwanegol, 2) costau llety a theithio, 3) cymorth i redeg swyddfa seneddol a chostau staff, 4) lwfansau a threuliau eraill y gellir eu hawlio a 5) darpariaethau ar

68 Idem Childs (2016)
69 EPAER (2017). Senedd sy'n gweithio i Gymru, URL: https://goo.gl/WpyYLd

gyfer iawndal diwedd mandad. Ceir gwahaniaethau, yn enwedig o ran y lefel o gymorth a roddir i ASau er mwyn rhedeg eu swyddfeydd, y lefel o ragnodi o ran y costau y gellir eu hawlio ac yn fwy cyffredinol o ran y buddiannau ychwanegol y mae gan gynrychiolwyr etholedig hawl iddynt wrth gyflawni eu mandad.

### 2.2.1 Cyflog, Lwfansau a Phensiynau

Gwnaethom nodi rhai amrywiadau diddorol yn y ffordd y mae deddfwrfeydd yn dewis rheoleiddio ymddygiad seneddwyr drwy'r system taliadau. Mae rhai yn defnyddio system wobrwyo (h.y. Latfia, Gwlad Groeg, Rwmania)[70] - lle telir ASau ffi ychwanegol i ASau am bob cyfarfod llawn neu gyfarfod pwyllgor a fynychir ganddynt, tra bod eraill yn defnyddio system gosbi lle mae ASau yn colli cyfran o'u cyflog am bob cyfarfod llawn neu gyfarfod pwyllgor a gollir ganddynt (Tŷ Cynrychiolwyr Berlin)[71] neu am absenoldeb neu waharddiad dros dro am fwy na thridiau (Seland Newydd).[72] Yn yr Almaen, caiff cyflogau ASau yn neddfwrfa Berlin eu haddasu yn ôl newidiadau i gyflog cyfartalog cyflogeion llawn amser, a fesurir gan sectorau fel adeiladu, lletygarwch, gwerthu tai, iechyd a gwaith cymdeithasol, ac addysg gyhoeddus.[73]

O ran y math o lwfansau a chostau y gellir eu hawlio, a'u swm, mae rhai deddfwrfeydd yn fwy rhagnodol na'i gilydd. Yn Slofenia, mae costau fel rheol ar gael yn rhwydd hyd at oddeutu €740 y mis, ond gall ASau hefyd hawlio costau cynrychiolaeth hyd at oddeutu €890 y mis.[74] Mae nifer fach o ddeddfwrfeydd yn cynnig eithriadau treth ar gyflogau (neu swmp o'r cyflog) a/neu ar rai lwfansau (h.y.  Gwlad Belg,[75] Cyprus,[76] Seland Newydd[77]).

O ran pensiynau, nid yw pob deddfwrfa yn cynnig cynllun pensiwn yn awtomatig. Mae'r rheolau'n amrywio o ran bod yn gymwys a hawliau pensiwn llawn. Er enghraifft, yn Sweden, dim ond atodi pensiynau cyhoeddus a wna pensiynau henaint gan y senedd.[78] Yn y Landtag, Westffalia Gogledd y Rhein, mae cyfraniadau o €1,000 y mis at gynlluniau pensiwn a €500 y mis at yswiriant iechyd yn orfodol.[79] Yn neddfwrfeydd y DU, caiff cynrychiolwyr etholedig eu cynnwys yn awtomatig mewn cynlluniau pensiwn, fel y mae'r staff sy'n gweithio yn eu swyddfeydd.[80] [81]

Ceir darpariaethau yswiriant bywyd, anafiadau a hyd yn oed fagiau mewn rhai deddfwrfeydd. Yn Sweden, caiff ASau yswiriant bywyd ar ffurf grŵp rhag anafiadau galwedigaethol.[82] Yn Norwy, mae'r senedd wedi trefnu cydyswiriant bagiau ar gyfer colledion o hyd at NOK 35,000.[83]

---

70 Van der Hulst, M. (2000). *The parliamentary mandate: a global comparative study*. Undeb Rhyng-seneddol.
71 Tŷ Cynrychiolwyr Berlin (2017). Y Gyfraith ar Gysylltiadau Cyfreithiol Aelodau Tŷ Cynrychiolwyr Berlin (Landesabgeordnetengesetz - LAbgG), URL: https://goo.gl/Ns9C1y
72 Senedd Seland Newydd (2013.) *Members of Parliament (Remuneration and Services) Act 2013*, URL: https://goo.gl/de1Svq
73 Idem Tŷ Cynrychiolwyr Berlin (2017).
74 http://www.cityam.com/229115/how-does-europe-pay-its-politicians
75 http://www.cityam.com/229115/how-does-europe-pay-its-politicians
76 Van der Hulst, M. (2000). *The parliamentary mandate: a global comparative study.* IPU.
77 Awdurdod Cydnabyddiaeth Senedd Seland Newydd (2016). *Parliamentary Salaries and Allowances Determination 2016*, URL: https://goo.gl/DyZ4FH
78 http://www.riksdagen.se/en/how-the-riksdag-works/the-work-of-the-riksdag/the-members/
79 Kölner Stadt-Anzeiger (2017) So much do MPs and ministers in NRW deserve (cyfieithiad), URL: https://goo.gl/zHcCxM
80 IPSA (2017). The scheme of MPs' costs and expenses 2017-18, URL: https://goo.gl/w9K315
81 Senedd yr Alban (2015). Guidance on the Reimbursement of Members' Expenses Scheme, URL: https://goo.gl/znoZsd
82 The Riksdag (2017). How the Riksdag Works - The Members URL: https://goo.gl/QL74uc
83 The Stortinget (2017). Financial Support for Mps, URL: https://goo.gl/QYr3i1

Gwnaethom hefyd nodi bod cryn amrywiaeth yn y ffordd mae deddfwrfeydd yn cefnogi ASau sy'n gadael neu'n colli eu swyddi. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae rhyw fath o iawndal ar gael, yn amrywio o gyfanswm penodol a delir i'r AS (€10,000 yn Lithwania)[84], i dri mis o gyflog yn Estonia a Seland Newydd. Yn yr Alban, ceir darpariaethau dirwyn i ben sy'n cynnwys ad-dalu costau cyflog staff, ac mae cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiwn yn parhau am gyfnod o dri mis,[85] ond yn San Steffan, dim ond am ddeufis mae hyn ac mae'r swm wedi'i gapio ar £57,150 ar gyfer ASau yn ardal Llundain a £53,950 ar gyfer ASau ym mhob ardal arall. Mae gan ASau nad ydynt yn cael eu hailethol hawl i gael dwywaith y taliad colli swydd statudol.[86] Mewn gwledydd eraill mae rhai mathau o adleoli ariannol neu gymorth pontio pan fydd ASau yn gadael eu mandad. Mae Riksdag Sweden yn gweithredu cynllun incwm gwarantedig sy'n gymwys i'r rhai sydd wedi bod yn aelodau o'r Riksdag cyn 2014 ac wedi'u hailethol yn 2014. Nod y cynllun yw creu rhyw fath o sicrwydd economaidd i'r rhai sydd wedi gadael y Riksdag ar ôl gwasanaethu am o leiaf chwe blynedd. Ar ôl 12 mlynedd o wasanaeth, mae ASau yn gymwys i gael incwm gwarantedig sy'n cyfateb i 66% o gyflog sylfaenol AS.[87] Mae'r system ar gyfer ASau newydd, a etholwyd ar ôl 2014, ychydig yn wahanol. Bydd ASau sydd wedi gwasanaethu am o leiaf flwyddyn yn cael cymorth adleoli, sy'n gymesur â hyd eu gwasanaeth, sy'n cyfateb i 85% o gyflog yr ASau pan fyddant yn gadael eu swydd. Dim ond pan nad oes ffynhonnell incwm arall ar gael y rhoddir y cymorth hwn, ac mae ond ar gael am uchafswm o ddwy flynedd.[88] Yn Nhŷ Cynrychiolwyr Berlin, rhoddir lwfans pontio am uchafswm o 18 mis i'r rhai sydd wedi gwasanaethu am o leiaf flwyddyn fel cynrychiolwyr etholedig.[89]

### 2.2.2. Costau tai a theithio

Yn y rhan fwyaf o'r gwledydd y gwnaethom edrych arnynt, mae darpariaethau cymorth llety yn dibynnu ar ba mor bell y mae'n rhaid i ASau deithio o'u cartref i'r ystadau seneddol. Mae gan nifer o seneddau eu stoc dai eu hunain sydd ar gael i ASau. Yn Sweden, er enghraifft, gall y seneddwyr hynny sy'n byw mwy na 50km o'r senedd aros am ddim yn un o'r 250 o fflatiau dros nos y mae'r Riksdag yn berchen arnynt neu cânt eu had-dalu am aros mewn gwesty i uchafswm penodol.[90] Ceir trefniadau tebyg yn Norwy. Yn Lithwania, caiff ASau nad ydynt yn dod o Vilnius aros mewn 'ystafell gysgu' seneddol wedi'i hadnewyddu a thelir yr holl gostau am wasanaethau cymunol[91]

Mewn rhai gwledydd, caiff y Siaradwr a'r Dirprwy Siaradwr, yn ogystal â'r ASau sy'n gwasanaethu fel gweinidogion, breswylfeydd swyddogol (Seland Newydd er enghraifft[92]) a thelir ystod eang o gostau cysylltiedig. Yn yr Alban a'r DU, caiff ASau cyffredin gymorth a chefnogaeth ariannol tuag at gost naill ai aros dros nos mewn gwesty (fel arfer o fewn terfyn gwario penodol) neu tuag at gost rhentu cartref. Yn Estonia,  ni chaiff yr iawndal hwn, sy'n cynnwys lwfans dyddiol a chostau

84 The Baltic Times (2011). MPs cling on to lavish perks. URL: https://goo.gl/QhH1vE
85 Idem Senedd yr Alban (2015).
86 Idem IPSA (2017).
87 Idem The Riksdag (2017).
88 Idem The Riksdag (2017).
89 Idem Tŷ Cynrychiolwyr Berlin (2017).
90 BBC Newyddion (2009). How Swedish MPs handle expenses: http://news.bbc.co.uk/1/hi/uk_politics/8339465.stm
91 Idem Baltic Times (2011)
92 Senedd Seland Newydd (2014) Member of Parliament Determination (Accommodation and Travel)  https://goo.gl/Dswa9M

llety, fynd dros fwy nag 20% o gyflog yr AS,[93] ond yn y DU, mae cost flynyddol llety y gall ASau hawlio ad-daliad amdani yn cael ei chapio'n wahanol i'r rhai sydd angen llety yn Llundain neu'r tu allan i Lundain. Gall ASau San Steffan hefyd hawlio am gytundebau tenantiaeth a chostau symud hefyd. Mae'r rhai sy'n hawlio am gostau cysylltiedig ar gyfer eu cartrefi eu hunain wedi gweld yr uchafswm yn gostwng i £5,000 y flwyddyn (ers 1 Ebrill 2017), tra gall y rhai â chyfrifoldebau gofal plant hawlio hyd at £5,435 am gostau cysylltiedig ar gyfer eu cartrefi eu hunain.[94]

Ceir trefniant diddorol yn yr Alban, lle mae'r Swyddfa Lwfansau yn hwyluso cryn dipyn o'r prosesau o ran costau llety a theithio: gall wneud taliadau rheolaidd ar gyfer rhentu swyddfa, llety, taliadau morgais, a threth gyngor; mae ganddi gontract â sawl gwesty yng Nghaeredin sy'n anfonebu Senedd yr Alban yn uniongyrchol, ac mae ganddi gontractau â chwmni tacsi lleol hefyd.[95] Gall hyn helpu ASAau i ymdrin â'r cymhlethdodau sy'n gynhenid mewn system treuliau ragnodedig iawn.

Mae'r gwahanol ddeddfwrfeydd y gwnaethom edrych arnynt hefyd yn ymdrin â chostau teithio yn wahanol. Mewn rhai seneddau, caiff ASau docyn tymor blynyddol ar gyfer teithio ar y trên, neu docyn tymor ar gyfer hedfan, os yw'n ddarbodus (Sweden), ond dim ond at ddibenion teithio ar gyfer busnes seneddol y gellir ei ddefnyddio.[96] Mae seneddau eraill, fel Saeida yn Latfia,[97] yn cynnig trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i'w ASau. Yn gyffredinol, gwnaethom nodi bod y rheolau o ran teithio mewn tacsi ac iawndal rhentu car yn eithaf llym a bod angen i ASau gyfiawnhau hawlio treuliau yn gadarn.

Ceir darpariaeth ddiddorol yn Norwy, lle gall ASau â phlant o dan 19 oed gael ad-daliad am ddwy daith adref yr wythnos.[98] Yn yr un modd, yn Seland Newydd, gall aelodau'r teulu hawlio costau teithio os yw'n uniongyrchol gysylltiedig â busnes seneddol yr Aelod (mae terfyn o 20 taith y flwyddyn gan ŵr neu wraig neu bartner, ac wyth gan blant, ond nid oes terfyn i blant o dan bump oed na gŵr neu wraig y Prif Weinidog).[99] Yn y DU, gall ASau San Steffan sydd â chyfrifoldebau gofalu hawlio costau teithio ar gyfer eu dibynyddion rhwng eu hetholaeth a Llundain, ac am deithiau a wneir gan eu gŵr neu wraig neu bartner, yn ogystal â chan ofalwr cynorthwyol nad yw'n ŵr neu wraig[100]. Mewn gwledydd eraill, rhoddir llai o ystyriaeth i amgylchiadau unigol pob AS a chaiff costau teithio eu capio (h.y. Cyprus, Slofenia). Yng Ngogledd Iwerddon, mae costau teithio a chynhaliaeth yn seiliedig ar o leiaf 72 diwrnod y flwyddyn a dreulir mewn adeiladau seneddol. Mae'r rhain yn amrywio o £850 y flwyddyn ar gyfer etholaeth ym Melffast i £7,450 ar gyfer Fermanagh a De Tyrone.[101]

93 Riigikogu (2017) Salaries of MPs, URL: https://goo.gl/kdPrU3
94 Idem ISPA (2017).
95 Idem Senedd yr Alban (2015).
96 Idem Riksdag (2017).
97 Saeima (2017) Rules of Procedure, URL: http://www.saeima.lv/en/legislation/rules-of-procedure
98 Idem The Stortinget (2017).
99 Idem Senedd Seland Newydd (2014)
100 Idem IPSA (2017)
101 IFRP (2016). Northern Ireland Assembly Members' Salaries, Allowances, Expenses and Pensions Report of the Independent Financial Review Panel, URL: https://goo.gl/BC27ip

### 2.2.3 Cymorth Swyddfa

Yn y rhan fwyaf o'r seneddau a archwiliwyd, mae'r mathau o gymorth swyddfa sydd ar gael i gynrychiolwyr etholedig yn amrywio o gyflenwi gofod swyddfa mewn adeiladau seneddol, helpu ASau i agor a chau eu swyddfeydd, hurio staff a'u datblygu, i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â'r swydd (postio, staff, rhentu swyddfa allanol, ffôn symudol ac ati). Ceir amrywiaethau o ran graddau'r rhagnodi, y cymorth a gynigir o ran rhedeg swyddfa seneddol a thelerau ac amodau'r staff a gyflogir yn uniongyrchol gan ASau.

Yn y rhan fwyaf o wledydd, darperir gofod swyddfa yn yr ystadau seneddol a thelir costau rhedeg y swyddfa. Mewn rhai gwledydd, gall ASau agor mwy nag un swyddfa (h.y. un yn yr ystad seneddol ac un yn eu hetholaeth) ar yr amod eu bod yn cadw o fewn y gyllideb. Ar y cyfan, caiff cyllidebau rhedeg swyddfeydd seneddol eu capio, ac mae terfynau ar nifer y staff y gall ASau eu cyflogi.

Yn Cyprus, nid ymddengys fod llawer o ragnodi o ran rhedeg y swyddfa, heblaw am derfyn gwario o €12,000 y flwyddyn am wasanaethau ysgrifenyddol.[102] I'r gwrthwyneb, yng Ngogledd Iwerddon, mae'r trefniadau o ran costau swyddfa yn fwy rhagnodedig gyda therfyn o dan bob pennawd gwario (h.y. ffonau symudol, costau rhedeg swyddfa, adnewyddu ac ati).[103] Yn neddfwrfeydd Gogledd y Rhein-Westffalia, caiff Aelodau gyflogi staff, ond rhaid iddynt gadw o fewn yr uchafswm cyllideb sef 4,146€/mis am y flwyddyn. Gellir cario unrhyw arian nas defnyddir drosodd i'r flwyddyn ganlynol.[104]

Yn Norwy, ni chaniateir hurio cynorthwywyr personol, ond gall ASau ddefnyddio ysgrifenyddiaethau pleidiau seneddol a chaiff grwpiau pleidiau sy'n fwy na dau AS gyllid ychwanegol i'w ddefnyddio[105]. Ceir cyfyngiadau eraill yng Ngogledd y Rhein-Westffalia, lle na ellir cael ad-daliad am dreuliau yr eir iddynt gan aelodau o'r teulu.[106]

Rhoddir terfyn gwario ar gostau swyddfa yn yr Alban a San Steffan hefyd. Mae'r Swyddfa Lwfansau yn Senedd yr Alban yn hwyluso taliadau rhent misol ar ran yr Aelodau. Hefyd, caiff ASAau gymorth i sefydlu eu swyddfeydd a hurio staff. Gall staff cymorth ASAau gael hyfforddiant, costau teithio a llety dros nos wrth deithio i gynadleddau a seminarau perthnasol. Mae staff hefyd yn aelodau o gynllun pensiwn GPPS a chânt absenoldeb mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu, yn ogystal â threfniadau gweithio hyblyg. Cynigir cymorth ychwanegol i ASAau er mwyn hwyluso cyfathrebu a mynediad i aelodau ag anableddau.[107] Ceir rhai nodweddion diddorol yn San Steffan, lle gall ASau ddefnyddio cronfa wrth gefn i'w helpu i dalu costau symud. Caiff ASau newydd daliad atodol o £6,000 i sefydlu eu swyddfa. Mae eu staff hefyd yn cael budd o delerau tebyg i'r Alban o ran cyflogau, cyfraniadau Yswiriant Gwladol a Phensiwn. Hefyd, gall ASau wobrwyo staff yn ariannol gyda thaliadau cydnabod ac ad-daliad untro ar gyfer costau iechyd a llesiant (h.y. profion llygaid).[108]

102 http://cyprus-mail.com/2016/04/13/cypriot-mps-earn-almost-double-average-income-expenses/
103 Idem IFRP(2016).
104 https://recht.nrw.de/lmi/owa/br_text_anzeigen?v_id=2220040121112841302
105 Idem The Stortinget (2017).
106 Deddf Dirprwyon Gogledd y Rhein-Westffalia (2018) - AbgG NRW - URL: https://goo.gl/h7eKHn
107 Idem Senedd yr Alban (2015)
108 Idem IPSA (2017)

### 2.2.4 Trefniadau gwaith

Mae trefniadau gwaith yn amrywio rhwng y gwledydd y gwnaethom edrych arnynt. Nodwyd rhai darpariaethau diddorol:

- *Ail swyddi* - nid yw'n anghyffredin i ASau gael caniatâd i gael ail swydd o dan rai amodau. Yn Lithwania, er enghraifft, rhagnodir yn arbennig y mathau o ail swyddi y gall ASau eu cael (gweithgareddau creadigol)[109]. Yn Nhŷ Cynrychiolwyr Berlin, gall Aelodau gael gwaith rhan-amser neu absenoldeb arbennig heb i daliadau cyflog barhau, ond yng Ngogledd y Rhein-Westffalia, gall ASau gael ail swyddi ond caiff eu cyflogau eu haneru.[110]
- *Absenoldeb rhiant* - ceir darpariaethau manwl ar gyfer absenoldeb rhiant (gan gynnwys mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu) yn Norwy, Sweden a Latfia. Yn Norwy, gall ASau gymryd hyd at 24 mis, gyda'r 12 mis cyntaf yn cael eu cwmpasu gan daliadau Yswiriant Gwladol.[111]Yn Slofenia, caiff ASau €140 y mis os cânt eu gwahanu oddi wrth eu teulu agos.[112]
- *Absenoldeb oherwydd salwch* - Yn Norwy, gall ASau gymryd absenoldeb â thâl am resymau iechyd, cymdeithasol neu berthnasol eraill sy'n gysylltiedig â llesiant personol, gan gynnwys gofalu am blant o dan 12 oed.[113]
- *Defnyddio Dirprwyon a Dewisiadau Amgen* - Nid rhannu swydd yw hyn mewn gwirionedd, ond mae'n eithaf tebyg. Mae'n beth cyffredin yn Sweden, Norwy a'r Almaen. Cynigir llety am ddim i ddirprwyon (yn Norwy) ar yr ystad seneddol wrth gyflawni dyletswydd seneddol (15 ystafell ar gael) ac yn gyffredinol mwynheir yr un breintiau ag aelod wrth gyflawni eu swyddogaeth.[114] Yn Sweden, gellir defnyddio'r opsiwn dewisiadau amgen os bydd ASau yn cael cyfnod o absenoldeb.[115] Yn Nhŷ Cynrychiolwyr Berlin, gall Aelod sy'n colli cyfarfod llawn neu gyfarfod pwyllgor gael dirwy rhwng €25 a €50. I osgoi hyn, gallant anfon rhywun arall yn eu lle, a chaiff yr unigolyn hwnnw €25 am bob sesiwn yr eir iddi.[116]
- *Darpariaethau gwyliau* - Fel arfer caiff gwyliau ASau eu trefnu yn ystod toriad y senedd, ond mae hyd y gwyliau yn amrywio, o 4½ mis yn Lithwania, 35 diwrnod yn Estonia, i ddim ond trefniadau gwyliau anffurfiol yn Norwy.
- *Cyfleoedd datblygu proffesiynol* - caiff ASau o Sweden hyfforddiant helaeth ar arferion a gweithdrefnau seneddol, fel eu staff. Hefyd, cânt fynd ar gyrsiau iaith a chyfrifiadurol a chael grantiau i astudio dramor.[117] Yn Norwy, bydd ASau yn dilyn rhaglen sefydlu ac yn cael hyfforddiant ychwanegol. Yn yr Alban a San Steffan, gall staff sy'n cefnogi cynrychiolwyr etholedig fynd ar gyrsiau hyfforddi perthnasol a mynd i gynadleddau, ar yr amod bod y costau yn aros o fewn cyllidebau blynyddol y swyddfa. Yn Slofenia, gall aelodau gael ad-daliad am gostau addysg.[118]

109 IBP (2015) *Lithuania Country Study Guide Volume 1 Strategic Information and Developments*, World Country Study Guide Library
110 Deddf Dirprwyon Gogledd y Rhein-Westffalia (2018) - AbgG NRW - URL: https://goo.gl/h7eKHn
111 Idem The Stortinget (2017)
112 Cynulliad Cenedlaethol Slofenia (2017). URL: https://goo.gl/YaZ2fm
113 Idem The Stortinget (2017)
114 Idem the Stortinget (2017)
115 The Riksdag (2017). The Members, URL: https://goo.gl/QL74uc
116 Tŷ Cynrychiolwyr Berlin (2017) Cyfraith Cysylltiadau cyfreithiol Aelodau, URL: https://goo.gl/Ns9C1y
117 Idem Van der Hulst, M. (2000).
118 Idem Cynulliad Cenedlaethol Slofenia (2017).

### 2.2.5 Buddiannau ychwanegol

Un ffactor sy'n gyffredin rhwng y rhan fwyaf o'r deddfwrfeydd a arolygwyd yw bodolaeth bariau, caffis a bwytai cymorthdaledig i Aelodau, yn ogystal â defnydd o lyfrgelloedd seneddol. Ymhlith 'buddiannau' eraill y swydd a nodwyd mae:

- *Imiwnedd seneddol:* Ceir gwahanol raddau o ddiogelwch rhag erlyn ASau wrth iddynt gyflawni eu mandad (h.y. Estonia, Lithwania, Cyprus). Yn y Ffindir, mae imiwnedd yn diogelu rhag arestiad, cadw'n gaeth a gorchmynion sy'n gwahardd teithio.[119] Fodd bynnag, nid yw imiwnedd seneddol yn gymwys dramor, oni fydd gan yr aelod basbort diplomataidd.
- *Pasbortau diplomataidd a swyddogol:* Mewn rhai gwledydd gall ASau gael naill ai basbortau diplomataidd neu swyddogol. Fel rheol, y Siaradwr, Dirprwy Siaradwr ac aelodau o'r Pwyllgorau Materion Tramor (fel yn Sweden a Cyprus) fydd y rhain, ond mewn gwledydd eraill (fel Rwmania, y Weriniaeth Tsiec a Hwngari) caiff pob AS basbort diplomataidd. Yn y Ffindir, caiff pob AS basbortau swyddogol.[120]
- *Iechyd a Llesiant:* Ystyriwyd iechyd, llesiant a chydbwysedd rhwng bywyd a gwaith ASau fwyfwy mewn seneddau dros y 10 mlynedd diwethaf. Ceir rhai buddiannau diddorol a rhai buddiannau 'ychwanegol' rhyfedd y mae gan gynrychiolwyr etholedig hawl iddynt. Yn Sweden, caiff ASau ddefnyddio'r gampfa, y pwll nofio ac ardaloedd ioga, a chael triniaethau tylino, ond yn San Steffan eir gam ymhellach, gyda champfa i ASau a staff sydd hefyd yn cynnwys ymarferwyr personol, ffisiotherapi, osteopathi a thriniaethau aciwbigo.[121] Yn yr Alban, caiff ASAau ddefnyddio gwasanaethau iechyd galwedigaethol, nyrs a meddyg ar y safle. Ceir gwasanaeth trin gwallt ar y safle yn adeilad seneddol Estonia.
- *Gofal plant:* Yn Norwy a Seland Newydd, mae trefniadau gyda chyfleusterau gofal plant preifat yng nghyffiniau'r adeiladau seneddol. Yn yr Alban a Sweden, ceir creches / meithrinfeydd ar y safle y mae eu horiau agor yn adlewyrchu tymhorau'r senedd.[122] Yn yr Alban, gall ASAau hefyd wneud cais am dalebau gofal plant.
- *Diogelwch:* Yn Seland Newydd, gall ASau gael ad-daliad am systemau diogelwch a osodir yn eu cartref neu leoliad: i osod y system, yr uchafswm yw $850 ac am waith monitro blynyddol, galw allan ac atgyweiriadau, yr uchafswm yw $600.[123]

### 2.2.6 Cymhellion etholiadol

Tra bod cwotâu rhywedd wedi'u trafod yn ehangach yn y llenyddiaeth, a bod y dystiolaeth empiraidd wedi dangos bod achos cryf dros unioni'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau mewn seneddau cenedlaethol[124], ymchwiliwyd i fathau eraill o gwotâu i raddau llai ac maent yn llai o nodwedd mewn systemau etholiadol. O ddiddordeb i'n hymchwil mae'r achosion a welwyd o gwotâu neu seddi cadw ar gyfer pobl ifanc, lleiafrifoedd ethnig neu bobl frodorol.

119 Idem Van der Hulst, M. (2000).
120 Idem Van der Hulst, M. (2000).
121 http://www.jubileehalltrust.org/westminster/treatments/
122 Idem Childs (2017).
123 Idem Senedd Seland Newydd (2014)
124 Idem Dahlerup, D. (2012).

| Seddi cadw yn y Senedd ar gyfer pobl ifanc | Cynlluniau cadw pleidiau gwleidyddol ar gyfer pobl ifanc | Rhyw fath o warant o ran cydraddoldeb ar sail hil / ethnigrwydd, iaith, crefydd a daearyddiaeth |
|---|---|---|
| Cenia, Moroco, Rwanda, Uganda | Croatia, yr Almaen, yr Iseldiroedd[125] | Croatia, Rwmania, Cyprus, Gwlad Belg, Seland Newydd[126] |

Mae'r gwarantau hyn o ran cydraddoldeb wedi'u hymgorffori yn y system mewn sawl ffordd: o ddyrannu seddi cadw mewn seneddau ar gyfer grwpiau penodol (Seland Newydd, Rwmania), i fodelau rhannu pŵer (Cyprus), neu drwy ran-ddirymiad o reolau etholiadol ar drothwyon (yr Almaen).

## 2.3. Fframwaith dadansoddol

O gychwyn y prosiect hwn, rydym wedi edrych ar recriwtio gwleidyddol fel taith ac rydym wedi ceisio meithrin y ddealltwriaeth o'r rhwystrau a'r cymhellion ar bob cam o'r broses. Ein tybiaeth yw bod dod yn AC yn daith gymhleth, lle wynebir llawer o rwystrau, ond sydd hefyd yn cynnwys ffactorau hwyluso. Gwnaeth y farn hon ein helpu i ailganolbwyntio ar yr unigolyn a'i brofiad gwirioneddol o gymdeithasoli i mewn i wleidyddiaeth, ymgeisyddiaeth a dod yn gynrychiolydd etholedig.

Mae'r fframwaith mwyaf defnyddiol a nodwyd gennym yn y llenyddiaeth, sy'n deillio o ysgolheictod rhywedd a recriwtio gwleidyddol, yn seiliedig ar waith Krook a Norris[127]. Mae'r awduron yn mapio'r daith ar dri cham: 1) o fod yn unigolyn cymwys yn unig i ddyheu am gael swydd wleidyddol, 2) o fod yn ddarpar ymgeisydd i fod yn ymgeisydd a 3) o fod yn ymgeisydd i fod yn gynrychiolydd etholedig.

Gwnaethom addasu'r fframwaith hwn ychydig a threfnu ein dadansoddiad yn 1) y llwybrau i mewn i wleidyddiaeth (yn gymwys i fod yn ddarpar ymgeisydd) a'r profiad gwirioneddol o bleidiau gwleidyddol, ymgeisyddiaeth ac ymgyrchu (darpar ymgeisydd i ymgeisydd) 2) y canfyddiadau ynghylch bod yn AC (etholedig) a 3) ffactorau cyd-destunol ehangach.

125 Idem Stokemer a Sundstom (2016)
126 Reynolds, A. (2005). Reserved seats in national legislatures: A research note. *Legislative Studies Quarterly, 30* (2), 301-310.
127 Krook, M. L., & Norris, P. (2014). Beyond quotas: Strategies to promote gender equality in elected office. *Political Studies*, 62(1), 2-20.

# RHAN 3. ASTUDIAETH MAES

## 3.1. Dod yn AC - Y daith: yn gymwys i fod yn ddarpar ymgeisydd

### 3.1.1 Beth y gwnaethom edrych arno

Mae sawl ffactor a all effeithio ar daith unigolyn o fod yn gymwys i fod yn ddarpar ymgeisydd a sefyll etholiadau. Yn amlwg, mae rhai o'r rhwystrau sy'n wynebu pobl y tu allan i gylch gwaith uniongyrchol y Bwrdd Taliadau. Fodd bynnag, cydnabyddwn y gall fod gan y Bwrdd y gallu i naill ai ddylanwadu ar ffigyrau eraill neu godi'r mater gyda nhw.

Roedd gennym ddiddordeb mewn archwilio profiadau go iawn a chanfyddiadau ymgeiswyr blaenorol a darpar ymgeiswyr ac mae'r adran hon yn tynnu sylw at rai o'r prif rwystrau y mae cyfranogwyr yn eu tybio neu wedi eu profi ar gamau gwahanol. I'r perwyl hwnnw, rydym wedi trefnu'r adran ganlynol fel ei bod yn adlewyrchu taith unigol darpar ymgeiswyr o ymddiddori mewn gwleidyddiaeth a chymdeithasoli i mewn iddi i sefyll fel ymgeiswyr:

- Cymdeithasoli i mewn i Wleidyddiaeth
- Profiad o Bleidiau Gwleidyddol
- Profiadau a Chanfyddiadau o Sefyll
- Hyfforddi a Mentora

Ystyriwyd profiadau gwahanol grwpiau o bobl ar bob cam, a nodwyd ffactorau sefydliadol, diwylliannol, unigol a gwleidyddol amrywiol sy'n effeithio ar y penderfyniad i sefyll etholiadau, fel mynediad i rwydweithiau a chymorth, gweithdrefnau dethol ymgeiswyr pleidiau, y system etholiadol, a chost sefyll.

### 3.1.2 Yr hyn a nodwyd gennym

#### *Cymdeithasoli i mewn i Wleidyddiaeth*

Yn fras, gwnaethom nodi tri llwybr a oedd yn tywys pobl i mewn i wleidyddiaeth ac yn gwneud iddynt ystyried sefyll fel Aelod Cynulliad. Mae'r grŵp cyntaf wedi bod ynghlwm wrth wleidyddiaeth ac wedi bod yn aelodau ac yn ymgyrchwyr plaid wleidyddol ers amser maith. Mae'r ail grŵp, a all fod yn gysylltiedig â'r cyntaf ond nid o reidrwydd, yn dod drwy'r llwybr awdurdod lleol. Nid yw'r trydydd grŵp wedi bod ynghlwm wrth wleidyddiaeth bleidiol yn draddodiadol a gall fod yn gymharol newydd i wleidyddiaeth yn gyffredinol. Gall fod wedi ymgysylltu â gwleidyddiaeth drwy gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn ymgyrchu neu weithredu rhyngwladol, cenedlaethol, neu leol. Wrth reswm, gall aelodau pob grŵp orgyffwrdd, a gall llwybrau groesi ei gilydd, ond mae hyn yn sefydlu tacsonomi cyffredinol sy'n fodd i feithrin gwell dealltwriaeth o lwybr gwahanol grwpiau, neu beidio, i mewn i wleidyddiaeth a'r Cynulliad Cenedlaethol.

### *Llwybr Gweithgar o fewn Plaid Wleidyddol*

Mae'r grŵp hwn yn nodweddiadol o gyfranogwyr sydd wedi bod ynghlwm wrth wleidyddiaeth bleidiol ers cryn amser. Mae tuedd gyffredinol ymhlith y grŵp hwn i ymwneud yn fawr â phlaid neu bleidiau gwleidyddol o oedran cymharol ifanc, gan roi unigolion ar lwybr gwleidyddol pendant drwy'r ysgol, y brifysgol, ac o bosibl weithio i bleidiau gwleidyddol neu mewn gwleidyddiaeth yn dilyn hynny.

Mae'n debygol bod aelodau'r grŵp hwn wedi cael eu magu ar aelwyd wleidyddol weithgar ac wedi bod yn wleidyddol weithgar gydol eu hamser yn yr ysgol a'r brifysgol. Gall hyn amrywio o helpu gydag ymgyrchoedd etholiadol yn eu hetholaethau, i gael eu hethol yn gynrychiolwyr undeb y myfyrwyr yn y brifysgol ac ar lefel genedlaethol. Gallant symud ymlaen i weithio i bleidiau gwleidyddol mewn etholaeth neu fel ymchwilydd, ac yna sefyll i'w dethol a'u hethol yn etholiadau'r Cynulliad a San Steffan.

Ar un llaw, mae unigolion ar y llwybr hwn yn tanlinellu pwysigrwydd gwybodaeth fewnol am strwythurau pleidiau a sut mae ymgyrchoedd etholiadol yn gweithio wrth ddileu rhai o'r rhwystrau i sefyll. Er enghraifft, roedd un cyfwelai o'r farn bod gweithio o fewn tîm ymgyrchu ymgeisydd yn brofiad hanfodol cyn penderfynu sefyll ei hun (Cyf_01).

Ar y llaw arall, un rhwystr mawr i'r grŵp hwn yw'r canfyddiad cyhoeddus negyddol o 'wleidyddion proffesiynol'. Yn un o'r grwpiau ffocws roedd rhai cyfranogwyr o'r farn nad oedd hyn yn gyfiawn.



*"Mae'r ymadrodd hwnnw 'gwleidydd proffesiynol' mor awgrymog nag yw...ond gyda rhai pobl, petai chi'n gynghorydd ac wedi dilyn gyrfa mewn cyngor a'ch bod wedyn am sefyll ar gyfer y Cynulliad, wel, byddech yn cael eich labelu'n 'wleidydd proffesiynol', ac yn amlwg os ydych yn gweithio i wleidydd ry'ch chi'n wynebu'r un peth, 'gwleidydd proffesiynol, gwleidydd proffesiynol, dy'ch chi ddim yn ei haeddu, chi ond yn un o'r gwleidyddion hynny'. Ond, mewn gwirionedd...mae'n dda o beth cael datblygu'r sgiliau hynny oherwydd fe fyddwch chi'n llawer gwell wrth eich gwaith os oes gennych chi brofiad o gynrychioli pobl, fel cynghorydd neu yn eich undeb neu ble bynnag...yn aml iawn, caiff pobl eu hwfftio am fod yn rhywun uchelgeisiol am ddatblygu eu sgiliau fel hyn, ac nid yw hynny'n ddefnyddiol iawn"* (Caerdydd 2)

Yn amlwg, mae'r llwybr hwn yn cynnig rhai manteision i ddarpar ymgeiswyr, am ei fod yn dileu llawer o'r rhwystrau o ran cael mynediad i rwydweithiau a chefnogaeth pleidiau gwleidyddol, ond y perygl yw bod hyn yn arwain at ddiffyg amrywiaeth ac y byddai'r canfyddiad cyhoeddus negyddol o wleidyddion proffesiynol yn atal pobl.

### *Llwybr Awdurdod Lleol*

Llwybr traddodiadol tebyg i mewn i wleidyddiaeth yw'r llwybr awdurdod lleol, a ystyriwyd, mewn rhai achosion, fel gofyniad bron i gael eich dethol (Cyf_20). Fodd bynnag, mae i'r llwybr hwn y rhwystrau sy'n gynhenid i gael mynediad i swydd etholedig mewn cynghorau lleol: ystyrir bod rôl cynghorydd lleol yn llai deniadol i bobl ifanc, fel y nododd aelodau o'r grwpiau ffocws yng Nghaernarfon; cyfyngiadau amser a chymhellion ariannol cyfyngedig i'r rôl, oni fydd rhywun yn ymuno â'r cabinet, a fynegwyd hefyd gan gyfranogwyr yn Aberystwyth; rhwystrau i fenywod, yn enwedig yng nghyd-destun lleihau nifer y cynghorwyr lleol (Caernarfon).

Ymhlith y grŵp hwn, mae nifer o gynghorwyr ac ymgeiswyr annibynnol. Roedd teimlad pendant bod rhaniad yn y system, lle mae'n bosibl sefyll ac ennill fel ymgeisydd annibynnol ar lefel awdurdod lleol ond mae hyn bron yn amhosibl ar lefel y Cynulliad Cenedlaethol (Caernarfon). Awgrymodd trafodaeth ar Loomio fod cysylltiad rhwng y llwybrau traddodiadol hyn a diffyg amrywiaeth, felly caiff diffyg amrywiaeth ar lefel leol ei 'drosglwyddo' i'r lefel genedlaethol gan ddiffyg cronfa amrywiol o ymgeiswyr i ddewis o'u plith o lwybrau traddodiadol.

### *Llwybr Newydd-ddyfodiaid*

Efallai fod y grŵp hwn wedi ymddiddori mewn gwleidyddiaeth ers cryn amser, ond nad yw unigolion wedi bod yn aelod o blaid wleidyddol nac yn weithgar ynddi tan yn ddiweddar, os o gwbl. Efallai fod gwahanol ffactorau wedi eu cymell i ymwneud â gwleidyddiaeth, o gymorth i ffoaduriaid rhyngwladol neu fuddiannau busnes i fod yn weithgar yn y gymuned ar lawr gwlad. Gall ymwneud yn fwy â gwleidyddiaeth fod wedi cael ei ysgogi hefyd gan eu gwaith gydag elusennau neu gymdeithas sifil, neu drwy gyflawni rolau gwirfoddol, er enghraifft ar fyrddau cymdeithasau tai cymunedol. Cânt eu cymell i barhau i weithio er mwyn gwneud newid cymdeithasol, a nododd sawl cyfranogwr mai'r ffordd orau o wneud hynny oedd cymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau ffurfiol o'r 'brig i'r bôn', neu 'o'r tu mewn', a sylweddoli, o'u profiad, *'os ydych am wneud gwahaniaeth mawr, yna y ffordd o wneud hynny yw o'r man y gwneir y penderfyniadau yn y lle cyntaf'* (Caerdydd).

Mae'r rhwystrau a nodwyd ganddynt yn ymwneud yn bennaf â deall sut mae strwythurau gwleidyddol yn gweithio a sut y caiff polisïau eu gwneud. Nododd un cyfranogwr mewn grŵp ffocws:

> *"Roeddwn i'n poeni am fod yn naïf o ran gwleidyddiaeth, ac mewn grŵp roedd y profiad yn eithaf brawychus am fod angen i mi ddysgu cymaint yn fwy. Yn ogystal â dysgu am y materion, roedd yn rhaid i mi ddysgu am y blaid, y protocol, yr hanes, felly roedd hynny'n llawer gormod. Dwi ddim am wneud hynny i gyd, canolbwyntio ar y mater dan sylw, y gymuned, a sut rwy'n cynrychioli hynny yn y cyngor lleol sy'n bwysig i mi. Dyna yw fy ffocws, dyna sydd i fod i gyfrif"* (Caerdydd 2)

Cafodd y neges hon ei hategu mewn rhai cyfweliadau hefyd. Hefyd, mae aelodau o'r grŵp hwn yn fwy ansicr am eu dyfodol gwleidyddol, felly roedd materion o ran diogelwch swydd yn amlycach iddyn nhw ac roedd y risg ganfyddedig ynghlwm wrth rôl Aelod Cynulliad yn uwch. Er hyn, mae unigolion o'r grŵp hwn hefyd yn siarad am y sylweddoliad ehangach bod angen i chi gynnwys pobl o'r grŵp hwn, ac o wahanol gefndiroedd, oherwydd *'os na yda chi'n cael y bobl yna i mewn 'da chi'n mynd i gael yr un math o bobl'* (Cyf_09).

### *Profiad o Bleidiau Gwleidyddol: Meithrin Cysylltiadau a Rhwydweithiau*

Roedd gennym ddiddordeb mewn casglu barn amrywiol am brofiad cyfranogwyr o gymorth ac anogaeth pleidiau gwleidyddol, yn ogystal â'r rhwystrau a wynebwyd wrth ymgysylltu â gwleidyddiaeth plaid ffurfiol.

Mae datblygu rhwydweithiau cymorth o fewn yr etholaeth a rhwydweithiau pleidiau gwleidyddol yn hanfodol i unrhyw ddarpar ymgeisydd. Fodd bynnag, ystyrir bod rhwydweithio, er enghraifft, yn 'rhwystr gwirioneddol' gan fam â phlant bach oherwydd ymrwymiadau teuluol (Caerdydd). Yn yr un modd, ystyrir hefyd fod yr angen i ymwneud â changhennau lleol pleidiau gwleidyddol yn anodd. Yn yr un grŵp ffocws, trafododd y cyfranogwyr sut y gall pleidiau gael eu gweld yn 'hierarchaidd', 'clicaidd', 'hynafol', a 'gwaharddol', ond wedyn, unwaith eich bod yn rhan ohonynt, y gallant fod yn gefnogol (Caerdydd).

Eglurodd cyfwelai â nam ar y clyw fod pethau fel cyfarfodydd cangen yn 'ofnadwy o anhygyrch'. Dywedodd nad oedd wedi bod i'r un cyfarfod lle gallai ei ddilyn a chymryd rhan yn llawn, ac roedd yn poeni y byddai hynny yn cyfyngu ar ei gyfleoedd i gymryd rhan mewn fforwm polisi neu strwythurau eraill er mwyn datblygu rhwydweithiau a sicrhau cefnogaeth petai am sefyll yn y dyfodol. Eglurodd fod mynediad i rwydweithiau a chyfarfodydd anffurfiol hefyd yn heriol ac yn anodd iawn os oes gennych broblemau cyfathrebu a oedd yn golygu na allech ymgolli mewn sgwrs (Cyf_05).



*"Roedd llawer o aelodau hŷn nad ydyn nhw'n mynd i gyfarfodydd yr etholaeth rhagor am na allan nhw ddilyn y drafodaeth ac yna mae pobl yn dweud 'dyna drueni mawr' a dwi fel, chi'n gwybod beth, dwi wedi bod yn eistedd 'ma ers 5 mlynedd a dim ond pan fo rhyw hen aelod uchel ei barch yn dweud 'Dwi ddim yn gallu clywed a dwi ddim am ddod rhagor' maen nhw'n dechrau meddwl am fynediad, lle dwi wedi bod yn gofyn ac yn gofyn am well cyfleusterau ac ystyriaeth"(Cyf_05)*

Eglurodd cyfranogwr â gwahaniaethau niwroamrywiol y byddai'n gysurus mewn lleoliad ffurfiol a pharod, ond mai'r rhwydweithio oedd ei angen i gyrraedd y man hwnnw oedd yr her wirioneddol (Cyf_04). Nid oedd yn credu y byddai unrhyw blaid am groesawu rhywun fel hi ac roedd wedi ceisio ymuno â sawl plaid.

Ar y cyfan, ymddengys fod profiadau cyfranogwyr o ddatblygu rhwydweithiau a chymorth o fewn pleidiau gwleidyddol yn ddarniog, gyda rhwystrau o ran trefniadaeth plaid a chefnogaeth gyffredinol yn cael y sylw pennaf.

### *Profiad o bleidiau gwleidyddol: Dethol Ymgeiswyr*

Roedd y canfyddiadau a'r profiad o brosesau dethol ymgeiswyr yn bwynt trafod cyson yn yr ymchwil drwyddi draw. Yn gyffredinol, ystyriwyd bod prosesau dethol ymgeiswyr yn rhwystr sylweddol am resymau fel: canfyddiad o'r hyn mae pleidiau yn chwilio amdano; y broses ei hun; mater tuedd anymwybodol; a phrofiad a chanfyddiadau gwahanol grwpiau o bobl mewn cymdeithas. Serch hynny, clywsom brofiadau cadarnhaol hefyd.

Roedd un cyfwelai o'r farn bod pleidiau yn chwilio am rywun sy'n gweddu i ystrydeb gwleidydd fel y'i 'diffinnir gan San Steffan' yn hytrach na chael 'model sy'n gweithio i Gymru'. Roedd o'r farn bod gan y bobl sy'n gyfrifol am ddethol ddarlun o sut olwg sydd ar wleidydd; ar y cyfan, dyn neu fenyw sydd wedi magu teulu ac yna wedi symud ymlaen i wleidyddiaeth:



*"...ac iddyn nhw os ydi rhywun yn meddwl am wleidydd y llun awtomatig sy'n dod i bennau nifer fawr o bobl o genhedlaeth hŷn ydi dyn o oed arbennig, sydd hefo gwraig, sydd hefo'r 2.4 o blant perffaith ac yn ddyn teulu gret, a dwi'n meddwl bod 'na dal, er bod hi'n gwella, dwi'n meddwl bod' na dal y syniad yna o fewn y rheina sy'n dewis mewn etholiadau mewnol. Mae'n nhw'n disgwyl mwy o rywun traddodiadol." (Cyf_09)*

Roedd un cyfwelai o'r farn y bu gwelliannau o ran yr hyn roedd yn ei glywed gan bleidiau gwleidyddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac roedd ychydig yn fwy gobeithiol ers i ASau mwy newydd gael eu hethol yn etholiad cyffredinol 2017, ond roedd yn dal i boeni bod elfen o symboleiddiaeth o hyd.



*"Y broblem yw ei bod hi'n aml yn mynd mor symboleiddiol, ac mae hynny'n broblem fawr. Mae pobl yn dweud bod angen amrywiaeth arnon ni a bod angen mwy o bobl o wahanol gefndiroedd mewn gwleidyddiaeth, ond y gwir amdani yw bod yna weledigaeth o bwy ddylai fod yn wleidydd a sut olwg ddylai fod ar y person hwnnw a sut y dylai ymddwyn, ac mae pobl nad ydyn nhw'n gweddu i hynny yn ei chael hi'n anodd iawn datblygu a chael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw." (Cyf_05)*

Rhwystr mawr oedd y canfyddiad bod y blaid eisoes wedi penderfynu pwy a gaiff eu dethol. Roedd hyn yn golygu bod yn rhaid iddynt sefyll ble roedd y bylchau, nid o reidrwydd ble roeddent yn dymuno sefyll. Mae'r canfyddiad nad yw gweithdrefnau enwebu yn dryloyw a gonest yn faen tramgwydd i ddarpar ymgeiswyr, yn enwedig y rhai sy'n fwy newydd i wleidyddiaeth plaid.



*"Nawr fy mod i'n ymwneud â phlaid, galla i weld hynny. Ond pam cael pleidlais agored os y'ch chi'n gwybod yn barod? Bydd yn difetha dyheadau rhywun os byddan nhw'n mynd amdani ac yna'n dod i wybod bod rhywun sydd wedi bod yn y blaid yn hirach na nhw yn cael ei ddethol." (Cyf_20)*

Yn yr un modd, mewn grŵp ffocws nodwyd:



*"Felly, ry'ch chi'n gwybod flynyddoedd ymlaen llaw, felly beth yw'r pwynt os y'ch chi'n gwybod bod dewis ymgeisydd o'r blaid yn barod? Ai dim ond er mwyn bod yn addurn bach ry'ch chi yno? Fel eu bod nhw'n gallu dweud bod y broses recriwtio yn deg ac agored?"* (Caerdydd)

Dywedodd cyfranogwr BME ei fod am gael gwared ar y canfyddiad 'pwy ry'ch chi'n ei 'nabod, nid beth ry'ch chi'n ei wybod' mewn gwleidyddiaeth, ond mewn rhai achosion roedd yn meddwl ei fod yn dal i fod yn gyffredin iawn.



*"Y meddylfryd 'mae'n gweddu i'r ddemograffeg honno, mae'n gweddu i'r gymuned honno, ry'n ni'n credu ein bod ni'n mynd i ennill o'i herwydd, am ei fod yn gweddu i'r gymuned honno'... Rwy'n dal i gredu y byddan nhw'n ei roi i rywun arall sydd, nid yn llawer mwy profiadol, ond yn berson mwy dosbarth canol, a dyna'r math o syniadau sydd gen i yn fy mhen neu a fydden nhw'n meddwl nad ydw i'n ddigon da...yr amheuon bach hyn sy'n celu o dan yr wyneb neu sy'n sibrwd yn eich clust 'o wel, mae ganddyn nhw rywun arall mewn golwg siŵr o fod." (Cyf_20)*

### *Oedran*

Roedd oedran hefyd yn cael ei ystyried yn ffactor wrth ddethol ymgeiswyr, ac roedd pobl ifanc yn arbennig yn ei nodi'n rhwystr. Cafodd hyn ei adlewyrchu'n glir yng nghanlyniadau'r arolwg.



- *Nododd 35.2% o holl gyfranogwyr yr arolwg fod 'Oedran' yn rhwystr neu'n rhwystr sylweddol i sefyll - eto i gyd, roedd y canfyddiad hwn yn amrywio'n sylweddol ymhlith grwpiau oedran.*
- *Nododd 78% o'r rhai rhwng 18 a 24 oed a 55% o'r rhai dros 65 oed eu bod yn ystyried bod oedran yn rhwystr.*
- *Dim ond 13% o'r rhai rhwng 45 a 54 oed a 15% o'r rhai rhwng 35 a 44 oed oedd yn ystyried bod eu hoedran yn rhwystr.*

Credai un cyfwelai nad oedd pobl ifanc yn cael eu cymryd o ddifrif mewn democratiaeth yng Nghymru a bod diffyg pobl ifanc yn y Cynulliad yn atal eraill rhag sefyll (Cyf_08). Teimlai un person ifanc oedd yn weithgar ym maes gwleidyddiaeth plaid mai un rhwystr sy'n wynebu pobl ifanc yw'r diwylliant lle mae pleidiau yn dethol ymgyrchwyr mwy profiadol am nad ystyrir bod gan bobl ifanc 'rinweddau AS' yn ei brofiad ef (Cyf_05). Roedd y canfyddiad nad oedd gan bobl ifanc brofiad eisoes yn eu rhoi dan anfantais o fewn y blaid (Cyf_16), er, yn ôl un cyfranogwr mewn cyfweliad, yr hunanganfyddiad o ddiffyg profiad a hyder oedd yn eu rhwystro.




*"Rwy'n teimlo nawr, dwi ond yn fy 30au cynnar...Yn bersonol, o ran fi fy hun, a'm hyder, byddai siŵr o fod angen tua 5/10 mlynedd arall efallai i mi deimlo y gallwn gyflawni'r math hwnnw o rôl Aelod Cynulliad ac ateb yr her, er mwyn i mi gael ychydig mwy o amser i feithrin gwybodaeth a phrofiad, ond mae'n rhywbeth y byddwn yn ei ystyried yn y dyfodol. Ni fyddwn yn ei ddiystyried o gwbl."*

At hynny, mae amser a chost yn fater pwysig iawn i rai - roedd dau gyfranogwr ifanc yn dueddol o ystyried gwleidyddiaeth yn 'rhywbeth hirdymor, efallai'n rhywbeth pan rydych yn hŷn' oherwydd y gallent o bosibl fforddio'r amser a'r arian (Caerdydd).

### *Rhywedd*

Yn aml, roedd menywod yn yr ymchwil wedi cael profiadau gwahanol i'r dynion. Adlewyrchwyd hyn hefyd yng nghanlyniadau'r arolwg lle nodwyd cyfres o wahaniaethau o ran rhwystrau a chymhellion.



- *Roedd menywod yn llawer mwy tebygol na dynion o ystyried bod rhwystrau yn fwy 'sylweddol', ac ystyried bod cymhellion yn fwy cadarnhaol.*
- *Roedd menywod o blaid cwotâu amrywiaeth ar gyfer ymgeiswyr i raddau llawer mwy na dynion, gyda 44% o fenywod yn dweud y byddai cwotâu yn eu gwneud yn fwy tebygol o sefyll o gymharu â 18% o ddynion.*
- *Roedd rhannu swydd hefyd yn llawer mwy poblogaidd ymhlith menywod, gyda 68% o fenywod yn dweud y byddai'n eu gwneud yn fwy tebygol o sefyll o gymharu â 45% o ddynion.*
- *O ran rhwystrau, y gwahaniaethau mwyaf rhwng dynion a menywod oedd 'Diogelwch personol a theulu' a 'Llwyth gwaith gormodol', gyda menywod o'r farn bod y rhain yn rhwystrau sylweddol mwy i sefyll na dynion.*

Roedd un cyfwelai yn credu bod gan ddyn â theulu oedd yn ceisio cael ei ddethol fantais dros fenyw â theulu. O'i phrofiad hi, roedd aelodau lleol y blaid yn poeni amdani ac yn rhannu eu pryderon â hi drwy ddweud pethau fel *'sut yda chi'n mynd i fagu teulu os yda chi'n Nghaerdydd neu'n San Steffan?'* (Cyf_09). Ar ôl colli allan yn y broses ddethol, dywedwyd wrthi ei bod yn dda o beth iddi golli, oherwydd nawr gallai dreulio mwy o amser gyda'i phlentyn. Nid oedd yn credu bod pobl yn ceisio bod yn rhywiaethol, ond nid oedd cydweithwyr oedd yn ddynion â theulu ifanc yn cael yr un sylwadau.

Mynegodd cyfwelai arall farn debyg am sefyll am sedd seneddol, lle teimlwyd bod agwedd *'dylech wybod eich lle, mae gennych chi blant nawr, eich plant ddylai fod eich blaenoriaeth'* (Cyf_17).

Nid yw'r math hwn o ymddygiad nac agweddau yn gwneud fawr ddim i annog menywod i sefyll ac ystyriwyd bod gwir angen gweld newid diwylliannol mewn pleidiau gwleidyddol, yn ogystal ag yn ehangach mewn cymdeithas.

### *Anabledd*

Eglurodd menyw â nam ar ei chlyw nad oedd unrhyw gymorth ariannol pan wnaeth sefyll. Nid oedd ychwaith ddealltwriaeth ddigonol o'r rhwystrau a wynebwyd ganddi yn ystod y broses. Rhoddwyd rhestr aelodaeth iddi o'r aelodau o'r blaid i gysylltu â nhw ond oherwydd na allai ddefnyddio'r ffôn bu'n rhaid iddi dreulio amser yn ymweld â phobl o ddrws i ddrws gan ddibynnu ar restr nad oedd yn gwbl ddibynadwy. Eglurodd ei bod yn anodd iawn mynd drwy'r broses ddethol gyda rhestr yn unig, na chafwyd unrhyw gymorth gan y blaid o ran cyfathrebu, ac nad oedd unrhyw gymorth ariannol na dealltwriaeth o'r rhwystrau.



*"Byddai pobl yn dweud wrtha i, hoffwn eich helpu, ond dydyn ni ddim am roi mantais annheg i chi. A'm hymateb i oedd, ond dwi o dan anfantais enfawr fan hyn, dwi ddim yn gofyn am gael, wel, achub y blaen ar bobl eraill, dwi ond yn gofyn am gael chwarae teg a dyw pobl ddim yn deall hynny. Credir yn gryf o hyd, os ydych am drin pawb yn gyfartal bod yn rhaid i chi drin pawb yn union yr un peth, ond nid yw hynny'n creu cyfartaledd." (Cyf_05)*

Roedd cyfwelai arall wedi cael pecyn cais gan blaid i sefyll fel ymgeisydd ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol. Pan ddarllenodd y pecyn, roedd yn dweud bod y blaid yn croesawu'n arbennig geisiadau gan leiafrifoedd ethnig, pobl LGBT ac eraill, ond ni nodwyd anabledd. Ni chredai'r cyfwelai y byddai'n cael ei ystyried *'am nad oedd yn gategori blaenoriaeth'*. O ganlyniad i'r profiad hwn, ni wnaeth enwebu ei hun (Cyf_04).

Eglurodd cyfwelai â nam ar y golwg fod angen gwybodaeth mewn fformatau hygyrch arni. Yn yr etholiad cyffredinol diwethaf, darparwyd manylion aelodau drwy ap a oedd yn llawer mwy hygyrch iddi na chopi papur (Cyf_14). Nododd darpar ymgeisydd, os oeddech yn ymgeisydd, fod angen i'r pleidiau fod yn gadarnhaol o ran anabledd a'r sgiliau y gall ymgeisydd ag anabledd eu cynnig. Ni fyddai am guddio ei hanabledd am ei fod yn rhan bwysig o bwy yw hi ac roedd am i'r blaid gefnogi'r neges gadarnhaol honno (Cyf_05).

### *Tuedd (Anymwybodol) a'r broblem 'detholwyr'*

Cafwyd cytundeb cyffredinol ar Loomio, ac mewn dulliau eraill, y dylai pleidiau edrych ar eu hunain a'u haelodaeth yn feirniadol er mwyn ystyried eu tuedd tuag at ymgeiswyr sy'n ddynion gwyn, ystyried a yw eu haelodaeth yn adlewyrchu cymdeithas yn gyffredinol, a dechrau ymdrin ag amrywiaeth ar lawr gwlad a dwyn ynghyd ystod ehangach o brofiadau addysgol, proffesiynol a phersonol wrth ddethol ymgeiswyr.

Pwysleisiodd nifer o gyfranogwyr oedd ynghlwm wrth bleidiau gwleidyddol y pwynt hwn:



*"Mae rhan helaeth o hyn yn dechrau ar lawr gwlad. Os ydych yn chwilio am ystod amrywiol o ymgeiswyr mae angen ystod amrywiol o aelodau ac actifyddion arnoch chi i ddewis ohonynt. Felly mae'n dechrau gydag unedau pleidiau mewnol ar lefel ward neu etholaeth, sy'n sicrhau cydbwysedd ac amrywiaeth ymhlith eu pwyllgorau, ac yna fod gan unedau sefydliadol cenedlaethol yr amrywiaeth honno hefyd, staff cyflogedig o fewn y pleidiau, ac unrhyw un sy'n rhedeg e.e. prosesau dethol. Pan fydd gennych chi fwy o amrywiaeth yn y mannau hyn, bydd mwy o bobl â mwy o brofiad ac amlygrwydd yn y blaid i sefyll fel ymgeiswyr."*

Mewn grŵp ffocws cafodd y syniad hwn ei ategu gan un cyfranogwr.



*"Dwi newydd gael fy ethol yn Ysgrifennydd yr etholaeth a dwi'n gweld mai rhan o fy rôl yw bod yn...fwy amrywiol. Fe gawson ni gyfarfod ddydd Gwener diwethaf ac...doedd pawb ddim mewn siwtiau ond roedden nhw i gyd yn ddynion fwy neu lai, a rhan o'r trafodaethau fu'r trafodaethau dwi wedi bod ynddyn nhw dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Felly, be' dwi'n meddwl nawr yw, fi yw'r ysgrifennydd, gyda chyfle i wneud newidiadau fel bod pobl yn dechrau dod i'r cyfarfodydd a chymryd rhan."*

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr mewn grwpiau ffocws fod amrywiaeth yn rhywbeth y mae'n rhaid i'r pleidiau ymdrin â hi. Hefyd, nodwyd bod angen i bleidiau fod yn gadarnhaol o ran anabledd a'r sgiliau a'r profiadau sydd gan ymgeiswyr ag anableddau i'w cynnig. Dywedodd un darpar ymgeisydd ag anabledd na fyddai am guddio ei hanabledd am ei fod yn rhan bwysig o bwy yw hi ac roedd am i'r blaid gefnogi'r neges gadarnhaol honno (Cyf_05).

Fodd bynnag, roedd eraill yn anghytuno, yn arbennig un cyfranogwr, sydd ag anabledd ei hun ac sydd wedi bod yn ymgeisydd mewn etholiadau seneddol yn y gorffennol, a ddywedodd mai mater i bobl ag anableddau oedd enwebu eu hunain ac nad dim ond y broses ddethol oedd yn gyfrifol am y diffyg amrywiaeth.



*"Ond rwy'n bendant yn credu nad ydw i wedi newid pwy ydw i ac os byddai rhai pethau mewn lle byddwn i'n dal i sefyll, a dyna pam dwi'n dweud ei bod hi'n ymwneud yn fwy â sut rydych yn cael pobl i sefyll mewn gwirionedd, y bobl ag anableddau eu hunain i sefyll, yn hytrach na'r pleidiau. Gallwch chi ddim bwrw bai ar y pleidiau os nad yw'r bobl yno a wnaiff enwebu eu hunain."* (Aberystwyth)

Roedd un cyfranogwr a gymerodd ran yn y drafodaeth ar-lein o'r farn ei bod yn hen bryd cyflwyno gweithredu cadarnhaol mewn perthynas â phleidiau gwleidyddol 'neu ni fyddan nhw byth yn mynd i'r afael â'r duedd ymwybodol neu anymwybodol sy'n bodoli' (Loomio).

## *Profiadau a Chanfyddiadau o Sefyll Etholiad*

### *Yr Effaith ar Yrfa Bresennol*

Un o'r rhwystrau oedd yn wynebu llawer o gyfweleion oedd effaith sefyll ar eu gyrfa bresennol a nodwyd nifer o wahanol ffactorau yn eu hymatebion. Gallai rhai o'r rhain fod yn gymwys i wahanol yrfaoedd ond roedd eraill yn fwy penodol ac yn dibynnu ar amgylchiadau personol ac ariannol. Gallai'r rhain gynnwys; amser ac ymrwymiad i gael eu dethol ac ymgyrchu;  y gallu i gael amser i ffwrdd o'r gwaith, drwy wyliau di-dâl o bosibl, er mwyn cael eu dethol ac ymgyrchu; y gofyniad posibl i roi'r gorau i weithio; a'r effaith ansicr o fod ynghlwm wrth blaid wleidyddol.

Roedd amser yn ystyriaeth fawr i un cyfwelai a wnaeth sefyll etholiad diwethaf y Cynulliad am nad oedd ganddi swydd 9 tan 5 draddodiadol. Teimlai'n ffodus fod ei chyflogwr yn cefnogi ei phenderfyniad i sefyll a'i fod yn hyblyg, ond cydnabu gofynion uchel ymgyrchu mewn etholiad o ran amser ac egni (Cyf_13). Roedd cyn-ymgeisydd arall ar gyfer etholiadau'r Cynulliad wedi defnyddio ei gwyliau blynyddol i ymgyrchu, ond teimlai, er mwyn ymgyrchu'n iawn mewn sedd enilladwy, fod angen ymgysylltu ac ymrwymo yn yr hirdymor (Cyf_24). Ategwyd hyn gan gyn-ymgeisydd arall:



*"I allu sefyll yn iawn a rhedeg ymgyrch byddai'n rhaid rhoi gorau i swydd am gyfnod, ac mae gen i dal forgais a pethau fel'na, ac mi fyddai rhoi'r gorau i gwaith am 6 mis, byddwn i ddim yn gallu fforddio gwneud hynny a go iawn, mae angen i rhywun mewn sedd enilladwy fod yn cwffio am flwyddyn a just rhoi eu holl sylw. Wedyn, dyna pam dwi'n meddwl falle fod pobl sydd ddim hefo'r adnoddau tu ôl iddyn nhw yn ei chael hi'n anodd i gwffio am sedd a dyna pam mae yna lot mwy o bobl sydd wedi ymddeol efallai, neu'n hŷn, yn gallu mynd amdani oherwydd pan da chi yn eich 30 au 40au mae yna lot yn aml iawn o ddisgwyliadau o ran gallu cefnogi teulu a chostau eraill dydi rhywun methu wir cymryd y gamble sy' 'na o sefyll mewn etholiad...mae'r ffaith bod yn rhaid i rywun roi gorau i'w swydd ac ymgyrchu'n llawn amser yn eithaf rhwystr i'r mwyafrif o bobl." (Cyf_09)*

Dywedodd cyfweleion hunangyflogedig fod ganddynt fwy o hyblygrwydd ond y byddai angen rhoi trefniadau ar waith o hyd. Teimlai un cyfwelai mai effaith fach y byddai hyn yn ei chael ar ei fusnes ac y gallai wneud trefniadau ar gyfer ei fusnes yn ystod y cyfnod hwnnw (Cyf_06). Dywedodd cyfwelai arall y byddai hon yn sgwrs y byddai angen ei chael â phartneriaid eraill yn y cwmni. Credai y gallai'r cwmni fod yn barod i roi cyfnod sabothol iddi am ryw 8 wythnos ond na ellid gwarantu hynny (Cyf_19). Fodd bynnag, i'r rhai â'u busnes eu hunain, roedd pryder ynghylch rhoi'r gorau i'ch busnes am gyfle a allai ond para 5 mlynedd efallai:

*Da chi yna am 4, 5 mlynedd, a 'da chi'n gwybod, bod yn rhaid i chi roi popeth sydd gynno chi ar y funud i fyny am y gamble yna ella y cewch chi fo am 10 neu 15* (Caernarfon).

Clywsom sylwadau gwahanol o ran pa mor gefnogol neu beidio y byddai cyflogwyr wrth wneud trefniadau i bobl sefyll. Credai un cyfwelai y byddai ei chyflogwr yn rhoi'r amser i ffwrdd iddi ymgyrchu (tua mis o wyliau di-dâl). Roedd o'r farn y byddai unrhyw gyflogwr synhwyrol yn meddwl bod cael rhywun mewn swydd lefel uchel yn syniad da, ac fe'i hanogwyd ar lefel etholiad lleol (Cyf_15). Fodd bynnag, roedd cyfranogwyr mewn un grŵp ffocws o'r farn 'na fyddai llawer o gyflogwyr' yn fodlon rhoi'r amser hwnnw i ymgeiswyr, yn enwedig os nad oeddent yn cefnogi safbwyntiau gwleidyddol yr ymgeisydd (Wrecsam).

### *Ymgyrchu*

Ystyriwyd bod mathau traddodiadol o ymgyrchu, tactegau ymgyrchu, a maint a daearyddiaeth etholaethau yn rhwystrau i ddarpar ymgeiswyr a'r rhai oedd wedi sefyll yn y gorffennol. Roedd y pryder ynghylch cwmpasu etholaethau mawr, ac yn arbennig ranbarthau, yn gyffredin ymhlith grwpiau ffocws a chyfweliadau, yn enwedig yn y gogledd a'r canolbarth.

Ystyriwyd bod dulliau traddodiadol o ymgyrchu yn rhwystr hefyd. Rhoddodd yr angen i geisio cwrdd â chynifer o bleidleiswyr â phosibl gryn bwysau ar un cyn-ymgeisydd, ac aeth yn sâl ar ôl ei hymgyrch (Aberystwyth). Tanlinellodd cyn-ymgeiswyr eraill na fyddai gan bobl â phroblemau symudedd obaith o gwmpasu'r fath ardaloedd ag y gwnaethant hwy (Cyf_09). Dywedodd cyfranogwr grŵp ffocws y byddai problemau symudedd yn golygu na allai feddwl am ymgyrchu.

*"Fyswn i wrth fy modd yn rhoi fy enw i lawr...Ond wedyn, mae'n rhaid i mi feddwl am sut fyswn i'n gallu gorchuddio'r holl [etholaeth] mewn cadair olwyn? Sut fyswn i'n gallu curo ar yr holl ddrysau yna? Fyswn i byth yn gallu neud o."* (Caernarfon)


Cafodd yr angen i fod yn hyblyg a bod allan drwy'r amser ei nodi'n broblem i rieni, ynghyd â

dod o hyd i ofal plant o ansawdd a allai helpu yn ystod y cyfnod prysur hwnnw, oni bai bod gennych deulu cefnogol iawn (Cyf_09), (Cyf_13).

Holodd trafodaeth un grŵp ffocws am yr hyn roedd pleidleiswyr yn ei ddisgwyl gan ymgeiswyr a gofynnwyd a oedd y rhan fwyaf o bleidleiswyr yn disgwyl i ymgeiswyr gnocio pob drws mewn gwirionedd (Aberystwyth). Nodwyd bod hustyngau a digwyddiadau cyhoeddus yn ffordd fwy hygyrch a gwell o wneud hynny (Aberystwyth). Hefyd, dywedwyd bod y cyfryngau cymdeithasol yn ffordd o oresgyn sawl rhwystr; *"Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn mynd i newid sawl peth. Ni fydd yn golygu pobl yn eistedd mewn ystafelloedd a chyfarfodydd mwyach"* (Merthyr Tudful). Fodd bynnag, ymgyrchu gwleidyddol traddodiadol oedd y man cychwyn o hyd ym meddyliau pobl ac roedd hynny'n rhwystr cychwynnol i lawer.

### *Cyllid*

Agwedd bwysig i lawer o bobl oedd cost ariannol sefyll fel ymgeisydd. Dyma oedd y prif rwystr o ran ymgyrchu a nodwyd yn yr arolwg.



- *Dywedodd dros 65% o ymatebwyr fod hwn yn rhwystr y byddai angen help arnynt i'w oresgyn;*
- *Atebodd 20.7% ei fod yn rhwystr sylweddol a oedd yn golygu na fyddent yn sefyll.*

Thema a ddaeth i'r amlwg o'r drafodaeth ar Loomio oedd effaith 'hidlo' cost sefyll fel ymgeisydd, ac, i bob diben, roedd ond yn galluogi'r rhai â chefnogaeth plaid neu fath arall o gymorth personol i dalu costau sefyll. Adlewyrchwyd hyn yn y grwpiau ffocws hefyd:



*"Gwn o'r profiad ges i o sefyll ar gyfer San Steffan...gwnaeth gostio tipyn allan o'm poced fy hun, oherwydd, er mwyn cael ymgyrch effeithiol, roedd yn rhaid i mi deithio llawer, naill ai bwyta brechdan yn y car neu fynd i'r dafarn, ac os ry'ch chi am gwrdd â phobl rhaid i chi fynd i'r dafarn. Costiodd llawer o arian. Felly, yn syth, bydd rhywun mewn sefyllfa lle mae'n rhaid rhoi'r teulu yn ail, neu mae'n rhaid bod yn sengl, neu mae ganddyn nhw lawer o arian, neu ni fydden nhw'n rhedeg ymgyrch effeithiol o gwbl."* (Aberystwyth)

Soniodd menyw a wnaeth sefyll Etholiad Cyffredinol, a hefyd ymgyrchu i fod yn ymgeisydd Cynulliad, ei bod yn anodd cystadlu â phleidiau sefydledig yn ariannol. Dadleuodd fod hyn yn rhwystr i sefyll ac *'er mwyn gwella democratiaeth, mae angen i'r swm o arian mae pleidiau yn ei wario ar ymgyrchoedd leihau'* (Cyf_17). Roedd y rhai oedd wedi sefyll etholiadau cyffredinol yn credu bod etholiadau'r Cynulliad yn well oherwydd y costau is. (Aberystwyth)

Er bod pobl yn ymwybodol bod y pleidiau yn cynnig cefnogaeth a chymorth ariannol, roedd yn cael ei weld fel rhwystr mawr o hyd. Ym mhrofiad y cyfranogwyr, gallai hyn amrywio o un sedd i'r llall a rhwng pleidiau yn dibynnu ar sefyllfa ariannol y blaid a'r tebygolrwydd o ennill (Cyf_08). Roedd yn rhaid i ymgyrchydd y Cynulliad oedd yn sefyll mewn sedd anodd wario ei arian ei hun ar deithio a chynhyrchu taflenni (Cyf_01). Gwnaeth cyn-ymgeisydd sefyll dau etholiad a mynd i lawer o ddyled. Fodd bynnag, ar y pryd nid oedd ganddi forgais na chostau a gallai ei wneud, ond ni fyddai ganddi'r un rhyddid nawr (Cyf_09).

### *Y System Etholiadol*

Mae'r system etholiadol wedi'i thrafod fwyaf o safbwynt y rhwystrau sy'n deillio o'r ffactor deiliadaeth swydd ym mhleidlais yr etholaeth a natur gyfyngus y system, o ran ymgeiswyr annibynnol. Nid oedd elfen gyfrannol y system etholiadol yn cael ei hystyried yn gymhelliant digon mawr i sefyll.

Mae deiliadaeth swydd yn amlwg yn rhwystr i sefyll, waeth beth roedd cyfranogwyr yn meddwl o'u AC presennol. Eglurodd un cyfwelai y byddai'n anodd sefyll yn erbyn yr AC oedd yn y swydd yn barod ond beth fyddai'n dda iddo oedd petai newid yn y system bleidleisio a phetai ei blaid yn gallu ennill sedd ychwanegol yn ei etholaeth teimlai y gallai ymgymryd â'r rôl honno. Dyma oedd un o'r prif gymhellion dros sefyll (Cyf_25). Byddai newid y system bleidleisio i fod yn fwy cynrychioliadol hefyd yn annog cyfranogwr grŵp ffocws i enwebu ei hun.



*"Petai'n system lle'r oeddech chi'n teimlo ei bod hi'n mynd i fod yn fwy cynrychioliadol, efallai y byddwn i'n teimlo, chi'n gwybod beth, gallai fod yn werth i mi sefyll oherwydd y system, er na fyddai'n ennill y sedd yn yr etholaeth benodol honno gallai fod siawns i mi gael fy hun i mewn ffordd arall neu os byddan nhw'n rhannu etholaethau neu'n cael mwy o ACau ym mhob etholaeth."* (Wrecsam)

Roedd amheuon ynghylch gwerth sefyll ar gyfer sedd ranbarthol. Er ei fod yn amlwg yn cael ei weld yn gyfle i ddewis ystod fwy amrywiol o bobl ar y rhestrau, tynnodd cyfranogwyr yr ymchwil sylw at ddiffygion y system bresennol hefyd: maint yr ardaloedd daearyddol a gwmpesir gan y rhestr (yn enwedig yn y canolbarth), y gofynion o ran amser a theithio ar ymgeiswyr wedyn o ganlyniad, diffyg atebolrwydd uniongyrchol i etholwyr, ond hefyd y ffaith y bydd newydd-ddyfodiaid yn ei chael yn anodd bod ar frig y rhestrau a chael siawns wirioneddol o gael eu hethol.

Nododd un cyfranogwr mewn grŵp ffocws yn y gogledd na fyddai'n disgwyl bod yn uchel ar y rhestr, sy'n codi cwestiynau gwirioneddol am werth sefyll o gwbl o gymharu â risgiau rhoi'r gorau i swydd dda a gyrfa a ddatblygwyd dros y blynyddoedd.



*"Hefyd mae gennych yr hen griw neu'r bobl sefydledig o fewn pleidiau gwleidyddol neu 'peidiwch â phoeni, y tro nesaf fyddwch chi'n rhif un ar ein rhestr' neu 'y tro nesaf byddwch chi'n ail ar ein rhestr'. Os cyrhaeddwch chi rif pedwar ry'ch chi'n ffodus fel newydd-ddyfodiad. O'm rhan i, dwi'n credu mai'r gorau y byddwn i fyddai rhif pedwar ar restr ranbarthol y tro nesaf. Does gen i ddim siawns o lwyddo felly, a ydw i'n rhoi'r gorau i swydd dda a gyrfa sydd wedi cymryd 17 o flynyddoedd i'w datblygu? Dy'ch chi ddim yn mynd i'w wneud e, sy'n gythreulig o beth oherwydd dwi am fynd amdani."* (Wrecsam)

### *Ymgeiswyr Annibynnol*

Roedd y rhwystrau a wynebir gan ymgeiswyr annibynnol wrth sefyll etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol yn thema gyffredin a gododd yn ystod trafodaethau'r grwpiau ffocws. Clywsom gan rai cyfranogwyr nad ydynt o reidrwydd yn gweld eu hunain yn cydweddu i un blaid wleidyddol, nac am wneud hynny, ond eu bod yn teimlo bod angen iddynt ymuno â phlaid er mwyn sefyll a chael siawns go lew o gael eu hethol. Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr o'r farn, fel ymgeiswyr annibynnol, y byddent o dan anfantais fawr o gymharu â *'pheiriannau etholiadol'* pleidiau gwleidyddol (Caernarfon). Roedd materion cost, hygyrchedd a chymorth ymgyrchu (i rywun â phroblemau symudedd) yn rhwystrau pwysig i sefyll.

Gwnaeth un cyfwelai, a ymunodd â phlaid yn ddiweddar gyda'r bwriad o sefyll, y penderfyniad ar sail y blaid oedd fwyaf tebygol o fod â chyfle yn ei ardal. Fodd bynnag, gwnaeth y cyfranogwr gyfaddef nad oedd yn cefnogi holl bolisïau'r blaid efallai.



*"Dwi wedi ymuno â'n plaid...leol yn ddiweddar, er nad wy'n cytuno â llawer o'r hyn sydd ganddi i'w ddweud ond dwi wedi, yn rhannol, am fod gen i ddiddordeb mewn dod yn gynrychiolydd etholedig mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, a'r unig ffordd o wneud hynny yw drwy feithrin cysylltiad â phlaid wleidyddol oherwydd does dim ffordd o ddod yn Aelod Cynulliad [fel aelod annibynnol]. (Cyf_19)"*

Dywedodd cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws ei bod wedi ymuno â phlaid wleidyddol am mai dyma'r unig ffordd roedd yn credu y gallai gael ei hethol. Teimlai fod yn rhaid dewis y blaid iawn yn yr ardal iawn oherwydd *'dyw pobl ddim yn pleidleisio dros bobl, maen nhw'n pleidleisio dros bleidiau'* (Wrecsam). Drwy orfod cyfaddawdu, teimlai cyfranogwr arall ei bod hi eisoes wedi 'ildio' ei gwerthoedd mewn rhyw ffordd, ac efallai mai dyna pam mae math arbennig o berson yn mynd amdani ac yn helpu'r system bresennol i barhau (Wrecsam).

Yn gyffredinol, credwyd bod angen sicrhau chwarae teg i ymgeiswyr annibynnol ac ymgeiswyr o bleidiau bach neu'r rhai heb gymorth ariannol personol:



*"Mae angen i'r system gael ei haddasu fel ei bod mor hawdd i unigolyn sefyll ag yw i blaid wleidyddol gyflwyno ymgeiswyr. Mae'r system bresennol yn ffafrio pleidiau heb os, ac felly yn gyrru pobl heb unrhyw gysylltiadau i ffwrdd...neu mae'n rhaid i bobl â diddordeb gydymffurfio er mwyn cael siawns o gael eu hystyried gan blaid."*

## *Cymorth i Sefyll*

### *Mentora a hyfforddi*

Yn yr holl ymchwil a gynhaliwyd, roedd mentora a hyfforddi darpar ymgeiswyr yn cael ei ystyried yn ffactor pwysig. Dyma oedd y prif gymhelliant yn yr arolwg a fyddai'n annog pobl i sefyll etholiad. Er yn amlwg nad dyma'r ateb i amrywiaeth, ystyrir bod mentora a hyfforddi, yn enwedig pan fo'n annibynnol ar bleidiau gwleidyddol, yn creu cyfleoedd i unigolion o ystod ehangach o gefndiroedd feithrin sgiliau a gwybodaeth hanfodol ar gyfer y rhai sydd am sefyll etholiadau ar unrhyw lefel.



- *48% yn fwy tebygol o sefyll gyda chyngor gan fentor sy'n Aelod Cynulliad;*
- *27.1% yn llawer mwy tebygol o sefyll gyda chyngor gan fentor sy'n Aelod Cynulliad;*
- *Cefnogwyd hyn gan 83% o fenywod;*
- *Cefnogwyd gan 68% o bobl ag anableddau;*
- *Roedd 10.3% o ymatebwyr wedi cael cyngor gan fentor o blaid wleidyddol.*

Tynnodd sawl unigolyn sylw at raglenni blaenorol, fel rhaglen Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus Chwarae Teg, a rhaglen *Amrywiaeth mewn Democratiaeth* Llywodraeth Cymru.

Pwysleisiodd cyn-ymgeisydd y Cynulliad bwysigrwydd cynlluniau o'r fath:



*"Heb i mi gael fy mentora a'm hyfforddi gan Chwarae Teg ar y cynllun dwy flynedd hwnnw, dwi ddim yn credu y byddwn i byth wedi teimlo ei fod yn bosib i mi. Nid oherwydd bod gen i ddim y sgiliau ond, ni fyddwn i wedi credu ynof fi fy hun bron y gallwn i wneud hynny, felly rwy'n credu ei fod e wedi rhoi sylfaen gadarn i mi, yn lle meddwl 'wel, allen ni byth wneud y fath beth' meddwl 'wrth gwrs galli di ei wneud e' felly newidiodd fy nghanfyddiad o fi fy hun a gwnaeth i mi gredu 'dylai'r cyfleoedd hynny fod ar gael i bawb, dim ots beth yw eu dosbarth neu rhywedd neu beth bynnag' felly gwnaeth roi'r hyder i chi. Heb y cwrs dwi ddim yn credu y byddwn i wedi'i wneud." (Cyf_13)*

O fewn pleidiau gwleidyddol ymddengys fod profiad y rhai a gyfrannodd at ein hymchwil yn ddarniog. Dywedodd un cyfranogwr ar Loomio ei fod wedi gofyn i'r blaid am fentor ond nad yw hyn wedi digwydd eto. O ganlyniad, teimlai fod hyn yn ychwanegu at *'yr argraff nad yw gwleidyddiaeth yn agored i bawb'*.

Roedd cyfwelai arall yn teimlo'n rhwystredig ei fod wedi gorfod gofyn am gymorth ar gyfer ei ymgyrch etholiad lleol, yn hytrach na'i fod ar gael yn awtomatig:



*"Ond beth fyddwn i wedi dwli arno fyddai i fentor neu rywun efallai cyn yr etholiadau eistedd lawr...a mynd drwy'r prosesau a'r hyn sy'n ofynnol. Mae'n rhaid gofyn amdano drwy'r amser yn hytrach na bod rhywun yn dweud 'dyma aelod newydd, dyma rywun sy'n newydd i wleidyddiaeth'. Dyw'r pwyslais ddim yn dod o'r brig, mae bob amser yn dod o'r gwaelod a beth sylweddolais i oedd bod yn rhaid gofyn am bethau." (Cyf_20)*

Nododd un cyfwelai, sydd wedi bod yn cael cymorth gan ei AC ac AS drwy eu dilyn am ddiwrnod neu ddau, fod hyn wedi bod yn brofiad cadarnhaol ac roedd yn edrych ymlaen at wneud mwy yn 2018 fel y gallai ddeall y system yn well (Cyf_25).

Yn ôl cyn-ymgeisydd, dylai mentora hefyd fod yn gymwys a pharhau ar ôl i rywun golli etholiad. Teimlai fod tueddiad i fenywod beidio â sefyll am yr ail a'r trydydd tro, tra bod dynion yn fwy parod i sefyll sawl gwaith. Credai ei bod yn bwysig cadw menywod yn arbennig yn weithgar o fewn pleidiau yn hytrach na symud ymlaen i'r fenyw nesaf (Cyf_09). Ategir hyn mewn trafodaethau ar Loomio hefyd. Yn un o'r grwpiau ffocws, siaradodd ambell gyfranogwr am y buddsoddiad emosiynol a wneir mewn ymgyrch a bod y teimlad o gael eich anghofio yn dilyn ymgyrch aflwyddiannus yn lladd ysbryd rhywun (Caerdydd).

Ar Loomio hefyd, nodwyd y gallai mentora gael ei ddefnyddio i helpu ymgeiswyr sy'n wynebu aflonyddu neu gam-drin drwy sicrhau bod ganddynt rywun i droi ato.



*"Dim ond heddiw ro'n ni'n darllen am y gamdriniaeth a'r rhagfarn a brofwyd gan ymgeiswyr yn yr etholiad diwethaf - a wnaeth i mi feddwl bod angen rhyw fath o fframwaith mentora a chymorth nid dim ond i'r rhai sydd newydd gael eu hethol, ond hefyd i'r rhai sy'n sefyll".*

Tanlinellodd ymateb testun yn yr arolwg y byddai cymorth o ran diogelwch yn gymhelliant:



*"Yn fy marn i, byddai cymorth i feithrin gwydnwch personol i allu delio â bod mewn rôl gyhoeddus ac o bosibl fod yn destun cam-drin yn bwysig iawn. Credaf fod gen i'r wybodaeth a'r angerdd i allu gwneud gwahaniaeth yn y math hwn o rôl, ond byddwn i'n ei chael hi'n anodd o ran diogelwch, yn enwedig tra bo gen i deulu ifanc."*

Ffynhonnell arall o hyfforddiant gwleidyddol sydd ar waith yw sefydlu Seneddau Ieuenctid. Roedd aelod o Senedd Ieuenctid ranbarthol o'r farn bod hyn yn rhoi cyfleoedd iddo gael hyfforddiant a meithrin dealltwriaeth o wleidyddiaeth. Roedd hyn yn cynnwys cyrsiau preswyl gyda hyfforddiant ar sgiliau fel ysgrifennu areithiau, ymgyrchu, siarad cyhoeddus a dadlau. Bydd hefyd yn cael y cyfle i fynd i San Steffan a chwrdd â'i AS a'i AC er mwyn trafod pa faterion a godwyd yn y Senedd Ieuenctid y gellid eu mabwysiadu. Roedd y profiad hwn wedi gwneud iddo eisiau hyn yn fwy a helpu pobl ifanc i weld, os gallant ei wneud ar y lefel honno y gallant ei wneud go iawn (Cyf_12).

Ar y cyfan, casglodd y cyfranogwyr fod angen system hyfforddi a mentora ddiduedd nad yw'n rhoi ymgeiswyr annibynnol o dan anfantais a'i bod yn agored i *'bawb ni waeth beth fo'u rhywedd, rhyw, hil, anabledd nac oedran'* (Loomio). Yn gyffredinol, roedd yr angen am raglenni mentora annibynnol yn gysylltiedig â; chynnig chwarae teg i bleidiau bach yn ogystal ag ymgeiswyr annibynnol; lleddfu methiannau pleidiau gwleidyddol eu hunain i gefnogi eu hymgeiswyr; paratoi ymgeiswyr i ragweld ac ymdrin â cham-drin yn ystod ymgyrch; a, newid diwylliant o'r wleidyddiaeth i'r rôl.

### *Gwybodaeth i Ddarpar Ymgeiswyr*

Yn ogystal â mentora a hyfforddi ffurfiol, credwyd bod cael mwy o wybodaeth am y broses sefyll, enwebu a dethol ymgeiswyr yn bwysig i lawer o gyfranogwyr. Fel y dywedodd un cyfwelai, *'hoffwn wybod sut mae'r peiriant yn gweithio cyn i mi benderfynu pa rôl yr hoffwn ynddi'* (Cyf_11). Dywedodd un cyn-ymgeisydd ei fod yn deall gwleidyddiaeth plaid yn weddol dda ond

pan wnaeth sefyll fel AC nad oedd ganddo syniad beth oedd y broses. Dywedodd fod hyn yn rhannol oherwydd pleidiau yn ogystal â'r wybodaeth y mae'r Cynulliad yn ei rhoi i ymgeiswyr (Cyf_01).

Cyfeiriodd cyn-ymgeisydd annibynnol awdurdod lleol at lyfryn a gafodd ei baratoi gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru *(Bod yn Gynghorydd Gwnewch Wahaniaeth: Etholiadau Lleol Cymru 2017 Canllaw i Ymgeiswyr)*. Roedd yn cynnwys pethau fel pam sefyll, sut beth ydyw, a oedd yn ddefnyddiol iddynt. Teimlwyd y byddai'n ddefnyddiol cael rhywbeth tebyg a fyddai'n dweud beth mae Aelodau Cynulliad yn ei wneud a pha fath o rôl ydyw (Caernarfon). Roedd cyfwelai arall wedi cael rhywbeth tebyg gan ei swyddfa cyngor a oedd, yn ei barn hi, yn ddisgrifiadol iawn o ran dweud wrthych beth mae cynghorydd yn ei wneud ond nid o reidrwydd 'sut' na gwybodaeth am brosesau a chamau. Credai fod angen 'canllaw cam wrth gam' ar y camau a beth sy'n digwydd nesaf mewn cryn fanylder (Cyf_11). Adlewyrchwyd hyn yn y grwpiau ffocws hefyd, lle dywedodd un cyfranogwr a oedd am sefyll fel aelod annibynnol fod angen 'canllaw ABC' arno (Caernarfon).

Roedd gan y cyfwelai bryderon hefyd am y manylion ar wefan y Cynulliad o ran gwybodaeth i ymgeiswyr. Yn ei barn hi, roedd y wybodaeth 'bron yn negyddol', a oedd *'bron yn eich atal' a bod 'fel petai llawer o rwystrau ar y wefan honno eisoes'* (Cyf_11).

Mynegodd cyfwelai arall deimladau tebyg a nododd y byddai cyfryngau cymdeithasol yn ffordd dda o ddatgelu'r hyn sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni yn y Cynulliad a Llywodraeth Cymru. Aeth ymlaen i ddweud y dylai hyn gael ei wneud gan rywun diduedd a'i fod yn dangos croestoriad o wahanol Aelodau Cynulliad o wahanol rannau o'r wlad yn hytrach na chael ei wneud gan ACau eu hunain. Roedd hefyd o'r farn y byddai hyn yn ffordd o ddangos y gwahanol fathau o gymunedau sy'n bodoli ledled Cymru hefyd.



*"Gallai fod yn beth da rhoi cyngor cyffredinol i bobl ar draws pleidiau ac i bobl sydd, eto am fy mod i am weld pobl newydd yn ymuno, ddim yn gwybod mai'r broses yw eich bod chi'n ymuno â phlaid a'ch bod yn gwneud y math hyn o beth. Byddai'n beth da os petai'r wybodaeth honno ar gael yn gyffredinol i bawb am sut mae sefyll, beth yw'r prosesau, beth yw'r costau. Does gen i ddim syniad faint mae'n ei gostio i sefyll etholiadau Cynulliad Cymru, sut mae gwneud hynny, achos dwi ddim wir yn gwybod a byddwn i, siŵr o fod, yn dibynnu ar y blaid i ddweud wrtha i petawn i yn y sefyllfa honno beth bynnag, ond i bobl sydd heb gyrraedd y man hwnnw mae angen i'r wybodaeth honno fod ar gael yn fwy cyffredinol. Dwi'n credu'n gryf mewn rhoi'r wybodaeth, ond weithiau mae'n anodd cyrraedd pobl." (Cyf_03)*

Ar y cyfan, nododd cyfranogwyr fod diffyg gwybodaeth ddigonol ac amhleidiol yn rhwystr i sefyll a dymunwyd gweld gwybodaeth fwy amrywiol am sut i ddod yn AC.

### 3.1.3 Cymhellion i sefyll

Fel y gwelwyd uchod, ***system fentora*** oedd y math o gymhelliant mwyaf poblogaidd i gefnogi darpar ymgeiswyr. Nododd un cyfwelai a oedd wedi cymryd rhan mewn cynllun mentora y dylid buddsoddi mewn rhaglenni o'r fath ac y dylent fod yn agored i bobl a chymunedau nas cynrychiolir yn ddigonol (Cyf_13). Roedd cyfwelai â nam ar y clyw o blaid hyn fel ffordd o helpu i ddatblygu rhwydweithiau a oedd yn eithaf anodd eu creu yn anffurfiol fel arall (Cyf_14). Byddai hefyd yn rhoi cyfle i bobl weld beth y gallent ei gyflawni ac ar ba lefel y byddai'n well iddynt wneud hynny - lefel genedlaethol neu leol (Cyf_09).

Ar y cyfan, cytunodd y cyfranogwyr y dylai unrhyw gymorth mentora fodloni'r meini prawf canlynol er mwyn bod yn effeithiol:

- Dylai fod yn ddiduedd;
- Dylai gynnwys cysgodi ACau;
- Dylai gefnogi ymgeiswyr ar ôl sefyll, yn enwedig os oeddent yn aflwyddiannus.

Holodd cyfranogwyr a allai'r Cynulliad gael effaith uniongyrchol ar faterion gwleidyddol plaid fel dethol ymgeiswyr a'u cefnogi. Crisialodd un cyfranogwr o'r grwpiau ffocws deimladau llawer o gyfranogwyr drwy danlinellu bod gan y Cynulliad rôl allweddol i'w chwarae wrth ddarparu gwybodaeth ddiduedd mewn ffordd agored.

*"O fewn pleidiau fe welwch yr un problemau ag y tu allan i bleidiau. Does dim digon o amrywiaeth o leisiau ar lefelau uwch, sydd wedyn yn naturiol yn golygu mai'r bobl sy'n gweddu i'r darlun hwnnw sy'n datblygu, ac mae hyn yn digwydd ym mhob plaid am wn i. Mae hynny'n amlwg yn rhywfaint o rwystr. Fodd bynnag, unwaith eto, dyw'r Cynulliad ddim yn gallu newid y diwylliant hwnnw. Ond, mae'n dod nôl i'r pwynt, os ydych chi'n addysgu ystod ehangach o bobl a bod amrywiaeth o gyfleoedd gwleidyddol ar gael, a bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n ehangach â phob math o bobl, hyd yn oed o fewn pleidiau, byddwch yn dechrau gweld y gwahaniaeth oherwydd bydd gan bobl lais a'r hyder i sôn efallai am bethau nad oedden nhw'n siarad amdanyn nhw cynt neu gynnig eu hunain am bethau nad ydyn nhw'n eu gwneud ar hyn o bryd."* (Caerdydd)

Dywedodd cyfranogwr grŵp ffocws fod angen ***'cymorth ôl-ofal'*** ar ymgeiswyr oedd yn sefyll etholiadau ond ddim yn ennill. (Caerdydd).

Cefnogwyd ***cronfa mynediad i wleidyddiaeth*** gan sawl cyfranogwr. Fe'i trafodwyd yn arbennig o ran cefnogi ymgeiswyr ag anableddau (Caernarfon) ond roedd cyfranogwyr ar Loomio am weld cronfa a allai gefnogi'r rhai o grwpiau eraill nas cynrychiolir yn ddigonol hefyd.

Eglurodd cyfwelai â nam ar y golwg y gellid ei defnyddio i ariannu cymorth cyfathrebu neu gymorth personol y byddai ei angen arni er mwyn iddi allu sefyll ac y byddai'n rhoi mwy o hyder iddi fynd allan a chyflawni ei rôl ymgyrchu. Yn arbennig, tanlinellodd y ffaith y byddai'n anodd iddi dalu'r costau teithio am fod angen gyrrwr arni a rhywun i'w helpu (Cyf_14).

Teimlai cyfranogwr arall ei bod yn hanfodol bod cymhelliant o'r fath yn cael ei hyrwyddo'n dda (Cyf_05). Elfen bwysig o gronfa o'r fath, yn ôl un cyfwelai, yw ei bod yn cael ei hegluro'n gywir i'r cyhoedd pam bod angen gwneud trefniadau i sicrhau chwarae teg a pham bod amrywiaeth yn ffactor cadarnhaol (Cyf_14).

Credai cyfwelai fod angen ***cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd*** hefyd fel bod pobl yn deall y lefel o ymrwymiad roedd yr ymgeisydd yn anelu ati: *"Dyw'r cyhoedd ddim yn deall mai eich arian petrol chi sy'n cael ei ddefnyddio."* (Cyf_01) Yn dilyn hynny, credai mai cymhelliant i sefyll fyddai ariannu costau teithio ac ymgyrchu (Cyf_01) a fyddai'n sicrhau bod mwy yn gymwys na chronfa mynediad i wleidyddiaeth. Cefnogir hyn yn yr arolwg fel yr ail gymhelliant mwyaf poblogaidd:



- *dywedodd 73.3% o ymatebwyr y byddent yn fwy tebygol neu'n llawer mwy tebygol o sefyll petai benthyciad neu grant yn bosibl;*
- *45.5% yn fwy tebygol;*
- *27.8% yn llawer mwy tebygol.*

Ond ym marn un cyfranogwr mewn grŵp ffocws roedd hyn yn llwybr peryglus, am na fyddai trethdalwyr am weld eu harian yn cael eu defnyddio i helpu pleidiau nad oeddent yn eu cefnogi (Caerdydd).

Un awgrym gan gyfwelai benywaidd o ran ***mynd i'r afael â gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr benywaidd oedd cyflwyno cwotâu rhywedd***, ond credai fod angen gwneud hyn fel rhan o newidiadau i'r system bleidleisio (Cyf_22). Dywedodd un cyfwelai a wnaeth sefyll yn ei 20au mewn etholaeth â rhestr fer menywod yn unig *'na fyddai wedi ystyried sefyll heblaw am hynny'* (Cyf_05). Cefnogwyd hyn gan gyfranogwr arall ar Loomio a gredai y gallai'r rhestr fod o fudd i bobl â chryfderau gwahanol:



*"Dylai fod gan bob plaid wleidyddol restrau byr menywod yn unig mewn seddi y gellir eu hennill e.e. Dylai menywod fod ar frig seddi rhanbarthol. Dylent hefyd fod â thargedau ar gyfer seddi y gellir eu hennill ar gyfer grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol ee, Menywod â chyfrifoldebau gofal plant, menywod ifanc, lleiafrifoedd ethnig, LGBT a phobl ag anableddau."*

O'r arolwg, gwnaethom nodi bod menywod yn cefnogi monitro amrywiaeth a chwotâu amrywiaeth yn llawer mwy na dynion:

**Tabl 1.** Beth fyddai'n eich gwneud yn fwy tebygol o sefyll? Categorïau â'r gwahaniaeth mwyaf rhwng menywod a dynion (%)

| | Benyw | Gwryw | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| Monitro amrywiaeth ymhlith ymgeiswyr | 44.15 | 17.71 | 26.44 |
| Cwotâu amrywiaeth ar gyfer etholiadau | 37.66 | 11.46 | 26.2 |
| Rhwydweithiau cefnogaeth bersonol/wedi'i theilwra (ar gyfer pobl ag anabledd er enghraifft) | 55.7 | 31.96 | 23.74 |
| Gallu rhannu swydd/cyfrifoldeb (megis cadeirio pwyllgor) | 68.35 | 45.36 | 22.99 |
| Opsiynau gweithio mwy hyblyg (e.e. gweithio o gartref) | 77.22 | 55.67 | 21.55 |

Awgrymodd cyfranogwr mewn grŵp ffocws y dylid defnyddio ***cwotâu amrywiaeth*** ar gyfer grwpiau ehangach o bobl neu ***newid y system gyfrannol*** fel bod mwy o gyfle i bleidleisio dros ymgeiswyr amrywiol (Aberystwyth). Gwnaeth trafodaeth ar Loomio gyffwrdd â defnyddio iaith yn y drafodaeth am restrau byr. Teimlwyd, lle cyflwynir y peth fel gwahaniaethu cadarnhaol, y'i hystyrir yn beth negyddol ac annemocrataidd. Fodd bynnag, pan y'i cyflwynir fel gweithredu cadarnhaol, ystyrir mai dyma'r unig ffordd o fynd i'r afael â diffygion o ran amrywiaeth. (Loomio)

Fodd bynnag, dywedodd un cyfwelai benywaidd, a allai weld bod angen y fath fentrau er mwyn cydbwyso gwleidyddiaeth, eu bod yn ei gwneud hi'n anghyfforddus.



*"Byddwn i mewn cyfyng gyngor go iawn am y peth, oherwydd byddwn i ddim am gael fy ethol ar sail fy rhywedd. Byddwn i am gael fy ethol am mai fi yw'r person gorau ar gyfer y swydd. Byddwn i bob amser yn poeni mai'r unig reswm y cefais fy ethol yw am fod gan yr etholaeth gwota rhywedd ac mai dyna mewn gwirionedd yw'r unig reswm y cefais fy newis am mai menyw ydw i. Nid am fy mod i'n abl ac mai fi yw'r person gorau ar gyfer y swydd a dyna pam dwi'n teimlo'n anghyfforddus am y peth." (Cyf_19)*

Roedd hyblygrwydd o ran gyrfaoedd ymgeiswyr yn fater a godwyd gan lawer ac roedd un grŵp ffocws o'r farn na fyddai llawer o gyflogwyr yn hapus i roi'r amser hwnnw i ymgeiswyr. Yna, aeth ymlaen i drafod ***ffyrdd o gymell cyflogwyr*** fel cyflwyno terfyn amser ar gyfnod mewn swydd AC (Wrecsam). Hefyd, gwelwyd terfynau amser ar gynrychiolaeth fel ffordd o gadw'r system yn ffres ac 'efallai y byddai pobl yn teimlo bod ganddyn nhw siawns' (Llanelli), (Wrecsam).

### 3.1.4 Trafodaeth

Ar y cyfan, gwelwyd bod pobl yn wynebu llawer o rwystrau ar eu taith o fod yn unigolyn cymwys i fod yn ymgeisydd yn sefyll etholiad y Cynulliad. Mae rhai mathau o gymdeithasoli i mewn i wleidyddiaeth, yn naturiol, yn dileu rhai o'r rhwystrau presennol (h.y. diffyg gwybodaeth am strwythurau a phrosesau gwleidyddiaeth plaid, diffyg rhwydwaith a systemau cymorth a chyfalaf gwleidyddol), tra bod eraill yn fwy gwaharddol (h.y. newydd-ddyfodiaid ym myd gwleidyddiaeth, sy'n weithgar yn eu cymunedau, ond nad ydynt yn teimlo eu bod yn perthyn i ideoleg plaid wleidyddol ac a fyddai am sefyll fel aelod annibynnol).

Yn amlwg, mae rhwystrau strwythurol pwysig, fel cost sefyll, amser, yn ogystal â hygyrchedd cyfyngedig, i rai categorïau o bobl: pobl ifanc, menywod, pobl â theuluoedd ifanc, pobl ag anableddau. I rai, mae'r risg sydd ynghlwm wrth sefyll etholiad yn amlwg yn rhy fawr. Mae natur ymgyrchu hefyd yn gyfyngus i ymgeiswyr ag anableddau neu â theulu a chyfrifoldebau gofalu.

Mae ffactorau diwylliannol hefyd yn bwysig ar y daith hon. Mae tuedd (anymwybodol) detholwyr y blaid, y duedd i ffafrio'r ymgeisydd nodweddiadol (dyn gwyn, heterorywiol, dosbarth canol fel arfer) dros unrhyw beth sy'n amrywio o'r norm hwnnw, a'r diffyg dealltwriaeth o amrywiaeth wedi'i gwreiddio'n ddwfn o fewn pleidiau ac mae'n anodd mynd i'r afael â'r peth. Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig, menywod, a phobl ag anableddau.

Mae ffactorau systemig a gwleidyddol, fel y system etholiadol, y broses etholiadol, a gweithdrefnau dethol ymgeiswyr o fewn pleidiau gwleidyddol hefyd yn cyfrannu at ddiffyg amrywiaeth. Daethpwyd o hyd i lawer o dystiolaeth sy'n awgrymu bod angen i bleidiau gwleidyddol fewnsyllu o ddifrif, o ran amrywiaeth. Mae'r canfyddiad hwn yn unol â'n hadolygiad o lenyddiaeth i raddau helaeth.

Yn amlwg, nid yw'r holl rwystrau a nodir yma na'r holl awgrymiadau ar gyfer newid gan ein cyfranogwyr o fewn cylch gorchwyl y Bwrdd Taliadau. Fodd bynnag, credwn fod lle i gymryd camau cyfannol er mwyn ymdrin â rhai o'r rhwystrau a nodir uchod.

## 3.2 Bod yn Aelod Cynulliad

### *3.2.1 Beth y gwnaethom edrych arno*

Roedd gennym ddiddordeb arbennig mewn deall sut beth oedd bod yn Aelod Cynulliad ym marn y cyfranogwyr yn y prosiect hwn, ac archwilio agweddau a chredoau o ran y gwahanol agweddau ar y rôl. Yn arbennig, roeddem am wybod y canlynol:

- faint mae pobl yn teimlo eu bod yn gwybod am y rôl mewn gwirionedd;
- pa agweddau ar y rôl oedd yn apelio atynt yn benodol;
- beth, yn eu barn nhw, oedd yn anneniadol am y rôl efallai;
- a sut maent yn gweld rôl Aelod Cynulliad yn newid i fod yn fwy deniadol i ystod ehangach o unigolion.

Gwnaethom ystyried amrywiaeth o themâu, yn amrywio o'r wybodaeth sydd ar gael am y rôl, cyflog a buddiannau eraill, faint o gymorth a gaiff ACau yn y swydd; trefniadau teithio a llety; trefniadau gweithio; gofal plant; cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith; a diogelwch swydd. Roeddem am ddeall pa agweddau ar y rôl ei hun a allai gael eu hystyried yn rhwystr i sefyll, gyda'r nod o lunio argymhellion ar gyfer cymhellion posibl.


Gwnawn gyflwyno amlinelliad o'r themâu allweddol a ddeilliodd o'r dadansoddiad fel rhwystrau posibl, ac yna syniadau ar gyfer newid a drafodwyd gan y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil.

### 3.2.2 Yr hyn a nodwyd gennym

Yn gyffredinol, gwnaethom nodi bod y syniad o fod yn AC yn cyffroi pobl, ond ei fod hefyd yn annymunol iddynt. Ceir thema sylfaenol mai'r posibilrwydd o newid bywydau pobl er gwell yw prif atyniad y rôl, ond gallai fod mwy o eglurder ynghylch y rôl ei hun a'r pecyn taliadau.

#### *Rôl AC*

Rydym wedi gweld rhai gwahaniaethau pwysig o ran faint mae pobl yn teimlo eu bod yn gwybod am rôl Aelod Cynulliad rhwng ymatebwyr yr arolwg a'r rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws a'r cyfweliadau. Roedd y mwyafrif helaeth o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg o'r farn bod ganddynt lefel dda o wybodaeth am y rôl.



- *Roedd lefel dda o wybodaeth am y rôl: 7 oedd yr ymateb mwyaf cyffredin ar raddfa o 0 i 10 (0 - dim o gwbl, 10 - llawer iawn);*
- *Atebodd y rhan fwyaf 6 neu fwy.*

Mewn cyfweliadau a grwpiau ffocws nodwyd darlun ychydig yn wahanol. Nododd cyfranogwr mewn cyfweliad:



*Os byddech chi yn 'googlo' 'what does an Am do?' byse fel y prif bethau fel 'they speak in the Senedd or whatever' ond byddwn i'n credu bod mwy o waith angen ei wneud er mwyn hyrwyddo yr holl agweddau mae Aelod Cynulliad yn wneud, nid dim ond y siarad yn y Senedd." (Cyf_12)*

Yn un o'r grwpiau ffocws, roedd teimlad nad oedd pobl yn gwybod digon am fod yn AC. Dywedodd un cyfranogwr fod angen i bobl a oedd yn ystyried sefyll wybod beth oedd ar gael iddynt:



*"Dwi'n adnabod Aelod Cynulliad [yr etholaeth], a dwi'n gwybod bod ganddi swyddfa, staff, a bod gan y staff hynny rolau gwahanol ac ati - felly mae angen i bobl wybod bod hynny ar gael hefyd, y byddan nhw'n cael yr arian neu beth bynnag i allu cael swyddfa o staff i'w helpu. Felly, dwi ddim wir yn meddwl bod pobl yn gwybod beth yw bod yn Aelod Cynulliad."*

Cafodd y farn bod angen mwy o wybodaeth a gwybodaeth well am y rôl ei hategu hefyd gan gyfranogwyr a oedd yn honni eu bod eisoes yn gwybod cryn dipyn am natur y rôl. Dywedodd y cyfranogwyr fod eu gwybodaeth am y rôl yn deillio o'u hymchwil eu hunain (Cyf_12), o fod y tu mewn i wleidyddiaeth (Cyf_20) neu o weithio mewn cymdeithas sifil (Cyf_14). Gwnaeth un cyfwelai ifanc, oedd am fod yn AC, gyfaddef ei fod ond yn gwybod beth oedd y rôl yn ei olygu drwy ei ymchwil a'i ddiddordeb ei hun (Cyf_12). Tynnodd un arall, â phrofiad o weithio i AC yn y gorffennol, sylw at fantais meddu ar fynediad a gwybodaeth fewnol:



*"oni bai eich bod chi'n adnabod rhywun neu wedi bod yn ddigon ffodus fel fi i fynd i mewn i Lywodraeth Cymru a bod yn ymchwilydd i Aelod Cynulliad dy'ch chi ddim yn mynd i wybod [am rolau AC]" (Cyf_20).*

Teimlai un cyfranogwr yn Wrecsam nad oedd ganddi ddigon o ddealltwriaeth o'r hyn y mae'n rhaid i ACau ei wneud er mwyn sicrhau newid. Trafodwyd materion ynghylch eglurder, hygyrchedd, iaith a phortreadu cyfrifoldebau dyddiol ACau:



*"Un peth dwi ddim yn gyfarwydd ag ef, ac efallai y gallai helpu pobl i ddeall beth sy'n digwydd, yw'r prosesau yn fwy na dim, sut mae pobl yn gwneud newid felly os bu newid mewn deddfwriaeth, beth fu'n rhaid iddyn nhw ei wneud, faint o gymorth fu'n rhaid iddyn nhw ei gael er mwyn cyrraedd y man hwnnw? Gallaf nodi'r pethau hyn, ond dwi ddim yn deall y broses felly dwi ddim wir yn gwybod faint o waith, na faint o ymdrech neu newid mae rhywun wedi'i wneud gan nad ydw i'n gwybod beth mae'n rhaid i chi ei wneud ar y camau hynny i gyrraedd y pwynt hwnnw."* (Wrecsam)

Nid diffyg gwybodaeth am y rôl oedd yn peri pryder i gyfranogwr arall, a oedd yn teimlo ei bod hi'n deall rôl AC, ond ei bod yn un â llawer o bwysau ynghlwm wrthi, ac roedd hynny felly yn creu rhywfaint o ddiffyg cymhelliant. Credai mai rhan o'r broblem oedd y canfyddiad o ACau ymhlith y cyhoedd yn ehangach. Cymhelliant fyddai gwybod bod ganddi gefnogaeth ac y byddai'r cyhoedd yn cydnabod faint o waith y mae ACau yn ei wneud (Cyf_22).

Roedd gan gyfwelai arall farn negyddol iawn am rôl Aelod Cynulliad, gan awgrymu nad oedd natur y rôl yn ddeniadol iawn:




*Beth sy'n wirioneddol rhoi pobl bant ar y foment yw'r trafferth yr ydych chi'n mynd i gael, a'r cyhuddiadau yr ydych chi'n mynd i gael, a'r pwysau yr ydych chi'n mynd i gael o bobl yn bygwth chi, chi gwybod. Os chi mewn unrhyw swydd ar y foment gyda arweiniaeth a chyfrifoldebau 'na gyd chi'n cael yw backseat drivers yn trio trywanu chi yn y cefn, a mae'n horrible mas na, absolutely horrible mas 'na nawr chi'n gwbod. Os chi'n rhoi pen chi lan y parapet dyddie hyn chi'n gorfod disgwyl fe rili a pam dyle rhywun ddisgwyl hynne os na chi'n mynd i gael eich talu'n dda amdano fe?...mae'n dinistrio bywydau pobl." (Cyf_25)*

Ar y cyfan, cymysg fu'r dystiolaeth o ganfyddiad pobl o rôl Aelod Cynulliad. Gall diffyg gwybodaeth am y rôl fod yn rhwystr nid yn unig i bobl sefyll, ond hefyd i bobl ymgysylltu â'r Cynulliad. Ystyriwyd bod y rôl yn llawn straen, gan olygu nad oedd y syniad o ddod yn AC yn ddymunol iawn. Er gwaethaf rhai sylwadau negyddol am rôl Aelod Cynulliad, roedd dyhead gwirioneddol i bobl fod yn ACau am eu bod o'r farn ei bod yn rôl bwysig a fyddai'n eu galluogi i wneud newid cymdeithasol (gweler 3.1).

### *Cyflog*

Yn gyffredinol, nid yw cyflog yn rhwystr nac yn gymhelliant mawr i bobl sefyll. Efallai mai un rheswm dros hynny yw'r ffaith nad oedd llawer o bobl yn gwybod beth oedd y pecyn cyflog.



- *Gwnaeth 16% o ymatebwyr gyfaddef nad oeddent yn gwybod dim am y pecyn cyflog;*
- *Rhoddodd ychydig dros 50% o ymatebwyr sgôr o 0-5 (lle mai 0 yw dim o gwbl a 10 yw llawer iawn o ran yr hyn roeddent yn ei wybod am y pecyn cyflog);*
- *Dywedodd 52% o ymatebwyr nad oedd y cyflog presennol yn 'rhwystr nac yn gymhelliant' i sefyll.*

Er y cytunodd y cyfranogwyr yn ein hymchwil nad y cyflog ddylai fod yn brif ystyriaeth o ran sefyll - honnodd un person ifanc *'dylech fod yn sefyll i wneud gwahaniaeth i gymdeithas, nid oherwydd y pot mêl'* (Cyf_17) - roedd y sylwadau ynghylch p'un a oedd y cyflog yn briodol ai peidio yn fwy amrywiol, yn amrywio o gael ei ddisgrifio'n 'ormod', 'atyniadol', 'teg', 'cyfiawn', i 'weddol', 'fwy neu lai'n iawn' a 'ddim digon'.

Ar y naill law, yn un o'r grwpiau ffocws, awgrymwyd bod y cyflog yn ormod mewn gwirionedd, gan ddenu gwleidyddion uchelgeisiol, nid pobl gyffredin. Cynigodd un cyfranogwr yr awgrym canlynol:



*"petaech chi'n ei ostwng yn sylweddol (gwaelod y trideg mil), a fyddai hynny'n apelio at y person cyffredin ar y stryd. Oherwydd mae'r 65 mil yn apelio at yr unigolyn uchelgeisiol a'r dosbarth gwleidyddol, sydd wedi ymsefydlu.[...] Ond i rywun cyffredin a fyddai hynny'n ei wneud yn fwy na nod cyraeddadwy?"* (Llanelli)

Caiff y farn y gallai cyflog uchel gael effaith negyddol ar rai unigolion ei hategu'n rhannol gan un o'n cyfweleion, a allai weld bod dau safbwynt i'w hystyried:



*"Os yw'n cynyddu gallai llawer o bobl ifanc ddweud 'wel, does gen i ddim y profiad na'r wybodaeth' er bod ganddyn nhw'r pethau hynny efallai. Gallent feddwl, 'dyw hyn ddim i mi, fyddai byth yn cael y cyfle hwnnw'. Ond yna galla i weld ochr gadarnhaol hyn lle gallai fod yn gymhelliant i ddweud 'ry'ch chi'n gallu gwneud hyn a ry'ch chi'n gallu ennill y math hwnnw o arian'." (Cyf_20)*

Roedd y pecyn cyflog yn ddeniadol i rai, ac ystyriwyd y byddent yn well eu byd yn ariannol yn y swydd newydd. Credai person ifanc a oedd yn ystyried sefyll ar ôl gadael y brifysgol y byddai'r cyflog yn gam enfawr iddo (Cyf_12). Credai fod angen cyflog uchel i wneud iawn am y ffaith y gallai'r swydd ond para 5 mlynedd.

Fodd bynnag, ni chredai un fenyw oedd yn gweithio yn y sector cyhoeddus fod y cyflog yn gwneud iawn am orfod gadael ei swydd am gyfnod sylweddol, yn ei barn hi ac o'i phrofiad hi:



*"Y prif beth sy'n fy mhoeni i ydi y ffaith bod yna ddisgwyliadau os yda chi yn y sector gyhoeddus...eich bod chi'n gorfod cymryd cyfnod di-dâl o'ch swydd er mwyn medru sefyll. Dwi'n meddwl bod hynny'n fwy o rhwystr na'r cyflog ei hun, ond dydi'r cyflog ddim digon uchel i wneud iawn am hynny, eich bod chi hefyd yn rhoi gorau i'ch swydd am gyfnod yn y gobaith eich bod chi yn cael eich ethol" (Cyf_09)*

Yn un o'r grwpiau ffocws, credai cyfranogwr fod angen i'r cyflog gael ei roi mewn cyd-destun a'i gymharu â chyflogau prif weithredwyr mewn cynghorau lleol. Ategwyd hyn gan aelod arall o'r grŵp a gredai ei fod yn ymwneud yn fwy â gostwng y cyflogau hynny yn hytrach na chynyddu cyflogau ACau. Cafwyd trafodaethau tebyg ar Loomio:



*"Yn fy marn i, mae'n gyflog da iawn, a gyda'r lwfansau ychwanegol y gellir eu hawlio cânt eu talu'n dda. Mae'n uwch na Meddyg Teulu, Meddyg Ymgynghorol a Phennaeth lefel ganol."*

Fodd bynnag, ysgrifennodd ymatebydd arall:



*"pan gymharwch gyflogau ACau a'u staff â rhai swyddogion cynghorau, uwch academyddion, uwch reolwyr, mae'r gwahaniaeth yn amlwg. Dy'ch chi ddim yn ei wneud e' er mwyn yr arian ... ond dyw'r cyhoedd ddim wir yn deall hynny."*

Ar y llaw arall, dywedodd un cyfwelai sy'n bartner mewn cwmni ar hyn o bryd y byddai'r cyflog yn golygu ei bod yn waeth ei byd yn ariannol, ond, ar y cyfan, roedd yn credu ei fod yn gyflog da a chryn dipyn yn fwy na chyflog y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru. Roedd y cyflog sylfaenol, ar ôl ychwanegu'r pecyn treuliau ato, ar y lefel iawn fwy neu lai. Ni fyddai'n rhwystr iddi o reidrwydd petai'n gwneud y cynlluniau ariannol cywir ymlaen llaw (Cyf_19).

Fodd bynnag, teimlai meddyg fod y cyflog yn rhy isel iddo. Dywedodd, petai'n cael parhau i weithio yn y maes meddygol er mwyn sicrhau bod ei incwm yn gytbwys fel nad oedd yn waeth ei fyd, drwy fod yn y Senedd, yna byddai hynny'n beth da. Roedd hefyd am barhau i wneud hynny am resymau proffesiynol (Cyf_25).

Ar y cyfan, nid yw'r cyflog o reidrwydd yn brif ffactor i'r bobl a gymerodd ran yn yr ymchwil. Er, i rai unigolion, roedd yn amlwg nad oedd yn rhagolwg ariannol deniadol, byddent yn dal i ystyried sefyll, ond roedd hyn yn dibynnu'n fawr ar swydd yr ymatebydd. Ni chredai'r rhan fwyaf o ymatebwyr fod y cyflog yn rhwystr gan ei fod yn fwy na digon ar gyfer y rôl - ond nid oedd o reidrwydd yn gymhelliant.

### *Agwedd tuag at dreuliau*

O ran treuliau, roedd agwedd gyffredinol bod stigma diangen ynghylch hawlio treuliau, ac nad oedd y cyhoedd o blaid talu treuliau i wleidyddion. Fodd bynnag, roedd angen darpariaeth tuag at dreuliau personol fel gofal plant, teithio a chyfarpar i bobl ag anableddau neu sydd angen darpariaeth ychwanegol.

Ystyriwyd bod y stigma canfyddedig ynghlwm wrth wleidyddion yn hawlio treuliau yn agwedd anneniadol ar y swydd i rai cyfweleion. Roedd un, a ddywedodd mai ei threuliau mwyaf fyddai teithio a llety, yn teimlo'n anniddig am ei bod yn casáu'r ffaith bod gwleidyddion yn hawlio treuliau. Roedd am weld mwy o wybodaeth ar gael am dreuliau a dadleuodd, os oedd treuliau ACau yn rhai dilys, na ddylai fod stigma ynghlwm wrthynt (Cyf_19).

Roedd treuliau yn hanfodol i un cyfwelai â nam ar y clyw. Dywedodd na fyddai'n hapus i'w chymorth cyfathrebu gael ei gynnwys fel rhan o'i threuliau personol. Gall darparu cymorth cyfathrebu, fel trawsgrifiad llais i destun byw, helpu llawer mwy o bobl ac ni ddylai fod yn rhan o gostau un unigolyn. Nododd fod cynllun mynediad i waith yn talu am ei chymorth cyfathrebu ar hyn o bryd, felly nid oedd rhaid i'w chyflogwr dalu. Nododd ei bod yn disgwyl i'r Cynulliad wneud addasiadau ffisegol er mwyn iddi allu gweithio.



*"Mae'n ymwneud ag arweinyddiaeth a sut rydyn ni'n fframio materion mynediad a chydraddoldeb a chynhwysiant, a chyfleu'r neges, nad ydych chi'n gwneud pethau'n gynhwysol i un unigolyn, ond, os yw'n cynnwys un yna mae'n cynnwys llawer mwy o bobl ac o fudd i lawer mwy o bobl." (Cyf_05)*

Ar y cyfan, roedd cyfranogwyr yn teimlo braidd yn annifyr ac ansicr am y ffordd yr ymdrinnir â threuliau unwaith y byddant yn y swydd, oherwydd y stigma canfyddedig sydd ynghlwm wrthynt ymhlith y cyhoedd.

### *Cymorth swyddfa*

Dim ond dau gyfranogwr â nam ar y golwg a'r clyw a nododd fod y cymorth penodol oedd yn cael ei gynnig i wleidyddion i redeg eu swyddfeydd yn fater pwysig. Y dybiaeth gyffredinol ymhlith gweddill y cyfranogwyr oedd na fyddai angen iddynt boeni am hyn, unwaith y byddent yn y swydd, ac y byddent yn cael digon o gymorth i sefydlu eu swyddfa. Roedd un cyfwelai a

hoffai gael mwy o gymorth staff fel y gallai ganolbwyntio ar faterion ehangach, yn hytrach na gorfod ymdrin â manylion a gwaith cynllunio, yn eithriad (Cyf_25).

Fodd bynnag, yn achos cyfwelai â nam ar y golwg, y prif rwystr fyddai cael mynediad i ddeunyddiau mewn fformat hygyrch fel bod ganddi amser i baratoi ar gyfer dadl. Gellid darparu'r fath ddeunydd mewn print mwy o faint neu'n electronig. Roedd yn gwybod am un AS â nam ar y golwg oedd yn cael deunyddiau un neu ddau ddiwrnod ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, a oedd yn effeithio ar ei gwaith paratoi. Byddai angen iddi gael meddalwedd arbenigol ar gyfer deunyddiau a rhywun, yn yr ychydig wythnosau cyntaf, i'w helpu i ymgyfarwyddo h.y. dangos iddi ble i eistedd yn y senedd, ble mae'r ystafelloedd gwahanol (Cyf_14).

I gyfwelai â nam ar y clyw, byddai cymorth llais i destun yn hanfodol am fod pob cyfarfod llawn a chyfarfod pwyllgor yn llafar. Fodd bynnag, mae hyn yn ei blino a byddai sefyllfa fel hon, ynghyd â'r darllen gyda'r nos ac ar y penwythnos, yn 'anodd tu hwnt'. Gallai ei gweld ei hun yn ei wneud am dymor ond byddai mwy na hynny yn anodd oherwydd 'dy'ch chi byth ddim ar ddyletswydd'. Agwedd allweddol iddi oedd sicrhau bod cyfathrebu rhwng yr etholaeth, y cynulliad a swyddfa'r blaid a bod y TG yn ddibynadwy. Ni fyddai'n gallu defnyddio llais i destun ar gyfer ymweliadau etholaethol er enghraifft oherwydd na fyddai rhywun gyda hi. Nid oedd yn teimlo y gallai ddefnyddio BSL mewn cyfarfod llawn na phwyllgor am nad oedd ganddi'r eirfa dechnegol. Mae'n bosibl gwneud llais i destun o bell ond ni fyddai'n hawdd i rywun oedd yn gweithio o bell os oedd yn ystafell neu'n gyfarfod swnllyd (Cyf_05).

Ar y cyfan, ymddangosai fod cymorth swyddfa yn hynod bwysig i'r unigolion hynny a oedd yn teimlo bod angen rhyw fath o gymorth arnynt, ond i eraill roedd yn llai pwysig. Y canfyddiad oedd y byddai rhywrai yn gofalu amdanynt. Gallai fod yn rhwystr pe na bai digon o gymorth ar gael.

### *Gofal plant*

Roedd materion gofal plant yn bwysig iawn i lawer o ymatebwyr wrth ystyried dod yn AC. Er nad yw canlyniadau'r arolwg yn adlewyrchu hyn o reidrwydd, tanlinellodd y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws yn arbennig y byddai hyn yn rhwystr i sefyll, i'r rhai â chyfrifoldebau gofal plant, yn enwedig menywod ac unigolion â theuluoedd ifanc.



- *roedd 57.4% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg o'r farn nad oedd gofal plant yn rhwystr ac na fyddai'n effeithio ar eu penderfyniad i sefyll;*
- *dywedodd 22.6% o bobl ei fod yn rhwystr pwysig ac y byddai angen cymorth arnynt i'w oresgyn;*
- *credai 73% o ymatebwyr na fyddai cymhelliant cyfleusterau gofal plant ar safle'r Cynulliad yn eu gwneud yn fwy nac yn llai tebygol o ddod yn ymgeisydd;*
- *dywedodd 17.9% y byddent yn fwy tebygol o sefyll;*
- *dywedodd 6.7% y byddent yn llawer mwy tebygol o sefyll;*
- *roedd menywod yn ystyried bod cyfleusterau gofal plant yn fwy o gymhelliant na dynion: dywedodd 32% y byddai hyn yn eu gwneud yn fwy tebygol o sefyll o gymharu â 19% o ddynion.*

Ar Loomio dywedodd un cyfranogwr fod y system bresennol yn gwahaniaethu yn erbyn y rheini â chyfrifoldebau gofal plant:



*"Mae'r system bresennol yn gwahaniaethu yn erbyn y rheini â chyfrifoldebau gofal plant a chyfrifoldebau gofal eraill, a menywod ydyn nhw'n bennaf. Pe byddai ystadegau ar gael byddech yn gweld bod llawer o'r menywod sy'n wleidyddion yn rhai heb blant neu'n rhai heb gyfrifoldebau gofal plant na chyfrifoldebau gofal."*

Amlinellodd un cyfwelai, mam sengl oedd yn byw yn y gogledd, bwysigrwydd gofal plant iddi hi wrth ystyried sefyll, ond dywedodd, gan nad oedd yn byw yng Nghaerdydd, na fyddai cyfleusterau gofal plant y Cynulliad yn gwneud fawr o wahaniaeth iddi. Materion lleoliad a logisteg oedd yr elfennau mwyaf negyddol iddi hi. Ar hyn o bryd, mae'n rhaid iddi drefnu gofal plant ar yr adegau pan mae'n fwyaf tebygol y bydd ganddi gyfarfodydd yn y cyngor lleol. Roedd yn poeni, o gamu ymlaen ymhellach, na fyddai'r sefyllfa yn un gynaliadwy o ran ei phlant. Gwnaeth gyfaddef ei bod *'yn gallu gweld, os ydych chi'n byw rhywle sydd o fewn pellter cymudo i Gaerdydd, a bod gennych chi fabi, y gallai [cyfleusterau gofal plant y Cynulliad] fod yn atyniadol.'* Cododd bwynt pwysig ynghylch costau gofal plant yn ei rôl bresennol - rhaid eu hanfonebu'n ffurfiol ac mae cyfleusterau gofal plant swyddogol yn cau am 5:00pm. Felly, pe bai'n rhaid iddi fynd i rywbeth gyda'r nos, byddai'n rhaid iddi drefnu gwarchodwr plant a allai fod yn £20-30, ond ni fyddai'n gallu ei hawlio. Hefyd, eglurodd, petai'n mynd i'r Cynulliad ac yn gorfod dal trên am 6am, y byddai angen gofal plant arni yn y bore er mwyn mynd â'r plant i'r ysgol ond bod hyn y tu allan i oriau cyfleusterau gofal plant (Cyf_03).

Daeth materion ynghylch gofal plant i'r amlwg o'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd ledled Cymru, gyda'r effaith ar fywyd teuluol yn bryder wrth sefyll fel ymgeisydd ac wrth gyflawni rôl AC. Nid oedd rhai pobl yn gyfforddus yn defnyddio gofal plant (Merthyr). Nododd un o'r dynion oedd yn cymryd rhan yn un o'r grwpiau ffocws fod diffyg cyfleusterau creche yn cyfleu'r neges anghywir i ddarpar ymgeiswyr. Dywedodd:



*"Dim ond yr wythnos diwethaf clywais i fod y Cynulliad wedi cael gwared ar y creche...am nad oedd digon o bobl yn ei ddefnyddio, felly mae wedi mynd. Fy nadl i yw na ddylen nhw fod wedi cael gwared arno oherwydd mae'n mynd i wneud pethau hyd yn oed yn fwy anodd i bobl wrth benderfynu a ddylen nhw wneud hyn. Does dim hyd yn oed creche yno mwyach, felly mae'n amlwg nad dyma'r swydd i mi."* (Aberystwyth)

Teimlai menyw a gymerodd ran yn yr un grŵp ffocws nad lle'r llywodraeth oedd gwneud trefniadau arbennig i fenywod â phlant bach, oherwydd os oeddent am ei wneud byddent yn gwneud trefniadau ac yn bwrw ati i'w wneud. Cafodd hyn ei feirniadu gan aelodau eraill o'r grŵp, oherwydd byddai'n gwneud y rôl yn hollol wahanol i rywun oedd yn byw yn y gogledd ac nad oedd hynny'n iawn o ran hygyrchedd.

Yn gyffredinol, gwelsom fod materion gofal plant yn cael eu hystyried yn wahanol gan wahanol bobl, yn dibynnu ar ble maent yn byw yng Nghymru. Ond, i'r rheini sy'n dibynnu ar ofal plant, ystyriwyd bod diffyg cyfleusterau, boed hynny yn y Bae neu mewn rhannau eraill o Gymru, yn rhwystr i sefyll.

### *Llety a Theithio*

Gan fod teithio o'r gogledd a rhannau eraill o Gymru i Gaerdydd yn angenrheidiol i ACau, roedd teithio bob amser yn mynd i fod yn brif bryder i rai o ran gweithio yn y Cynulliad. Er nad yw canlyniadau'r arolwg yn nodi bod teithio a llety yn brif rwystrau i sefyll, gwelir safbwynt gwahanol yn y grwpiau ffocws, cyfweliadau a Loomio.



- *Teimlai 69% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg fod ymrwymiadau teithio ddim yn rhwystr pwysig neu ddim yn rhwystr o gwbl wrth ystyried sefyll fel Aelod Cynulliad.*
- *Gallai lledaeniad daearyddol ymatebwyr fod wedi effeithio ar hyn.*

Y canfyddiad cyffredinol yw, yn dibynnu ar leoliad pobl yng Nghymru, y gall teithio fod yn rhwystr ac yn agwedd anneniadol ar y swydd. I'r rheini sy'n nodi daearyddiaeth a'r angen i

deithio i Gaerdydd ar gyfer rôl AC, disgrifiwyd y syniad o deithio bob wythnos fel 'anodd', 'ofnadwy', 'erchyll', tra bod teithio i Gaerdydd o'r gogledd yn 'anhygyrch yn ffisegol'.

Mae'r problemau teithio yn debygol o effeithio ar bobl â chyfrifoldebau gofal plant i raddau anghymesur. Dywedodd mam sengl mai materion lleoliad a logisteg oedd yr elfennau mwyaf negyddol iddi hi wrth ystyried sefyll. Nododd y ffaith y byddai'n rhaid iddi fod yng Nghaerdydd am gyfnod penodol o amser ond nad oedd yn opsiwn peidio â chasglu ei phlant o'r clwb ar ôl ysgol (Cyf_03). Credai cyfranogwr benywaidd o grŵp ffocws Aberystwyth fod teithio yn *'rhwystr mawr i fenywod â phlant bach'* am ei fod yn golygu y byddai'n rhaid iddynt symud eu plant i ysgol yng Nghaerdydd am dri neu bedwar diwrnod. Ond, i un cyfwelai, yr union rwystrau ffisegol hyn rhwng Caerdydd a gweddill Cymru oedd yn ei chymell i sefyll, am ei bod am wella cyfleusterau teithio (Cyf_19).

Ynghlwm wrth deithio, mae mater llety i ACau nad ydynt yn byw yn agos at Fae Caerdydd. Nododd cyn-ymgeisydd a oedd yn fam ifanc nad oedd y duedd ddiweddar i ACau aros mewn gwestai yn hytrach na mewn lle sefydlog yng Nghaerdydd yn gweddu i deuluoedd ifanc:



*"Dwi'n meddwl os ydi rhywun o'r gogledd, os yda chi hefo teulu byddwch chi eisiau gallu dod â nhw lawr gyda chi a cael yr hyblygrwydd yna a does yna ddim lot o bobl sy'n gallu fforddio prynu tŷ eu hunain yng Nghaerdydd a chael tŷ o fewn eu hetholaeth, a dwi'n meddwl...fe ddylai aelodau cynulliad fod hefo'r hawl i fod hefo aelodau eu teuluoedd hefo nhw tra ma' nhw i lawr yng Nghaerdydd. Mae'r syniad yma o just bod mewn ystafell westy falle ddim y pethau gorau neu mwyaf gweddus os yda chi hefo teulu ifanc 'da chi isio dod hefo chi...Mae'n sialens wedyn os di rhywun methu fforddio dydi, os mai'r disgwyliad ydi bod mewn gwesty am ddwy noson neu dair noson yr wythnos a dyna ni, dydi hynna ddim yn mynd i fod yn gysurus iawn." (Cyf_09)*

Credai y byddai oriau gwaith hwy, fel bod modd gwneud pethau mewn dau ddiwrnod yn hytrach na thri, o fantais - ond nid efallai os ydych yn dod o'r de.

Ar y cyfan, ystyriwyd bod heriau teithio a llety dros nos fel AC yn hynod bwysig gan y menywod a gyfranogodd ac roedd yn rhwystr i fod yn AC. Codwyd pryderon ynghylch straen y swydd ar fywyd teuluol.

## *Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith*

Archwiliwyd y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith o safbwynt effaith oriau gwaith ac ymrwymiadau teithio ar ACau a'u teuluoedd, materion o ran diogelwch personol a theulu a phwysau emosiynol ar fywydau personol.



- *Mae 42.1% o'r farn bod treulio amser i ffwrdd oddi wrth deulu a ffrindiau yn rhwystr sylweddol neu bwysig;*
- *Mae 39.9% o'r farn bod diogelwch personol a theulu yn rhwystr pwysig neu sylweddol.*

O ganlyniadau'r arolwg, gellir gweld bod cwestiynau yn ymwneud ag ymrwymiadau teuluol, yn enwedig 'treulio amser oddi wrth deulu a ffrindiau' yn dechrau dod yn rhwystrau pwysig i ddod yn AC. Fodd bynnag, roedd y rhai a gredai fod materion teuluol yn rhwystr i ryw raddau yn dal i fod yn fwy mewn nifer na'r rhai nad oeddent yn credu bod hyn yn rhwystr.

Mewn un grŵp ffocws, roedd un cyfranogwr o'r farn bod oriau AC yn anghymdeithasol ac yn anaddas i fywyd teuluol:



*"Nid yn unig mae eich bywyd chi yn cael ei effeithio, ond os oes gennych bartner, mae ei bywyd nhw yn cael ei effeithio, mae bywyd eich plant, os oes gennych blant, yn cael ei effeithio. Mae holl strwythur eich bywyd teuluol yn cael ei effeithio."* (Aberystwyth)

Trafodaeth fawr *a gafwyd yn yr un grŵp ffocws oedd y ffaith nad oedd AC* 'byth oddi ar ddyletswydd' a bod hyn yn cael effaith ar fywyd teuluol. Cydnabuwyd bod hyn yn gymwys i wleidyddion ar bob lefel.

Yn gysylltiedig â chyflog AC, nododd darpar ymgeisydd a gyfwelwyd fod y cyflog yn llawer mwy nag yr oedd yn ei gael ar hyn o bryd ond roedd yn poeni am y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Iddi hi, byddai angen i'r cyflog ystyried yr oriau gwaith hwy a bod oddi wrth ei theulu (Cyf_14).

Roedd un cyfranogwr mewn grŵp ffocws yn poeni y gallai gael effaith ar ei iechyd gan na fyddai'r oriau hir na'r teithio yn addas i bawb. Ychwanegodd un arall y byddai'n effeithio ar ei briodas ac yn creu problemau gartref (Caernarfon).

Ymhlith ymatebwyr Loomio, roedd teimladau gweddol gryf ynghylch y cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith. Y disgwyliad yw, mewn rolau pwerus a chyfrifol, fod disgwyl i chi fod ar gael bob awr o'r dydd a'r nos a gweithio oriau hwy, ysgrifennodd un ymatebydd:



*"Mae rhywun mewn rôl gyfrifol neu lefel uwch ym myd busnes ar alw 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, felly mae llawer ohonom yn hen gyfarwydd â hynny'n barod...ac yn gweithio oriau hwy na'r rhan fwyaf o ACau beth bynnag. Mae angen i ACau fentro allan i'r byd go iawn a gadael swigen fach Caerdydd."*

Ar y cyfan, gwelsom nad yw'r cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith yn rhwystr mawr i bawb, er ei fod yn ystyriaeth bwysig i rai. O'i ystyried yng nghyd-destun ehangach y swydd, gwelir bod y pecyn cyflog yn gwneud iawn o bosibl am yr oriau anghymdeithasol a natur ddiddiwedd y gwaith fel y'i canfyddir.

### *Diogelwch swydd*

Roedd y penderfyniad i sefyll yn seiliedig ar ddiogelwch swydd yn amrywio o un unigolyn i'r llall, ond deallwyd, i lawer o bobl, y gallai hyn eu hatal rhag ystyried sefyll o ddifrif (e.e. y rhai â theuluoedd).



- *Teimlai 63% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg nad oedd ansicrwydd diogelwch swydd bod yn AC yn rhwystr pwysig neu nad oedd yn rhwystr o gwbl;*
- *Teimlai 26.8% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg ei fod yn rhwystr pwysig ac y byddai angen cymorth arnynt i'w oresgyn.*

Nid oedd rhai pobl ifanc a gyfwelwyd o'r farn bod ansicrwydd diogelwch swydd yn rhwystr. Dywedodd un person ifanc nad oedd y ffaith y gallai fod yn fyrdymor yn beth negyddol iddo ond y gallai ei helpu i feddwl am bethau i'w gwneud wedyn. Byddai pum mlynedd yn y Cynulliad yn gyfle i feithrin cysylltiadau ac os na fyddai'n cael ei ailethol gallai ystyried camu i feysydd eraill (Cyf_12). Teimlai un cyfwelai, person ifanc oedd â phrofiad o sefyll mewn sedd nad oedd fawr ddim gobaith o'i hennill, nad oedd ansicrwydd bod yn wleidydd yn ffactor. Ond deallai, petai'n dod yn rhiant yn y dyfodol neu â gyrfa sefydlog, y byddai'r ansicrwydd yn bendant yn ffactor wrth benderfynu p'un a ddylid sefyll ai peidio (Cyf_01).

Roedd cyfranogwyr eraill yn meddwl yn wahanol. Dywedodd un person ifanc a oedd yn ystyried sefyll yn y dyfodol fod yr ansicrwydd a'r risg sy'n gysylltiedig â bod yn AC yn ystyriaeth ddifrifol. Bu profiad pobl o fewn ei blaid o geisio dod o hyd i waith ar ôl colli eu seddi yn bwysig. Dywedodd ei fod yn gwybod am rai pobl a oedd wedi gorfod gadael Cymru er mwyn cael gwaith (Cyf_08). Gwnaeth un cyfwelai gyfaddef bod diogelwch swydd yn fater iddo ef ond ar y llaw arall, dylai pobl newydd gael y cyfle i sefyll. *'Ry'ch chi am weld rhyw fath o linell gynhyrchu, pobl newydd yn dod i mewn i wleidyddiaeth'* (Cyf_21).

Dywedodd un ymatebydd ar Loomio y byddai diogelwch swydd gwleidydd etholedig bob amser yn ansicr ac y gallai hyn atal pobl rhag ystyried sefyll:

> *"Dwi'n gwybod am rai cyn-ACau a gollodd eu swyddi yn 2016 [...] ac yna bu'n rhaid iddyn nhw ail-greu eu gyrfaoedd. A fydden nhw'n dychwelyd? Dwi ddim mor siŵr - er bod y rhan fwyaf, os nad i gyd, yn dal i fod yn gysylltiedig â'r byd gwleidyddol y tu ôl i'r llenni. Does dim diogelwch swydd, felly mae'n rhaid bod cryn hyblygrwydd o ran gyrfa, bywyd, teulu ac ati cyn ystyried gwneud hyn. Mae hynny'n eithrio llawer o bobl gymwys dda."*

Yn gyffredinol, gwnaethom nodi bod y syniad o ddiogelwch swydd yn amrywio ymhlith cyfranogwyr. Mae rhai yn ei weld fel risg y mae angen iddynt ei hystyried yn ofalus cyn sefyll, mae eraill yn ei dderbyn fel realiti anochel swydd wleidyddol, tra bod y syniad o linell gynhyrchu a phobl 'newydd' mewn gwleidyddiaeth yn beth dymunol. Ond roedd tystiolaeth i awgrymu ei fod yn rhwystr i sefyll i rai pobl.

### 3.2.3 Syniadau ar gyfer newid

Fel y gwelir uchod, un o'r newidiadau mwyaf sylweddol a welodd y rheini yn y grwpiau ffocws, y cyfweliadau ac ar Loomio oedd ***darparu gwybodaeth yn well a mwy o ymgysylltu*** â dinasyddion o ran rôl AC. Teimlwyd bod angen mwy o weladwyedd, eglurder a hygyrchedd er mwyn helpu'r cyhoedd i ddeall rôl AC yn well.

Dadleuodd cyfranogwyr yn Wrecsam fod ***angen iaith syml*** a bod angen sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno mewn ffordd fwy hygyrch fel bod etholwyr, ac yn bwysig, bobl ifanc yn gallu ymgysylltu â phroses y Cynulliad.

Awgrymodd cyfwelai y dylai ***staff y Cynulliad dywys ymgeiswyr drwy'r hyn mae bod yn AC yn ei olygu. Byddai hyn yn dileu'r elfen gwleidyddiaeth plaid ac yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen i ymgeiswyr er mwyn iddynt wybod beth maent yn mynd i fod yn ei wneud a beth yw'r heriau*** (Cyf_08).

Dywedodd cyfwelai arall ei bod yn bwysig i ***Aelodau Cynulliad fynd allan ac ymgysylltu â phobl ynghylch rôl AC a'r gwaith mae'r Cynulliad yn ei wneud*** (Cyf_14). Roedd un cyfwelai o'r farn bod gan ***ACau rôl i'w chwarae yn ysbrydoli eu holynwyr i ddod o'u cymunedau drwy roi un neu ddau ddiwrnod y mis o brofiad iddynt o'u cysgodi*** (Cyf_20).

Dywedodd un cyfwelai y byddai'n hoffi gweld y ***cyfryngau cymdeithasol yn cael eu defnyddio i egluro gwaith ACau, a Gweinidogion ac Ysgrifenyddion Cabinet, mewn fideos fel 'Diwrnod ym mywyd...' sy'n dangos yr agweddau gwahanol ar fod yn AC.*** Dylai hyn gael ei wneud gan rywun diduedd a'i fod yn dangos croestoriad o wahanol Aelodau Cynulliad o wahanol rannau o'r wlad yn hytrach na chael ei wneud gan ACau eu hunain. Roedd hefyd o'r farn y byddai hyn yn ffordd o ddangos y gwahanol fathau o gymunedau sy'n bodoli ledled Cymru hefyd.



*"Gallwn weld rhywun yn llawn dyhead, nad yw erioed wedi ymwneud â'r byd hwn o'r blaen nac wedi cael y cyfle i weithio yn y Cynulliad, ar goll ac yn meddwl, 'o diar mi, beth yw hyn i gyd'. Yn fy marn i gallwch wneud hynny'n haws...gallwch symleiddio'r holl beth fel yn 'Diwrnod ym mywyd Aelod Cynulliad, 'diwrnod ym mywyd aelod cabinet'...ychydig bach o ddealltwriaeth, dyna i gyd." (Cyf_20)*

Cytunwyd hefyd y ***dylai fod mwy o wybodaeth ar gael am yr holl gymorth y mae Aelodau Cynulliad yn ei gael:***



*"byddai'n dda i'r lwfansau eraill, ee teithio, llety, swyddfa, staff ac ati a threfniadau pensiwn, fod yn fwy hysbys fel bod y rhai sy'n ystyried sefyll yn ymwybodol o'r pecyn ariannol cyfan a'r math o gymorth y byddan nhw'n gallu ei gael drwyddo er mwyn cyflawni'r rôl"*

Cafodd y pwynt hwn ei atgyfnerthu ymhellach mewn cyfweliad ag un cyfwelai a awgrymodd y ***byddai'n ddefnyddiol cael dadansoddiad llawn o gyflog AC, beth mae'n ei ennill a'i lwfans.*** (Cyf_20).

## Treuliau

Dywedodd un cyfwelai fod ***angen ffordd o allu hawlio treuliau a chymorth lle na ellir ei ddefnyddio fel arf wleidyddol.*** Dywedodd, ar lefel awdurdod lleol, y gallwch gael cymorth ar gyfer gofal plant neu deulu ac nad oes angen i neb wybod pwy a wnaeth ei hawlio (Cyf_09). Ategodd cynghorydd lleol hyn, gan ddweud ei bod yn hoffi'r ffaith nad yw costau gofal plant yn dangos ar dreuliau personol yn ei hawdurdod lleol am fod pobl yn cael eu beirniadu am dreuliau uchel, hyd yn oed pan fo angen y taliadau hynny (Cyf_03).

## Cymorth swyddfa

Nododd cyfranogwr â nam ar y clyw fod ***llawer o dechnoleg ddiweddar sy'n gallu ffrydio sain i brosesydd, a bod modd ei defnyddio mewn cyfarfodydd bach neu ar skype, a allai fod yn ddefnyddiol.*** Ychwanegodd fod llawer o dechnoleg eisoes a all gael ei defnyddio a'i bod yn ymwneud â 'defnyddio beth sydd ar gael yn barod'. Felly, byddai apiau fel Whatsapp neu Yammer, os oedd modd eu gwneud yn ddiogel, yn ddefnyddiol. Mae technoleg yn cynnig llawer o ddatrysiadau nad oeddent o reidrwydd i'w cael bum mlynedd yn ôl (Cyf_05).

Trafododd cyfwelai yr oedd angen cymorth arno ar gyfer nam ar y golwg sut roedd cynllun mynediad i waith mewn swydd flaenorol wedi talu am yrrwr iddi. Teimlai y byddai cymorth tebyg i ddarparu meddalwedd arbenigol a help yn yr ychydig wythnosau cyntaf hynny er mwyn dod o hyd i ystafelloedd pwysig yn y Senedd o fudd iddi, ac yn gymhelliant iddi sefyll (Cyf_14).

## Gweithio o Bell

Yn gyffredinol, credwyd y gallai trefniadau gweithio hyblyg liniaru rhai o effeithiau negyddol teithio pellter hir, costau llety ac ati. Roedd ***gweithio o bell*** yn opsiwn a gafodd gryn gefnogaeth mewn arolygon ac mewn grwpiau ffocws.



- *Dywedodd 42.8% o ymatebwyr y byddai gweithio o gartref yn eu gwneud yn fwy tebygol o ddod yn ymgeisydd;*
- *Dywedodd 22.2% y byddai'n eu gwneud yn llawer mwy tebygol o ddod yn ymgeisydd;*
- *Dywedodd 77% o fenywod y byddai gweithio o gartref yn eu gwneud yn fwy tebygol o sefyll o gymharu â 56% o ddynion.*

Dadleuodd un ymatebydd ar Loomio hefyd y gallai gweithio o bell fynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion oedd yn uniongyrchol gysylltiedig neu'n anuniongyrchol gysylltiedig ag amrywiaeth, yn ogystal â materion yn ymwneud â'r gweithle modern:



*"mae angen i'r Cynulliad gael ei weld yn cynrychioli Cymru gyfan, felly gallai fynd i'r afael â rhai o'r materion hyn yn hawdd naill ai drwy symud dadleuon y Senedd o amgylch Cymru yn rheolaidd...neu drwy alluogi ACau i gymryd rhan o bell, drwy fideogynadledda a phleidleisio ar-lein. Byddai hynny yn bendant yn osgoi'r amser a wastreffir wrth deithio o un pen o Gymru i'r llall."*

Dywedodd cyfranogwr yn un o'r grwpiau ffocws sydd â chyfrifoldebau gofalu ei bod yn anodd iddo deithio y tu hwnt i'r ardal leol, ond yr hoffai sefyll ar gyfer y Cynulliad. Gofynnodd pam na allai technoleg gael ei defnyddio'n well i weithio o bell: ***'Beth sy'n atal aelodau rhag defnyddio skype gartref i gysylltu â'r Cynulliad?'*** (Aberystwyth)

Fodd bynnag, tynnodd ymatebydd ar Loomio sylw at y cysylltedd gwael â'r we mewn rhai rhannau o Gymru, a fyddai'n gwneud gweithio o bell yn broblem:




*"Y brif broblem fyddai cysylltedd - ac efallai petai'n rhaid i ACau ddefnyddio band eang i weithio o bob rhan o Gymru, bydden nhw'n rhoi blaenoriaeth go iawn i gael gwasanaeth ar-lein o safon dda ymhob man, a fyddai o fantais i bob unigolyn, busnes, a'u hetholwyr nhw eu hunain sydd wedi bod yn galw'r daer am hynny ers blynyddoedd heb unrhyw lwyddiant!".*

Cododd rhai ymatebwyr y syniad o greu canolfannau rhanbarthol hefyd. Yng ngrwpiau ffocws y gogledd, roedd teimlad cyffredinol o ddatgysylltiad â Bae Caerdydd a'r Cynulliad. ***Awgrymwyd cyfarfodydd skype a hefyd gynnal cyfarfodydd y Cynulliad yn y gogledd fel datrysiadau posibl i gysylltu'r gogledd â busnes y Cynulliad ac i ACau allu aros yn eu cymunedau.*** Byddai cael cyfarfodydd y Cynulliad yn y gogledd yn golygu bod rôl AC yn 'llawer mwy hygyrch' yn ôl un cyfranogwr yng ngrŵp ffocws Caernarfon. Rhannwyd y farn hon gan gyfranogwyr yn Wrecsam.

Dywedodd un cyfwelai y byddai rôl AC yn fwy deniadol iddi petai'n gallu gweithio o swyddfa ranbarthol o bryd i'w gilydd (Cyf_15). Credai cyn-ymgeisydd benywaidd â theulu ifanc fod canolfannau rhanbarthol a gweithio o bell yn rhywbeth i'w ystyried (Cyf_09). Byddai hyn yn fwy buddiol i'r rhai â theuluoedd ifanc a fyddai wedyn yn gallu treulio llai o amser i ffwrdd oddi wrth eu plant.

### Rhannu Swydd a threfniadau gweithio eraill

Roedd y syniad o rannu swydd yn ddeniadol i lawer o gyfranogwyr, ond codwyd cwestiynau am natur ymarferol gwneud hynny.



- *Dywedodd 40.6% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg y byddai rhyw fath o rannu swydd yn eu gwneud yn fwy tebygol o ddod yn ymgeisydd;*
- *Dywedodd 15.6% y byddai'n eu gwneud yn llawer mwy tebygol;*
- *Dywedodd 68% o fenywod y byddai'n eu gwneud yn fwy tebygol o sefyll o gymharu â 56% o ddynion;*
- *Dywedodd 68% o'r rhai ag anabledd hefyd y byddai'n eu gwneud yn fwy tebygol o sefyll.*

Ysgrifennodd un ymatebydd ar Loomio:



> *"**Hoffwn weld trefniadau rhannu swydd yn cael eu cyflwyno lle mae dau ymgeisydd yn sefyll ar gyfer swydd AC** - mae hyn wedi cael ei wneud yn Senedd Ewrop, felly dwi ddim yn gallu gweld pam na allwn wneud yr un peth yma yng Nghymru. Byddai hyn yn galluogi mwy o ACau â chyfrifoldebau gofal plant neu ofal i sefyll, a byddai'n galluogi menywod yn ogystal â dynion i rannu cyfrifoldebau gofal plant / gofal yn fwy cyfartal â'u partneriaid. Byddai hefyd yn helpu i gyflawni cydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith, gan ddenu mwy o bobl efallai o grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol ac felly, byddai'n well i'n system ddemocrataidd. Yn bersonol, dwi wedi gweld bod menywod â chyfrifoldebau gofal plant o dan anfantais enfawr mewn cymdeithas ac efallai mai un rheswm dros hyn yw nad oes digon o'r mathau hyn o fenywod mewn swyddi pwerus, a gwneud yn siŵr bod y rhan hon o gymdeithas yn cael ei hystyried ac na wahaniaethir yn ei herbyn."*

Roedd gallu cyfuno gyrfa bresennol â rôl AC yn gymhelliant i sawl cyfranogwr yn ein hymchwil, gan gynnwys meddyg, cyfreithiwr a pherchennog busnes. Nododd y meddyg, petai'n gallu cydbwyso meddygaeth â bod yn Aelod Cynulliad, y byddai'n 'achub ar y cyfle heb os.'



*"Gallen i weithio llai mewn meddygaeth ond byddwn i ffili roi e lan…achos os byddwn i yn y Senedd a wedi cael fy ethol mewn am 5 mlynedd, wel, erbyn i mi ddod nol mas o na byddwn i ffili gweithio mewn meddygaeth achos byddwn i wedi bod mas o feddygaeth am rhy hir…byddai dim gobaith, sai'n credu byddai neb yn cyflogi chi beth bynnag, pwy fyddai moyn meddyg sydd heb weithio am bum mlynedd?"(Cyf_25)*

Teimlai un cyfwelai, â pheth gwybodaeth am gynllun rhannu swydd yn ei gweithle presennol, y byddai hyn yn wych i ddynion a menywod (Cyf_09). Roedd cynghorydd lleol presennol wedi cael profiad o rannu swydd ac roedd yn argyhoeddedig y byddai rhannu swydd yn ei helpu hi a menywod â theuluoedd (Cyf_03). Fodd bynnag, cwestiynodd cyfweleion eraill ymarferoldeb rhannu swydd ACau. Dywedodd un cyfwelai y gallai weld sut y byddai rhannu swydd yn ei gwneud hi'n haws i bobl sefyll, ond nid o reidrwydd sut y gall wneud hynny'n fwy effeithiol (Cyf_19).

Yn gyffredinol, mae rhannu swydd wedi'i awgrymu fel ffordd syml a hawdd (ymatebydd ar Loomio) o fynd i'r afael â diffyg amrywiaeth. Yn benodol, ystyrir ei fod yn gwneud y rôl yn fwy deniadol i bobl ag ymrwymiadau teuluol, cyfrifoldebau gofalu (y rhan fwyaf ohonynt yn fenywod) a'r rhai nad ydynt am roi'r gorau i'w gyrfaoedd proffesiynol presennol. Fodd bynnag, er ei fod yn ddeniadol i rai, mae angen ystyried hyn yn ofalus er mwyn iddo weithio'n ymarferol ac osgoi'r problemau posibl.

## Gofal plant

Roedd nifer o gyfweleion a chyfranogwyr â theuluoedd o'r farn y byddai darpariaethau gofal plant yn gymhelliant mawr i ddod yn AC. Nodwyd eisoes ***y credir y dylai costau gofal plant ddod o dan dreuliau***. Byddai hyn yn cymell pobl i ddod yn AC. Mae teulu yn bwysig ac mae angen ei ystyried wrth lunio cymhellion. ***Cafwyd cefnogaeth i gyfleusterau creche gan un fam ifanc a chyn-ymgeisydd*** (Cyf_09).

Tra bod cyfleusterau gofal plant yn y Bae yn cael eu hystyried yn ddeniadol i rai, ***gall cysoni darpariaethau gofal plant yn well ag amserlenni gwaith ACau, neu ddarpariaethau mwy hyblyg mewn rhannau eraill o Gymru, fod yn gymhelliant yr un mor dda***. Awgrymodd un arall ***y byddai strwythur i gael gofal plant gyda'r nos neu hawlio'n hawdd ar gyfer gofal plant gyda'r nos a ben bore yn ddefnyddiol*** (Cyf_03).

### 3.2.4 Trafodaeth

Datgelodd y drafodaeth ynghylch pa agweddau ar y rôl sy'n ddeniadol neu'n atal pobl rai ffactorau diddorol, a oedd yn sefydliadol yn bennaf, a allai ddenu ystod fwy amrywiol o unigolion i swydd fel Aelod Cynulliad.

Cawsom dystiolaeth fod cyfranogwyr yn ein hymchwil wir yn meddwl am y Cynulliad a rôl Aelod Cynulliad yn nhermau gweithle yn yr 21ain ganrif, lle y credir mai'r ffordd orau o fynd i'r afael â rhwystrau daearyddol yw drwy weithio o bell a gweithio hyblyg, a defnyddio technoleg. Nodwedd arall ar weithle yn yr 21ain ganrif yw llai o ffocws ar gyflog a mwy o ffocws ar gymorth, cyfleusterau, trefniadau gweithio.

Tra bod ansicrwydd diogelwch swydd yn cael ei dderbyn fel rhan o rôl Aelod Cynulliad, ac felly bod elfen o'r 'anhysbys' yn cael ei derbyn, roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw wir am gael gwybodaeth fanylach am y swydd, gan gynnwys y mathau o rolau y disgwylir iddynt eu cyflawni, darpariaethau'r sefydliad o ran eu cefnogi yn y swydd, yn ogystal â'r math o dreuliau a hawliadau y gallant eu gwneud - disgwyliad tebyg iawn i unrhyw fath arall o waith. Mae'r rhan fwyaf o'r ffactorau a nodwyd yn yr adran hon yn perthyn i gylch gwaith uniongyrchol y Bwrdd Taliadau, ond mae hefyd feysydd lle gall y Bwrdd ddylanwadu ar ffactorau eraill er mwyn gwneud y swydd yn fwy deniadol.

## 3.3. Y darlun mwy


### *3.3.1 Canfyddiadau cysylltiedig*

Yn yr adrannau blaenorol, rydym wedi cyflwyno deunydd cyfoethog sy'n dangos canfyddiad, agweddau a phrofiadau unigolion sydd naill ai wedi sefyll etholiad y Cynulliad neu'n bwriadu sefyll neu â diddordeb mewn gwneud hynny. Yn naturiol, nid yw popeth y daethom ar ei draws yn perthyn i gylch gwaith y Bwrdd Taliadau. Rydym wedi nodi llawer o safbwyntiau, pryderon a syniadau diddorol ar gyfer newid. Yn yr adran hon, trown ein sylw o'r agweddau penodol craidd ar y daith o ddymuno sefyll i fod yn AC etholedig, i gynnig peth dehongliad o'r cyd-destunau gwleidyddol, diwylliannol ac amgylcheddol mwy cyffredinol sy'n effeithio ar benderfyniad unigolyn i sefyll ai peidio.

### *3.3.2 Yr hyn a Nodwyd Gennym*

#### *Y Cynulliad Cenedlaethol ac Amrywiaeth*

Roedd agweddau a chanfyddiadau ynghylch amrywiaeth a'r Cynulliad Cenedlaethol yn amrywiol. Y teimlad cyffredinol oedd, er ei fod yn well na San Steffan, fod gan y Cynulliad gryn dipyn i'w wneud o hyd er mwyn bod yn fwy amrywiol a chynrychioli pawb yng Nghymru yn well. Roedd amrywiaeth hefyd yn gysylltiedig â'r syniad o wneud y Cynulliad yn 'llai diflas' a denu sylw pobl yn fwy. Tanlinellodd yr arolwg y grwpiau â'r gynrychiolaeth leiaf yn y Cynulliad, ym marn yr ymatebwyr:



- *nid oedd 70% yn credu bod pobl ifanc yn cael eu cynrychioli'n ddigonol;*
- *nid oedd 64% yn credu bod pobl ag anableddau yn cael eu cynrychioli'n ddigonol;*
- *nid oedd 59% yn credu bod pobl o gefndiroedd du neu leiafrifoedd ethnig yn cael eu cynrychioli'n ddigonol;*
- *nid oedd 51% yn credu bod pobl dosbarth gweithiol yn cael eu cynrychioli'n ddigonol.*

Credai cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws fod y Cynulliad yn cael ei ystyried yn gymharol gytbwys o ran rhywedd, ond nid oedd y farn a fynegwyd mor gadarnhaol o ran grwpiau eraill nas cynrychiolir yn ddigonol. Mewn cyfweliad, teimlai menyw ifanc, er ei bod wedi'i chynrychioli'n dda fel menyw, nad oedd fel menyw ddu. Yn ei barn hi, gallai gymryd amser i annog pobl o wahanol gefndiroedd i sefyll ac roedd yn nodedig mai rhan o'i chymhelliant i sefyll oedd er mwyn i bobl allu gweld bodd modd ei wneud (Cyf_14). Teimlai cyfwelai BME arall fod problem ehangach y tu hwnt i Aelodau Cynulliad, a gwelodd rai gwahaniaethau mawr yn natur y Cynulliad fel sefydliad:



*"Dwi byth wedi gweld, â phob parch, ...mwy gwyn...dosbarth canol...ac roeddwn i'n meddwl, y lleiafrifoedd ethnig...dim ond sylwi mai'r unig leiafrifoedd ethnig a gynrychiolir yn y Llywodraeth, neu yn y Cynulliad neu'r Senedd, oedd y glanhawyr neu'r swyddogion diogelwch. Dyma fi'n meddwl, arhoswch funud, os ry'n ni am wneud newid a gweld mwy o amrywiaeth mewn gwleidyddiaeth a ni sy'n llunio polisïau, ac eto, ry'n ni'n eistedd...ym Mae Caerdydd, un o'r cymunedau mwyaf aml-ddiwylliannol ac amrywiol, ac eto i gyd does dim un ymchwilydd o leiafrifoedd ethnig, wel efallai fod un neu ddau dwi heb eu nodi." (Cyf_20)*

Credai llawer mewn grwpiau ffocws nad oedd y Cynulliad yn cynrychioli pobl ag anableddau yn dda iawn, a chwestiynwyd hyn mewn grwpiau ffocws yng Nghaernarfon ac Aberystwyth. Dywedodd cyfwelai nad oedd pobl ag awtistiaeth yn cael eu cynrychioli o gwbl o fewn y llywodraeth.



*"Mae'n ymddangos mai'r unig ffordd o fod mewn gwleidyddiaeth yw drwy feddwl mewn ffordd niwronodweddiadol. Os ydych yn gweld y byd yn wahanol i'r rheini o'ch cwmpas, ac nad ydych yn ymddwyn mewn ffordd a ddisgwylir gan gymdeithas, yna does dim croeso i chi." (Cyf_04)*

Hefyd, trafododd grwpiau ffocws mater y dosbarth gweithiol fel rhwystr canfyddedig a rhywbeth yr ystyrir ei fod ar goll. Teimlai un grŵp *'rydym ni angen rhywun agos atoch chi...person dosbarth gweithiol normal'* (Caernarfon). Yn benodol, roedd y canfyddiad bod gwleidyddiaeth yn glwb dethol i bobl fwy addysgedig a chefnog yn amlwg, i'r graddau fod yna grêd fod yn rhaid cael gwared ar acenion a chaboli cyn ymuno â'r byd gwleidyddol. Ymhellach, lle caiff llwyddiant ymgeisydd dosbarth gweithiol ei gyflwyno mewn ffordd nawddoglyd, mae'n arwain at yr hyn a alwyd gan un cyfranogwr yn "nenfwd dosbarth".

*"Pan ry'ch chi'n edrych ar ba wleidyddion aeth i ysgol wladol, pa rai gafodd eu magu ar fudd-daliadau, pwy sydd â chriw o ffrindiau y tu allan i wleidyddiaeth, pwy sy'n dod o gefndiroedd gwahanol. Dyna'r math o amrywiaeth na chaiff ei hystyried fawr ddim a dyna'r peth mwyaf anodd i'w oresgyn mewn ffordd, gan nad yw hyd yn oed yn cael ei ystyried yn rhywbeth i fynd i'r afael ag ef...chi'n gweld, fel problemau iechyd meddwl, cefndir troseddol, y math hwn o sefyllfa amrywiol lle nad oes neb yn cyfrif y bobl hyn. Does neb yn dod, 'iawn, dwi o gefndir tlawd iawn a does neb ohonoch chi yn gwybod sut beth yw hynny', y math hynny o beth...Neu os ydyn nhw, maen nhw'n cael eu cyflwyno mewn ffordd debyg i 'o, fe wnaethoch chi'n dda...', sy'n nawddoglyd ac mae bron fel petaech chi'n cael eich diystyru am fod yn lwcus neu'n eithriad, sy'n niweidiol i bobl eraill sy'n dod drwodd yn fy marn i. Dosbarth, nenfwd dosbarth fyddwn i'n dweud."* (Caerdydd)

### *Diffyg Dealltwriaeth o Amrywiaeth*

Cyfeiriodd sawl person at werth ehangach amrywiaeth a sut mae angen i hyn gael ei ddeall gan sefydliadau, pleidiau gwleidyddol, a'r etholaeth. Roedd cyfranogwyr yn credu'n gryf bod amrywiaeth yn esgor ar well penderfyniadau a allai herio a chwestiynu'r sefyllfa sydd ohoni (Aberystwyth). Ym Merthyr Tudful, credwyd bod y system bresennol yn gwaethygu problemau presennol o ran diffyg amrywiaeth.

*"Mae 'na rai unigolion neu rai mathau o bersonoliaethau neu fathau o rywedd neu beth bynnag sy'n dueddol o ddominyddu'r llwyfan gwleidyddol, felly mae'n gwaethygu'r mathau hynny o safonau mewn ffordd am nad oes neb yn dod i mewn i gwestiynu'r sefyllfa, felly efallai ei bod hi hyd yn oed yn bwysicach bod gennyn ni gynrychiolaeth amrywiol yn y mathau hyn o sefydliadau."* (Merthyr Tudful)

Awgrymodd un cyfwelai y byddai mwy o fuddiannau o ran sut mae grwpiau yn cael eu canfod mewn cymdeithas. Dadleuwyd, unwaith y bydd pobl o grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol yn rhan o'r sefydliad, bydd yn rhaid i bobl newid eu rhethreg i fod yn gynhwysol, lle gallai fod wedi bod yn niweidiol neu'n ddiystyriol yn y gorffennol (Cyf_04). Teimlai cyfwelai arall fod angen mwy na hyn, a bod yn rhaid i bobl ddeall *pam* mae angen i'r rhethreg newid a deall gwerth a sgiliau gwahanol bobl (Cyf_05). Ni chredai un cyfwelai fod modd creu polisïau effeithiol os oedd y gynrychiolaeth yn ddiffygiol (Cyf_16). Pwysleisiodd un cyfranogwr mewn grŵp ffocws fod newidiadau fel addysg rhyw a pherthnasoedd gynhwysol a chlinigau hunaniaeth o ran rhywedd yn dod i'r amlwg am fod mwy o gynrychiolaeth LGBT. Iddi hi, 'amrywiaeth yw'r ateb' (Caerdydd 2).



*"Mae cael pobl o wahanol gefndiroedd mewn bywyd yn newid y ffordd y caiff polisi ei lunio ac mae'n newid y prif bolisi sy'n dod allan o'r broses honno, sydd o fudd i fwy o bobl na'r math o wleidydd cul arferol hwnnw."(Cyf_05)*

Er mwyn cyflawni amrywiaeth, trafododd y cyfranogwyr fod angen newid agweddau pleidiau, yr etholaeth, a bod gan y Cynulliad ran allweddol i'w chwarae hefyd. Er enghraifft, teimlai cyfwelai â gwahaniaethau niwroamrywiol fod angen i'r pleidiau gynnwys rhywun â phrofiad o'r fath anawsterau er mwyn eu haddysgu am agweddau cadarnhaol ar feddylwyr niwroamrywiol, a sut y gellir eu cefnogi mewn gwleidyddiaeth.



*"Sdim unrhyw blaid yn mynd i geisio cael gafael ar rywun fel fi ac anwybodaeth yw'r prif reswm dros hynny...Yn y pen draw, y ffaith syml yw nad yw pobl â gwahaniaethau niwroamrywiol yn gwneud i'r pleidiau edrych yn dda. Felly ni fyddai'r un o'r pleidiau yn cymryd y risg. A beth sydd angen iddyn nhw ei wneud mewn gwirionedd yw nid annog pobl fel fi ar hyn o bryd, ond dod â phobl fel fi i mewn i'w haddysgu nhw." (Cyf_04)*

Credai cyfwelai arall mai'r rhwystr mwyaf i weld lleiafrifoedd ethnig yn sefyll oedd y ffordd y byddent yn cael eu trin gan yr etholaeth. Teimlai fod hyn hefyd yn wir am ymgeiswyr LGBT, a phetai ymgeisydd yn dweud yn gyhoeddus ei fod yn berson LGBT yna byddai ymateb y cyhoedd iddo yn newid (Cyf_21). Roedd cyn-ymgeisydd awdurdod lleol o'r farn bod yr etholaeth yn fwy agored i amrywiaeth na'r gred arferol:



*"O ran y cyhoedd, pan fydd yn gweld ymgeisydd sy'n wahanol, yn fy achos i, oedran oedd e', o gefndiroedd gwahanol, dwi'n credu eu bod am weld ymgeiswyr mwy amrywiol, a dwi'n credu pan fydd ymgeiswyr fel hynny yn sefyll, y byddent yn gweld hynny fel rhywbeth cadarnhaol." (Cyf_12)*

Credai un cyfwelai fod gan y Cynulliad rôl uniongyrchol yn hyrwyddo amrywiaeth:




*Rwy'n credu bod rôl ar y Cynulliad fel sefydliad i hyrwyddo ei hun i geisio cael mwy o bobl o ystod mwy eang i sefyll. Adnoddau ac yna sicrhau bod yr adnoddau yna yn cael eu hyrwyddo... Os byddai'r Cynulliad yn dod allan a dweud 'ni angen mwy o fenywod, pobl anabl, LGBT, pobl ifanc', os bydden nhw'n rhoi pwyslais i agor eu hunain fyny a dweud 'ry'n ni eisiau'r math yma o bobl i sefyll fel ymgeiswyr' bydde hwnna, fi'n credu, yn rhoi yr hyder i bobl fel fi a mwy o bobl sefyll." (Cyf_12)*

Roedd cydnabyddiaeth ymhlith cyfranogwyr o ddiffyg amrywiaeth, er iddynt ddweud yn aml bod y Cynulliad yn well na San Steffan (Caernarfon)(Aberystwyth).

Ar y cyfan, cyfeiriwyd at ddiffyg dealltwriaeth ynghylch gwerth amrywiaeth i'r sefydliad ac wrth wneud penderfyniadau fel mater pwysig sy'n werth ei egluro. Gan fod hyn wedi'i nodi fel problem gymdeithasol ehangach, awgrymodd cyfranogwyr fod angen newid agweddau pleidiau gwleidyddol, yr etholaeth, a'r Cynulliad.

### *Y Gymraeg a Hunaniaeth Gymreig*

Ffactor pwysig yn yr arolwg a nodwyd fel 'rhwystr' bersonol oedd y 'gallu i siarad Cymraeg'. Dyma oedd y rhwystr canfyddedig unigol mwyaf i sefyll etholiadau'r Cynulliad o gryn dipyn:



- *nododd 51.3% o'r holl ymatebwyr fod 'Eich gallu i siarad Cymraeg' yn rhwystr:*
- *o gymharu â 33.5% a nododd eu hoedran fel rhwystr (yr ail rwystr canfyddedig mwyaf).*

Ymchwiliwyd i hyn ymhellach drwy grwpiau ffocws a chyfweliadau a daeth dau linyn gwahanol i'r amlwg. Yn gyntaf, roedd iaith yn cael ei weld fel rhwystr mewn ardaloedd penodol. Yn ail, hunaniaeth a theimlo'n 'Gymreig'. Roedd profiadau a chanfyddiadau personol hefyd ynghlwm wrth y ffactorau hyn.

Yn y drafodaeth yng ngrŵp ffocws Wrecsam nodwyd bod y Gymraeg yn rhwystr posibl, ond nad oedd yn rhwystr penodol i Wrecsam ei hun. Crybwyllwyd Gwynedd a'r gorllewin fel ardaloedd lle gallai hyn fod yn broblem. Gwnaeth y cyfweleion hefyd gysylltu iaith fel rhwystr ag ardaloedd penodol a nodwyd bod y rheolau'n wahanol yn dibynnu ar ble rydych yng Nghymru (Cyf_21).

Mewn trafodaethau, gwelwyd y Gymraeg fel rhwystr uniongyrchol o enghreifftiau o etholiadau awdurdodau lleol. Nododd cyfranogwr mewn un grŵp ffocws y byddai'n disgwyl i'r iaith fod yn rhwystr iddi hi sefyll mewn etholiad lleol yn ei hardal am fod deiliad y swydd yn siaradwr Cymraeg iaith gyntaf. Hefyd, ar lefel awdurdod lleol, roedd un o gyfranogwyr y grwpiau ffocws wedi cael ei feirniadu am nad oedd ei daflen yn ddwyieithog mewn sedd yn y canolbarth. Fodd bynnag, roedd canfyddiad bod etholiadau'r Cynulliad yn wahanol ac ni chredwyd y byddai'n fawr o broblem yno. Aethpwyd ymlaen i ddweud bod hyn hefyd yn seiliedig ar gefndir personol a hunanganfyddiad:



*"Ni fyddai'n rhwystr i mi sefyll. Yn dibynnu ar ble ydych chi'n ddaearyddol, gallai fod yn rhwystr i gael eich ethol. Ond mae bob amser yn rhywbeth dwi'n ymwybodol ohono. Dwi bob amser yn teimlo fy mod i wedi methu am nad ydw i'n siarad Cymraeg."* (Wrecsam)

Ail linyn y drafodaeth hon oedd nad oedd ond yn ymwneud ag iaith, ond hefyd â hunaniaeth a theimlo'n 'Gymreig'. Teimlai cyfwelai na allai sefyll ar gyfer y Cynulliad am nad oedd yn gwybod digon am ddiwylliant Cymreig, nac yn siarad yr iaith, a oedd, yn ei barn hi, yn bwysig iawn i allu cynrychioli Cymru (Cyf_10).

Yn arbennig, roedd canfyddiad ymhlith rhai cyfweleion fod Seisnigrwydd, a swnio'n Seisnig, yn rhwystr. Roedd cyn-ymgeisydd o Loegr yn poeni'n wreiddiol am sut byddai ei Seisnigrwydd yn cael ei ystyried gan bobl, er ei fod yn teimlo ei fod wedi bod yng Nghymru yn ddigon hir i deimlo'n Gymreig. Roedd ei 'Seisnigrwydd' yn bryder mawr iddo (Cyf_21). Mynegodd cyfwelai arall bryderon tebyg am swnio'n Seisnig.



*"Does dim ffordd i mewn yn enwedig i'r Cynulliad oherwydd y peth cyntaf sy'n cael ei ddweud wrtha i yw dwyt ti ddim yn siarad Cymraeg, ac er nad yw hynny'n rhwystr, dwi'n swnio'n Seisnig iawn...Y gwir yw...dwi'n siarad sawl iaith ac mae'r plant i gyd yn mynd i ysgol Gymraeg." (Cyf_04)*

Cyfeiriwyd at hunaniaeth hefyd mewn ystyr ehangach na Seisnigrwydd gydag un fenyw ifanc BME yn dweud y dylai ymgeisydd BME fenywaidd yn y dyfodol 'deimlo fel Cymraes' ac nid dim ond bod yno i lenwi cwota.



*"Byddai'n braf cael menyw o leiafrif ethnig, ond dwi ddim am i hynny fod oherwydd cwota. Dwi am i hynny ddigwydd am ei bod yn teimlo ei bod hi'n cynrychioli Cymru, ei bod hi'n teimlo ei bod hi'n Gymraes a'i bod yn adlewyrchu hynny ond drwy fath arall o Gymreictod." (Cyf_10)*

Gwnaeth trafodaeth mewn grŵp ffocws hefyd gyffwrdd â hyn. Y teimlad cyffredinol oedd y gallai gwell dealltwriaeth o wahanol fathau o hunaniaeth Gymreig arwain at fwy o amrywiaeth yn y Cynulliad Cenedlaethol ei hun *"Gwahanol agweddau ar fod yn Gymry...efallai y bydd hynny'n creu mwy o amrywiaeth."* (Wrecsam)

Er i iaith gael ei thanlinellu yn yr arolwg, dengys yr astudiaeth ansoddol fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn fwy o fater mewn rhai rhannau o Gymru nag eraill, lefelau mwy lleol o lywodraeth nag eraill, a bod dealltwriaeth fwy amrywiol sy'n cyfuno iaith a hunaniaeth.

### *Cam-drin ac Aflonyddu*

Cafodd cam-drin ac aflonyddu eu trafod yn eang yn yr astudiaeth ansoddol. Codwyd sawl pryder sy'n effeithio ar bobl mewn ffyrdd gwahanol; y canfyddiad cyffredinol o 'natur wenwynig' a'r amgylchedd gwleidyddol fel rhwystr yn y lle cyntaf; pryder am y cyfryngau yn craffu ar gefndir a hanes; pryderon gan grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol; a thactegau gwleidyddol.

Credai cyfwelai gweithgar iawn yn y byd gwleidyddol fod naws ac awyrgylch gwleidyddiaeth yn eithaf gwenwynig ar hyn o bryd, o ran y cyhoedd ac o fewn pleidiau gwleidyddol (Cyf_22). Trafododd cyfranogwyr y ffaith bod diwylliant cyffredinol gwleidyddiaeth yn annymunol. Roedd cyn-ymgeiswyr a darpar ymgeiswyr yn poeni am wneud eu hunain yn agored i ymosodiadau personol a cham-drin. Teimlai ymgeisydd yn y Cynulliad diwethaf a'r etholiad cyffredinol *'yn agored'* ac *'yn arbennig o ynysig ac unig'* am nad oedd gan ei blaid seilwaith mawr i ymdrin â hyn. Ond hyd yn oed petai ganddi'r seilwaith, teimlai eich bod *'yn dal i roi eich hun o dan sbotolau'* a *'chi maen nhw'n ei dargedu'*. Teimlai y gallai fod yn *'rhwystr enfawr i rywun oedd yn teimlo dan fygythiad o fod yn yr amgylchedd hwnnw'*. (Cyf_13) Roedd cyfranogwyr yn y grwpiau ffocws yn poeni am weld eu bywydau yn cael eu dadansoddi a'u beirniadu. Roedd aelod o grŵp ffocws, a oedd mewn priodas o'r un rhyw, wedi profi elfennau o hyn mewn etholiadau lleol a dywedodd, er nad oedd yn ei phoeni, y gallai fod yn broblem i bobl eraill.

*"Felly, mae gen i wraig. Mewn etholiadau lleol mae'n cael ei godi 'o ie, chi yw hi', ond drwy lwc mae gen i ysgwyddau llydan a dwi ddim wir yn poeni ond ni fyddai hyn yn wir am bobl eraill a phetawn i am sefyll ar lefel uwch, dwi ddim am gael fy adnabod fel 'honna', dyw hynny o ddim pwys. Dwi ddim yn poeni am y peth, cawn nhw ddweud beth bynnag maen nhw eisiau."*

Eglurodd cyfranogwr arall fod ganddynt hanes traws ac nad oeddent am i hynny gael sylw yn y papurau. Roeddent yn teimlo bod angen i'r cyfryngau gael eu rheoli, ond roeddent yn sylweddoli mai mater i San Steffan oedd hynny, nid Caerdydd.

Credai menyw fod yn rhaid i chi fod yn barod i'ch bywyd personol gael ei roi dan y chwyddwydr oherwydd 'dyna sut fyd ry'n ni'n byw ynddo gwaetha'r modd'. Gellir cael gwared ar fwlio yn y Cynulliad, ac yn gyfreithiol mewn amgylcheddau gwaith eraill, ond byddai'n anodd iawn cael gwared arno ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol ac ymhlith y cyhoedd. Fodd bynnag, ni fyddai achosion o aflonyddu ar ymgeiswyr benywaidd yn ei hatal; byddai'n ei 'gwneud yn flin' a byddai angen iddi 'gnoi ei thafod' ond ni fyddai'n ei hatal (Cyf_19). Cydnabu un arall fod y ffordd y caiff menywod eu trolio yn 'erchyll' ond credai o hyd 'ei bod hi'n bwysig rhoi cynnig arni' (Cyf_19).

Cytunai cyfwelai arall ei bod yn bwysig sefyll, ond pwysleisiodd natur gas ac amhleserus yr aflonyddu yn ei herbyn hi:



*"O'n i'n cael llythyrau di-enw, o'n i'n cael e-byst gan gyfrifon oedd wedi cael eu creu yn deud fyddai'n well bod social services yn mynd a fy mab i oddi wrtha fi oherwydd mod i wedi trio sefyll i fynd yn wleidydd, math yna o stwff. A dwi'n meddwl o'r ochr yna, bod pobl yn meddwl fod o'n bach o bethau sexist, ond ma na bethau fierce yn dod drwadd yn eithaf rheolaidd a dwi'n meddwl dyda ni ddim yn gallu stopio hynna fel pleidiau gwleidyddol ond 'da ni yn gallu cynnig mwy o wybodaeth i ymgeisyddion dwi'n meddwl." (Cyf_09)*

Cyfeiriodd cyfwelai â dyslecsia at watwar gwleidyddion sy'n gwneud camgymeriadau fel camsillafu neu faglu dros eiriau. Nodwyd mai dyma'n union y math o beth y byddai oedolyn â dyslecsia yn ei wneud. Teimlai *'fod rhai pethau lle rydym dan anfantais'* ac roedd y pethau hynny yn destun gwatwar cyhoeddus gan wleidyddion ond nid oedd unrhyw ymwybyddiaeth o hyn o gwbl mewn gwleidyddiaeth (Cyf_04).

Dywedodd cyfwelai â nam ar y clyw ei bod yn fwyfwy anodd ymgyrchu oherwydd y cam-drin a'r risg i ddiogelwch personol. Roedd yn pryderu am beidio â chlywed pethau yn y nos neu fod mewn sefyllfa wrthdrawiadol mewn cyfarfod cyhoeddus ond yn methu â dilyn y sgwrs. *'Po fwyaf ry'ch chi'n ei wybod y mwyaf ansicr ry'ch chi amdano'* (Cyf_05).

Ni chrybwyllwyd hyn gan y cyhoedd yn unig ond hefyd rhwng gwleidyddion a rhwng cefnogwyr gwahanol bleidiau (Cyf_08). Er enghraifft, nododd ymgeisydd benywaidd y byddai cydweithwyr a chyfoedion yn ei hanwybyddu ar ôl dod i wybod dros ba blaid roedd yn sefyll, a dyna'r math o ddiwylliant nad oedd yn ei hoffi.



*"Petai'r diwylliant a'r amgylchedd yn wahanol, a phetai'n ymwneud yn llawer mwy â chydweithio, ac ie, ag ystyried gwahanol farn a derbyn hynny a cheisio gwella bywydau pobl yng Nghymru, byddwn i am ystyried sefyll, ond doedd yr hyn wnes i ei brofi ddim yn teimlo felly. Fyddwn i ddim am fod yn rhan o system fel honno...Does yr un sefydliad yn berffaith...dwi ddim yn siŵr ai bod yn naïf ro'n ni ond do'n ni ddim yn disgwyl i bethau fod cweit fel hyn yng Nghymru." (Cyf_13)*

Eglurodd i'r sefyllfa waethygu yn ystod etholiad cyffredinol 2017. Cysylltodd pleidiau gwleidyddol eraill â hi yn bersonol a gofyn iddi gamu i lawr am mai menyw oedd hi. Roeddent o'r farn bod ganddynt ymgeisydd benywaidd cryf ac y dylai ein cyfwelai roi'r cyfle iddynt ennill am na fyddai ei phlaid hi yn ennill y sedd. Eglurodd fod yr awgrymiadau a'r pwysau a roddwyd arni yn bersonol ac ar y cyfryngau cymdeithasol *'yn teimlo fel bwlio rhaid dweud'* (Cyf_13). Profodd ymgeisydd BME ar lefel awdurdod lleol sylwadau rhyngbleidiol tebyg, gyda phobl yn gofyn iddo pam roedd yn sefyll yn yr etholiad lleol am fod ymgeisydd BME arall yn sefyll dros blaid arall.



*"Dwi hyd yn oed wedi cael rhai o'r cynghorwyr o blaid arall yn dod i fyny ata i ac yn dweud 'pam ry'ch chi'n sefyll?'...Gallech ddarllen rhwng y llinellau fod gyda ni [...] yn eich cynrychioli chi'n barod, a meddyliais i, dyw'r peth ddim hyd yn oed yn cael ei guddio. Roedd hynny'n gwbl afiach yn fy marn i. A dyma fi'n dweud 'mae angen i chi feddwl am yr hyn ry'ch chi newydd ei ddweud'.(Cyf_20)"*

Tanlinellodd un cyfranogwr y ffaith, hyd yn oed os nad oedd diddordeb cyhoeddus ehangach, y gallai eich bywyd preifat gael ei ddefnyddio fel tacteg wleidyddol yn eich erbyn mewn ymgyrch a bod 'hyn yn eich gwneud chi'n agored i niwed':



*"Ond mae dau fath gwahanol o dacteg fan hyn, barn y cyhoedd a diddordeb y cyhoedd yn yr hyn mae pobl wedi'i wneud a sut maen nhw'n byw, ond hefyd y tactegau sy'n cael eu defnyddio gan wleidyddion i ddilorni ei gilydd. Felly, dwi'n cytuno â'r hyn ry'ch chi'n ei ddweud na fydd gan bobl eraill ddiddordeb o reidrwydd, ond pan fydd rhywun yn teimlo bod ei sefyllfa yn cael ei bygwth gan berson gwleidyddol arall ry'ch chi'n sefyll yn ei erbyn, efallai y bydd am gael gwybodaeth amdanoch chi a'i gwneud yn gyhoeddus er mwyn eich bychanu."* (Wrecsam)

Roedd pryderon eang ynghylch y bygythiad o gam-drin, bwlio ac aflonyddu, a drafodwyd gan gyfranogwyr. Teimlwyd bod achosion o'r fath yn gyffredin, a bron yn cael eu derbyn fel rhan o'r broses mewn rhai cyd-destunau. Roedd yr holl ddiwylliant ac amgylchedd oedd yn ymosod ar unigolion am eu personoliaethau yn hytrach na'u polisïau yn agwedd annymunol ar y rôl ac yn rhwystr i gyfranogwyr.

### *Addysg a Gwybodaeth*

Rhwystr ehangach a drafodwyd yn aml mewn grwpiau ffocws oedd diffyg gwybodaeth wleidyddol ac addysg am wleidyddiaeth yng Nghymru. Roedd teimlad bod hyn yn arwain at apathi oherwydd dadrithio a diffyg gwybodaeth.

*"Mae addysg yn un mawr iawn i mi, oherwydd gyda phawb dwi'n siarad â nhw am wleidyddiaeth yng Nghymru, dyw pawb, y rhan fwyaf o bobl, ddim yn gwybod fawr ddim am y Cynulliad, beth sy'n digwydd yno na beth mae'n ei olygu i fod yn aelod neu'n wleidydd"* (Llanelli)

Cyfeiriwyd hyn yn aml at addysgu pobl ifanc. Teimlai un cyfwelai ifanc mai un o'r prif rwystrau i bobl sefyll fel AC ac ymwneud â gwleidyddiaeth oedd diffyg gwybodaeth am hanfodion gwleidyddiaeth ymhlith pobl ifanc. Dadleuwyd na fyddech yn cael pobl i ymddiddori yn y broses wleidyddol os oeddent yn teimlo mai ychydig iawn o wybodaeth oedd ganddynt am wleidyddiaeth yng Nghymru (Cyf_16). Eglurodd person ifanc mai dim ond drwy fod yn fyfyrwraig ac ymuno â Sefydliad Anlywodraethol yr oedd yn gwybod am wleidyddiaeth yng Nghymru (Cyf_10).

Roedd yn gyffredin bod cyfranogwyr hŷn am i blant a phobl ifanc ymgysylltu ac ymddiddori mewn gwleidyddiaeth yng Nghymru fel nad oedd yn cael ei hystyried yn rhywbeth oedd ar gyfer 'pobl gefnog' a'r 'crachach' yn unig, ond lle dylai 'pawb gael cyfle a dylai ddechrau drwy addysgu ein plant' (Aberystwyth). Yng ngrŵp ffocws Llanelli nodwyd:

*"Os nad y'n ni'n datblygu hynny gyda'n plant, beth fydd y genhedlaeth nesaf? Amrywiaeth neu beidio, fydd neb am fynd i mewn i wleidyddiaeth"*(Llanelli)

Cymysg fu'r ymateb i bleidleisio yn 16 oed. I un grŵp roedd yn rhywbeth roedd yn *'rhaid iddo ddigwydd'* (Wrecsam). Ond roedd rhai cyfranogwyr yn poeni na fyddai gan bobl ifanc 'unrhyw syniad' am sut i bleidleisio (Merthyr). Ar y cyfan, roedd teimlad bod angen addysg mewn gwleidyddiaeth yn gyffredinol, ac nid dim ond gwleidyddiaeth plaid.

### 3.3.3 Trafodaeth

Roedd llawer o'r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth yn ffactorau diwylliannol ac unigol ehangach. Ar y cyfan, ystyriwyd bod amrywiaeth yn y Cynulliad yn gymharol gryf o gymharu â San Steffan, ond roedd diffyg cynrychiolaeth o grwpiau penodol: sef, aelodau ag anableddau, pobl ifanc, grwpiau BME, a phobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol. Pwysleisiodd sawl cyfranogwr y byddai cymhellion i wella amrywiaeth yn cael eu hatgyfnerthu drwy ddeall pam mae amrywiaeth yn ffactor sefydliadol cadarnhaol o ran gwneud penderfyniadau da. Credwyd bod diffyg dealltwriaeth o amrywiaeth yn broblem ehangach i gymdeithas ac felly roedd gan bawb yn y system ran i'w chwarae wrth hyrwyddo ac annog, neu hyd yn oed ddeall, amrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys pleidiau gwleidyddol, y Cynulliad, a'r etholaeth ei hun.

Codwyd diwylliant gwleidyddol o gam-drin ac aflonyddu yn gyson fel rhwystr. Yn arbennig, amgylchedd lle'r oedd cyfranogwyr yn poeni am faterion personol yn cael eu codi a'u defnyddio yn gyhoeddus, yn hytrach na thrafod materion a pholisïau. Roedd rhai yn dilyn trywydd pragmataidd, croendew, gan deimlo ei fod yn rhan o'r rôl i raddau, ond, i eraill, roedd yn ffactor oedd yn eu hatal. Mae'r ffaith bod aflonyddu yn dod o sawl cyfeiriad, lle gallai gael ei lywio gan y cyhoedd neu'r cyfryngau, neu gael ei lywio er budd gwleidyddol rhwng pleidiau, yn golygu ei fod yn fater anodd i'w ddatrys.

Cafodd y gallu i siarad Cymraeg ei godi fel rhwystr posibl yn yr arolwg. Pan drafodwyd hyn drwy ddulliau ansoddol, canolbwyntiodd y sylwadau ar leoliad, lle ystyriwyd bod yr angen i siarad Cymraeg yn amlycach lle caiff Cymraeg ei siarad yn ehangach, a mater hunaniaeth. Yn arbennig, cododd rhai cyfranogwyr ffactorau personol, fel y ffaith nad oeddent yn teimlo yn ddigon Cymreig neu eu bod yn cael eu gweld yn 'rhy Seisnig'.

Ystyriwyd bod addysg wleidyddol a diffyg gwybodaeth gan y cyhoedd am wleidyddiaeth yng Nghymru yn rhwystr i'r cyhoedd ymwneud yn fwy â'r Cynulliad. Nododd sawl grŵp ffocws fod hyn yn arwain at apathi a dadrithiad mewn perthynas â'r sefydliad. Gwelwyd addysg wleidyddol i bobl ifanc fel ffordd allweddol o annog mwy o ddiddordeb ac ymgysylltu â gwleidyddiaeth yng Nghymru a'r Cynulliad.

Yn naturiol, mae materion diwylliannol a chymdeithasol ehangach y tu hwnt i bwerau uniongyrchol y Bwrdd. Fodd bynnag, credwn y gall y Bwrdd wneud cyfraniad at helpu i ymdrin â'r diwylliant gwleidyddol heriol sy'n wynebu ymgeiswyr drwy gysylltu â'r prif ffigyrau a chyfrannu at fentrau addysg.

# CASGLIADAU AC ARGYMHELLION

Mae Strategaeth y Bwrdd Taliadau ar gyfer 2016-21 yn cydnabod yr angen i "ymateb i anghenion newidiol y Cynulliad wrth ganolbwyntio'n bendant ar greu Penderfyniad Ariannol sy'n addas ar gyfer y Chweched Cynulliad". Amcanion strategol y Bwrdd ar gyfer 2016-2021 yw:

- Ymgysylltu'n effeithiol ag ystod eang o rhanddeiliaid i sicrhau ein bod yn deall eu hanghenion a'u safbwyntiau [AS1];
- Sicrhau bod y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad yn parhau'n addas i'r diben [AS2];
- Paratoi Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau cyfansoddiadol newidiol y Cynulliad a'r cyd-destun Cymreig ehangach, a rhoi gwybod amdano i'r holl ymgeiswyr posibl flwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru [AS3]; a
- Sicrhau bod y system o gymorth ariannol ar gyfer Aelodau yn cynrychioli gwerth am arian i drethdalwyr a bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol [AS4].

Mae ein hastudiaeth maes wedi datgelu nad yw'r heriau sy'n wynebu ymgeiswyr yng Nghymru yn wahanol iawn i'r rhai a nodwyd yn yr adolygiad o dystiolaeth. Yn ogystal â materion sy'n uniongyrchol berthnasol i'r Bwrdd Taliadau, mae amrywiaeth o ffactorau unigol, strwythurol, gwleidyddol a sefydliadol eraill a godwyd yma sy'n effeithio ar p'un a yw unigolion yn sefyll etholiadau ai peidio.

Mae ein gwaith yn taflu golau ar y cyd-destun ble mae ystod ehangach a mwy helaeth o ymgeiswyr un ai'n cael eu rhwystro neu eu cymell i sefyll ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. Gwnaethom ganolbwyntio'n arbennig ar daith yr unigolyn, o fod â diddordeb mewn gwleidyddiaeth i fod yn ymgeisydd a sefyll mewn etholiadau. Darganfuom fod nifer o heriau, a chyfleoedd, ar y daith ar gyfer ymgeiswyr o gefndiroedd gwahanol.

O ran y daith o fod yn unigolyn cymwys i fod yn ddarpar ymgeisydd, nodwn fod pobl yn dod ar draws llawer o rwystrau - unigol, strwythurol, gwleidyddol, sefydliadol, neu ddiwylliannol - ond mae llawer yn barod i'w goresgyn er mwyn dod yn ACau. Mae rhai mathau o gymdeithasoli i mewn i wleidyddiaeth, yn naturiol, yn dileu rhai o'r rhwystrau presennol (h.y. diffyg gwybodaeth am strwythurau a phrosesau gwleidyddiaeth plaid, diffyg rhwydwaith a systemau cymorth a chyfalaf gwleidyddol), tra bod eraill yn fwy gwaharddol (h.y. newydd-ddyfodiaid ym myd gwleidyddiaeth swyddogol, sy'n weithgar yn eu cymunedau, ond nad ydynt yn teimlo eu bod yn perthyn i unrhyw ideoleg plaid wleidyddol ac a fyddai am sefyll fel ymgeisydd annibynnol).

Mae rhwystrau strwythurol pwysig, fel cost sefyll, amser, yn ogystal â hygyrchedd cyfyngedig, i rai categorïau o bobl: pobl ifanc, menywod, pobl â theuluoedd ifanc, pobl ag anableddau. I rai, mae'r risg sydd ynghlwm wrth sefyll etholiad, ynghyd â materion ariannol, yn amlwg yn rhy fawr. Mae hyn yn broses hidlo negyddol, sydd yn y pen draw yn atal unigolion o gefndiroedd economaidd cymdeithasol llai cefnog rhag sefyll.

Mae ffactorau systemig a gwleidyddol, fel y system etholiadol, y broses etholiadol, a gweithdrefnau dethol ymgeiswyr o fewn pleidiau gwleidyddol yn cyfrannu'n helaeth at ddiffyg amrywiaeth ymysg ymgeiswyr. Mae natur ymgyrchu (ymgyrchu traddodiadol o ddrws i ddrws) hefyd yn cyfyngu rhai unigolion (h.y. ymgeiswyr ag anableddau neu â chyfrifoldebau teuluol neu ofal). Mae ffactorau diwylliannol fel tuedd (anymwybodol) y blaid, y duedd i ffafrio'r ymgeisydd nodweddiadol (dyn gwyn, heterorywiol, dosbarth canol fel arfer) dros unrhyw beth sy'n amrywio o hynny, a'r diffyg dealltwriaeth o amrywiaeth wedi'i wreiddio'n ddwfn o fewn pleidiau ac mae'n anodd mynd i'r afael â'r peth. Mae hyn yn effeithio'n arbennig ar ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig, menywod, a phobl ag anableddau. Mae llawer o dystiolaeth sy'n awgrymu bod angen i bleidiau gwleidyddol fewnsyllu o ddifrif, o ran amrywiaeth.

O ran bod yn Aelod Cynulliad, daethom o hyd bod pobl yn ystyried ac yn disgwyl i'r Cynulliad fod yn weithle 21ain ganrif. Mae llai o bwyslais ar gyflog a diogelwch swydd, ac yn hytrach, mae mwy o bwyslais ar gefnogaeth, cyfleusterau, a threfniadau gwaith. Mae disgwyliadau y gellir mynd i'r afael â, a datrys, ffiniau daearyddol drwy dechnoleg, ac y dylai patrymau gweithio hyblyg fod mewn lle er mwyn ffitio ag anghenion cymhleth unigolion sydd yn y swydd (e.e. cyfrifoldebau gofal, datblygiad proffesiynol ayyb). Gwelir ansicrwydd diogelwch swydd fel nodwedd dderbyniol ar rôl Aelod Cynulliad, felly derbynnir elfen o'r 'anhysbys'. Fodd bynnag, gwnaethom hefyd ddarganfod bod cyfranogwyr wir am gael gwybodaeth fanylach am y swydd, gan gynnwys y mathau o rolau y disgwylir iddynt eu cyflawni, darpariaethau'r sefydliad o ran eu cefnogi yn eu rôl, yn ogystal â'r math o dreuliau a hawliadau y gallant eu gwneud - disgwyliad tebyg iawn i unrhyw fath o arall o waith. Yn ogystal, mae ffactorau sy'n gysylltiedig â bod yn wleidydd etholedig, megis hinsawdd wleidyddol elyniaethus, aflonyddu, trolio, ymyrryd â phreifatrwydd, a'r ymdeimlad nad yw'r cyhoedd yn gwerthfawrogi (neu'n gwybod) beth mae gwleidyddion yn ei wneud, yn rhwystrau pellach.

Yn ehangach, datgelodd ein hymchwil lawer o ffactorau diwylliannol ac unigol sy'n effeithio ar barodrwydd unigolion i enwebu eu hunain ar gyfer etholiadau a natur ddeniadol y swydd. Nodwyd gennym fod ystyriaeth bod amrywiaeth yn y Cynulliad yn datblygu ar y cyfan, ond roedd diffyg cynrychiolaeth o grwpiau penodol; sef, aelodau ag anableddau, pobl ifanc, grwpiau BME, a phobl o gefndiroedd dosbarth gweithiol. Credwyd bod diffyg dealltwriaeth o amrywiaeth yn broblem ehangach i gymdeithas ac felly roedd gan bawb yn y system ran i'w chwarae wrth hyrwyddo ac annog, neu hyd yn oed ddeall, amrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys pleidiau gwleidyddol, y Cynulliad, a'r etholaeth ei hun.

Codwyd diwylliant gwleidyddol o gam-drin ac aflonyddu fel rhwystr. Mae'r ffaith bod aflonyddu yn dod o sawl cyfeiriad, lle gallai gael ei lywio gan y cyhoedd neu'r cyfryngau, neu gael ei lywio er budd gwleidyddol rhwng pleidiau, yn golygu ei fod yn fater anodd i'w ddatrys.

Cafodd y gallu i siarad Cymraeg ei godi fel rhwystr posibl yn yr arolwg. Codwyd hyn fwyaf o ran lleoliadau penodol. Roedd hunaniaeth, yn enwedig, ddim yn teimlo'n ddigon Cymreig neu'r ofn o gael eu hystyried yn 'rhy Seisnig', yn rhwystr arall.

Ystyriwyd bod addysg wleidyddol a diffyg gwybodaeth gan y cyhoedd am wleidyddiaeth yng Nghymru yn rhwystr i'r cyhoedd ymwneud yn fwy â'r Cynulliad.

## Rhestr o Argymhellion o fewn Fframwaith Theori o Newid[128]

Rydym yn gosod ein hargymhellion o fewn cyd-destun y canfyddiadau hyn, ac o fewn cyd-destun amcanion strategol y Bwrdd ei hun:

**Ymgysylltu'n effeithiol ag ystod eang o randdeiliaid i sicrhau ein bod yn deall eu hanghenion a'u safbwyntiau [AS1] a Pharatoi Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau cyfansoddiadol newidiol y Cynulliad a'r cyd-destun Cymreig ehangach, a rhoi gwybod amdano i'r holl ymgeiswyr posibl flwyddyn cyn etholiad cyffredinol Cymru [AS3]**

**A1:** Dylai'r Bwrdd adolygu / cynllunio strategaeth ymgysylltu cyhoeddus clir.

**A2:** Fel rhan o'r strategaeth, dylai'r Bwrdd adolygu ei ddarpariaeth o wybodaeth a'r defnydd o sianeli cyfathrebu allanol. Bydd hyn yn golygu ail-ddylunio gwefan y Bwrdd Taliadau, a llwyfannau eraill, yn unol â'r egwyddorion o:

A. **Rhyngweithiol:** Symud oddi wrth gynnwys statig i gynnwys mwy deinamig. Er enghraifft, gall y Bwrdd greu fideos byr ynghylch yr ystod o dreuliau y gall ACau eu hawlio, a'r rheolau ar gyfer hawlio treuliau, ond hefyd am y gefnogaeth mae ACau yn derbyn yn eu swyddi.

B. **Hygyrchedd:** creu a chyhoeddi fersiynau hawdd i'w darllen ar gyfer pob adroddiad o bwys a'u lledaenu drwy amryw o sianeli a ffurfiau.

C. **Cyfathrebu dwyffordd:** symud oddi wrth 'wthio' gwybodaeth i sefydlu deialog gyda rhanddeiliaid e.e. 'gweminarau' rhyngweithiol.

**A3:** Fel rhan o'r strategaeth newydd, dylai'r Bwrdd ystyried cysylltu â rhanddeiliaid mewnol perthnasol (e.e. Gwasanaeth Addysg ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc y Cynulliad) er mwyn adolygu pa fath o gynnwys a deunydd a ellir ei fwydo i fentrau ymgysylltu ac addysg y Cynulliad.

**A4:** Fel rhan o'r strategaeth newydd, dylai'r Bwrdd gysylltu â rhanddeiliaid mewnol perthnasol (e.e. Comisiwn y Cynulliad) er mwyn adolygu sut i wella gwelededd y Cynulliad Cenedlaethol a'r Bwrdd Taliadau ar draws Cymru: cynnal mwy o gyfarfodydd ar draws Cymru; cymryd rhan mewn 'Wythnos Senedd Agored', neu 'sioe deithiol' i ymgeiswyr, er mwyn dod â gwybodaeth ynglŷn â sefyll fel AC i mewn i gymunedau.

**A5:** Fel rhan o'r strategaeth, dylai'r Bwrdd ystyried ymgysylltu cyson â rhanddeiliaid allanol (e.e. pleidiau gwleidyddol, grwpiau ymgyrchu, rhaglenni mentora ac arwain anwleidyddol, darpar ymgeiswyr nad sy'n gysylltiedig â phleidiau gwleidyddol). Dylai'r Bwrdd ddarparu gwybodaeth gynnar a chanllawiau ynglŷn â'r penderfyniad a'r cymorth fydd ar gael.

128 Mae tabl manwl Theori o Newid wedi ei ddarparu ar wahân yn Atodiad 3

**A6:** Dylai'r Bwrdd ystyried ffyrdd y gall ddarparu cyfleoedd cysgodi neu agor rhai o'i gyfarfodydd i'r cyhoedd er mwyn rhoi gwell cyhoeddusrwydd i'w waith ei hun..

**Er mwyn sicrhau bod y Penderfyniad ar gyfer y Pumed Cynulliad yn parhau'n addas i'r diben [AS2] ac er mwyn sicrhau bod y system o gymorth ariannol ar gyfer Aelodau yn cynrychioli gwerth am arian i drethdalwyr a bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol [AS4], dylai'r Bwrdd:**

**A7:** Ystyried alinio ei ddarpariaeth ar gymorth gofal plant (treuliau a chyfleusterau) â:

A. cyfnod eistedd y Cynulliad, ac

B. amserlen ACau er mwyn cynnwys amser cymudo (boreau cynnar a nosweithiau hwyr)

**A8:** Dylai'r Bwrdd godi gyda Chomisiwn y Cynulliad ar gyfer ystyriaeth:

A. Adolygu priodoldeb y ddarpariaeth o ran gweithio hyblyg (gan gynnwys pleidleisio o bell) ac archwilio ffyrdd eraill ble gall technoleg hwyluso gwaith Aelodau Cynulliad.

B. Rhinweddau rhannu swydd, neu ail swyddi, ar gyfer Aelodau Cynulliad.

**A9:** Ystyried adolygu rheolau ar gyfer 'treuliau eithriadol', egluro ym mha sefyllfaoedd y mae'r rhain yn gymwys, a rhoi cyhoeddusrwydd gwell ynglŷn â'r gefnogaeth benodol sydd ar gael (e.e. cefnogaeth benodol ar gyfer pobl ag anabledd).

**A10:** Dylai'r Bwrdd ystyried os yw'n bosibl rhoi lwfans i ACau i gefnogi cyfleoedd cysgodi a phrofiad gwaith ar gyfer pobl o'u hetholaethau a rhanbarthau. Er enghraifft, lwfans er mwyn cefnogi etholwyr i deithio i'r Cynulliad ar gyfer cyfle cysgodi wedi ei ddarparu drwy becyn taliadau'r ACau. Dylai'r Bwrdd ystyried pa fath o reolau a ddylai fod mewn lle er mwyn cefnogi hyn.

**A11:** Dylai'r Bwrdd archwilio gyda sefydliadau megis y Comisiwn Etholiadol, y Cynulliad Cenedlaethol, a Llywodraeth Cymru, sut y gellir sefydlu cronfa Mynediad at Wleidyddiaeth ar gyfer ymgeiswyr. Dylai cronfa o'r fath gael ei ddefnyddio ar gyfer cefnogi ymgeiswyr ag anabledd ac ymgeiswyr o grwpiau tangynrychioledig eraill.

**Yn ogystal, mae cyfres o feysydd ble mae angen trafodaeth ehangach. Rydym yn cydnabod nag oes efallai gan y Bwrdd rym i weithredu'n uniongyrchol, ond mae'n bwysig i gael y sgwrs hon gyda rhanddeiliaid y Bwrdd. Mae ymchwil pellach ac ymgynghori eu hangen er mwyn ymateb i rai o'r rhwystrau allweddol i amrywiaeth a drafodir yn yr adroddiad hwn:**

- Byddai gwefan gynghori 'siop un stop' ar gyfer ymgeiswyr yn mynd i'r afael â pheth o'r diffyg gwybodaeth, cyfyngiadau, a rhwystrau sy'n wynebu rhai ymgeiswyr ar y ffordd o fod â diddordeb mewn gwleidyddiaeth i sefyll mewn etholiadau. Dylai hwn gynnwys gwybodaeth wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd Taliadau ar y pecyn taliadau, y swydd ei hun, cymorth ychwanegol a gynigir i ACau a'r rheolau ar gyfer hawlio treuliau.

- Dylai'r Bwrdd gyfrannu at y drafodaeth, ynghyd â chyrff eraill (Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, y Comisiwn Etholiadol, pleidiau gwleidyddol ayyb) ynglŷn â gweithredu cwotâu amrywiaeth a monitro amrywiaeth ac adrodd ar bob cam o daith yr ymgeiswyr.
- Mae'r effaith y caiff natur ymgyrchu wleidyddol ar gyfyngu amrywiaeth angen ymchwil pellach. Y Comisiwn Etholiadol a'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol yw o bosib y cyrff mwyaf priodol, ynghyd â Chomisiwn y Cynulliad, i gychwyn trafodaeth i'r perwyl hwn.
- Bydd mynd i'r afael â materion o gam-drin ac aflonyddu ymgeiswyr a gwleidyddion etholedig angen trafodaeth drawsbleidiol ac ymgynghoriad gyda phleidiau gwleidyddol, y Comisiynydd Safonau, cyrff cymdeithas sifil eraill a chyrff cyhoeddus.

# ATODIAD 1: ASTUDIAETH MAES

## Ebrill / Mai 2017
Cadarnhau'r Cais

## Mehefin - Gorffennaf
Adolygiad o Dystiolaeth

Adolygiad gychwynnol o'r llenyddiaeth ar recriwtio gwleidyddol ac amrywiaeth


Rhychwantu'r themâu

## Mehefin - Awst
Dylunio'r Gwaith Maes


Cynllunio'r Arolwg
Rhwydwaith lledaenu'r arolwg
Peilot o'r arolwg

Cynllunio llwyfan Loomio
Cynllunio ar gyfer grwpiau ffocws

## Awst - Tachwedd
Arolwg




## Medi - Hydref
Grwpiau Ffocws




## Medi - Rhagfyr
Loomio

24 o gyfranogwyr
7 pwnc wedi eu trafod
2 arolwg sydyn
Dros 40 o ymatebion manwl

## Hydref - Rhagfyr
Cyfweliadau

25 cyfweliad lled-strwythurol
30-60 munud o hyd
Wyneb i wyneb, ffôn, Skype
5 cyn ymgeisydd i'r Cynulliad Cenedlaethol


## Tachwedd - Rhagfyr
Dadansoddi ac Ysgrifennu

## Ionawr 2018 Cyflwyno


# ATODIAD 2: CRYNODEB O DDADANSODDIAD YR AROLWG

## Dosraniad allweddol o ddemograffeg gymdeithasol ymatebwyr yr arolwg


### Rhaniad Oed Ymatebwyr





### Ethnigrwydd Ymatebwyr




Cymwysterau Addysg Uchaf




Cyflog Presennol Ymatebwyr




Cymwysterau Addysg Uchaf eich Rhieni





## Rhai Canfyddiadau Allweddol yr Arolwg


Y 5 Rhwystr Uchaf i fod yn AC



5 Agwedd Uchaf o Rwystrau Ymgyrchu





Y 3 Cymhelliant Uchaf a'r 3 Cymhelliant Isaf




## Dosraniad Rhywedd

### Y 3 Uchaf: Rhwystrau a Cymhellion yn ôl Rhywedd


Y 3 Rhwystr mwyaf i Sefyll





Beth fyddai yn eich gwneud yn fwy tebygol o sefyll?




Canran sy'n ystyried eu priodoleddau personol fel rhwystr i sefyll





Cyfartaledd wrth Rywedd: I ba raddau yr ydych yn credu y byddai'r ffactorau hyn yn rhwystr neu'n gymhelliad i chi sefyll fel ymgeisydd i'r Cynulliad Cenedlaethol? (0 – Rhwystr Sylweddol / 10 – Cymhelliant Sylweddol)




Cyfartaledd wrth Rywedd: I ba raddau yr ydych yn credu y gallwch ymdrin â gwahanol agweddau ar fod yn Aelod Cynulliad?
(0 – Rhwystr Sylweddol / 10 – Cymhelliant Sylweddol)





Canran yr Ymatebwyr oedd yn ystyried 'X' i fod yn Rhwystr i Sefyll




Canran wrth Rywedd: Beth fyddai yn eich gwneud yn fwy tebygol o sefyll?




Gwahaniaethau o ran Rhywedd: I ba raddau yr ydych yn credu y byddai eich priodoleddau personol yn rhwystr yn eich penderfyniad i sefyll mewn etholiad i'r Cynulliad Cenedlaethol? (Mae sgoriau positif ble mae Menywod yn marcio'n uwch na Dynion)





Gwahaniaethau o ran Rhywedd: I ba raddau yr ydych yn credu y byddai'r ffactorau hyn yn rhwystr neu'n gymhelliad i chi sefyll fel ymgeisydd i'r Cynulliad Cenedlaethol? (Mae sgoriau positif ble mae Menywod yn marcio'n uwch na Dynion)



Gwahaniaethau o ran Rhywedd: I ba raddau yr ydych yn credu y gallwch ymdrin â gwahanol agweddau ar fod yn Aelod Cynulliad? (Mae sgoriau positif ble mae Menywod yn marcio'n uwch na Dynion)





Gwahaniaeth o ran Rhywedd: Beth fyddai yn eich gwneud yn fwy tebygol o sefyll? (% Menywod - % Dynion)




# Dosraniad Oed


Canran y rhai sy'n ystyried eu nodweddion personol fel rhwystrau yn ôl oed (%)





Y 3 Cymhelliant Uchaf ac Isaf ar Gyfartaledd: 18-24 Mlwydd Oed




Y 3 Cymhelliant Uchaf ac Isaf ar Gyfartaledd: 25-34 Mlwydd Oed





Y 3 Cymhelliant Uchaf ac Isaf ar Gyfartaledd: 35-44 Mlwydd Oed




Y 3 Cymhelliant Uchaf ac Isaf ar Gyfartaledd: 45-54 Mlwydd Oed




Y 3 Cymhelliant Uchaf ac Isaf ar Gyfartaledd: 55-64 Mlwydd Oed




Y 3 Cymhelliant Uchaf ac Isaf ar Gyfartaledd: 65+ Mlwydd Oedv




# Dosraniad Anabledd


Canran o bobl a nododd eu bod yn anabl a ddywedodd y byddai'r cymhellion hyn yn eu gwneud yn fwy tebygol o sefyll mewn etholiad



Y 4 Prif Briodoleddau Personol sy'n Rhwystr i Sefyll ymysg yr Ymatebwyr a Nododd eu bod yn Anabl




Y 3 Gymhelliant Uchaf ac Isaf Gyfartaledd ar gyfer y rhai a Nododd eu bod yn Anabl.



# ATODIAD 3: THEORI O NEWID MANWL

| ARGYMHELLION | | | | CANLYNIADAU Y BWRIEDIR | |
|---|---|---|---|---|---|
| CYD-DESTUN | EFFEITHLONRWYDD | | | EFFEITHIOLRWYDD | |
| Theori o newid sy'n sail i'n hargymhellion | Gweithgareddau (argymhellion ymarferol) | Allbwn | AS** | Canlyniadau (disgwyliedig) | Effaith |
| MATERION:<br>Ar-y-cyd â'r broses ddatganoli yng Nghymru roedd sgwrs o amgylch cynwysoldeb, didwylledd a hygyrchedd. Ugain mlynedd un ddiweddarach, er gwaethaf record gyffredinol dda am gynrychiolaeth menywod yn y Cynulliad Cenedlaethol, mae materion yn parhau ynghylch cynaliadwyedd hirdymor datblygiadau o'r fath, yn ogystal â Chynulliad â mwy o amrywiaeth o grwpiau eraill: anabledd, ethnigrwydd, cefndir economaidd cymdeithasol, addysg, oed ayyb. | A1 - Dylai'r Bwrdd adolygu / cynllunio strategaeth ymgysylltu cyhoeddus clir. | Strategaeth ymgysylltu ac estyn allan cyhoeddus sy'n ategu at strategaeth gyffredinol y Bwrdd | 1 & 3 | A1-5:<br>Ymgysylltu pwrpasol ac effeithiol ag ystod eang o randdeiliaid drwy wahanol sianeli (e.e. digidol, ymgysylltu). | Gwell Ymwybyddiaeth, Gwybodaeth ac Ymgysylltu â materion yn ymwneud â:<br>• Y swydd o fod yn Aelod Cynulliad<br>• Y cymorth mae ACau yn ei gael i wneud eu swyddi<br>• Rôl y Bwrdd Taliadau<br>• Amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus<br><br>Eglurder a thryloywder mewn perthynas â:<br>• Rheolau ar hawlio treuliau |
| | A2 - Gwella'r ddarpariaeth o wybodaeth a'r defnydd o sianeli cyfathrebu allanol | Ail-ddylunio'r wefan yn unol â strategaeth ddigidol y Cynulliad Cenedlaethol, gyda phwyslais ar gynnwys mwy deinamig a rhyngweithiol. Fersiynau hawdd i'w darllen a fersiynau amlffurf o'r Penderfyniad. | 1 & 3 | Deall anghenion rhanddeiliaid a chasglu eu safbwyntiau drwy wefan rhyngweithiol gyda strategaeth gyfathrebu ddigidol glir mewn lle sy'n darparu ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd. | |
| CYD-DESTUN:<br>Comisiynodd y Bwrdd Ganolfan Llywodraethiant Cymru i ymgymryd ag ymchwil i ddeall yn well y rhwystrau a'r cymhellion i ystod eang o unigolion i sefyll mewn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol ac a oedd y pecyn taliadau ei hun yn rhwystr. | A3 - Creu a dosbarthu cynnwys ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu rhanddeiliaid mewnol (Addysg). | Cynnwys hygyrch, hawdd i'w darllen, aml-sianel ar y pecyn taliadau, rheolau treuliau a'r gefnogaeth sydd ar gael i ACau unwaith y byddent yn y swydd ac ar ôl iddynt ddarfod bod yn ACau. | 1 & 3 | Lleihau diffyg gwybodaeth, yn arbennig ymysg pobl sydd â diddordeb sefyll mewn etholiad drwy roi gwybod effeithiol i holl ymgeiswyr bosibl o'r penderfyniad ar gyfer y 6ed Cynulliad un flwyddyn cyn etholiadau'r Cynulliad. | Ehangu amlygrwydd a gwell dealltwriaeth o faterion amrywiaeth.<br><br>Yn arwain at:<br>• Lleihau'r diffyg gwybodaeth mewn perthynas â: a) rôl a swyddogaeth aelodau etholedig i'r Cynulliad Cenedlaethol, a b) pam fod amrywiaeth mewn bywyd cyhoeddus yn bwysig<br>• Cael gwared ar rwystrau strwythurol, gwleidyddol, a diwylliannol i bobl sydd am sefyll i'r Cynulliad Cenedlaethol<br>• Darparu cymhelliant i unigolion o ystod eang o gefndiroedd i sefyll mewn etholiadau a sefyll dros eu cymunedau |
| Daethom i'r casgliad bod ffactorau unigol, strwythurol, gwleidyddol, sefydliadol a chymdeithasol yn lliwio penderfyniad yr unigolyn i sefyll mewn etholiadau neu beidio. Yn ogystal â hyn, mae diffyg gwybodaeth am y broses o ddod yn Aelod Cynulliad, y swydd o fod yn Aelod Cynulliad, y pecyn taliadau a'r cymorth i ACau tra eu bod yn y swydd, a'r rheolau ynglŷn â hawlio treuliau. | A4 - Ehangu gwelededd y Cynulliad a'r Bwrdd Taliadau | Cysylltu â Chomisiwn y Cynulliad i sefydlu 'Wythnos Senedd Agored' blynyddol neu 'Gŵyl Wleidyddiaeth'<br>Cyfrannu at sesiynau Wythnos Senedd Agored<br>Trefnu / cyfrannu at sioe deithiol ymgeiswyr blwyddyn cyn etholiadau'r Cynulliad<br>Cynnal cyfarfodydd oddi ar y safle i ymgysylltu'n gynnar â darpar ymgeiswyr<br>Adolygu'r cynnwys presennol a chynhyrchu cynnwys newydd, hawdd i'w darllen, gweledol, fideo - gellir gwneud hyn ar-y-cyd â'r Tîm Cyfathrebu Digidol a'r tîm ymgysylltu. | 1 & 3 | Cynyddu argaeledd gwybodaeth amlffurf, hawdd i'w ddarllen a hygyrch ynglŷn â'r pecyn taliadau, cefnogaeth i ACau tra yn y swydd ac unwaith y byddent yn gadael y swydd, yn ogystal â gwybodaeth glir am y rheolau ynglŷn â threuliau.<br><br>Cynyddu'r pwyntiau hygyrch ar gyfer y math yma o wybodaeth (gweler uchod) a gwell cyfaniad o fewn mentrau ymgysylltu ehangach y Cynulliad.<br><br>Ehangu gwelededd y Bwrdd Taliadau. | |
| Mae rhwystrau strwythurol, megis cost sefyll, amser a hygyrchedd cyfyngedig yn rhwystrau pwysig i rai grwpiau o bobl: pobl ifanc, menywod, pobl â theuluoedd ifanc, pobl ag anabledd. Mae ffactorau systemig a gwleidyddol, fel y system etholiadol, y broses etholiadol, dethol ac enwebu ymgeiswyr mewn pleidiau gwleidyddol yn cyfrannu'n allweddol at y diffyg amrywiaeth ymysg ymgeiswyr. Mae ffactorau diwylliedig fel tuedd anymwybodol y detholwyr (ymysg pleidiau gwleidyddol) a'r ffafriaeth rhagosodedig i fath penodol o ymgeisydd, yn ogystal â diffyg dealltwriaeth o bwysigrwydd amrywiaeth yn rhwystrau pwysig ar gyfer ymgeiswyr o leiafrifoedd ethnig, menywod, a phobl ag anableddau. | A5 - Ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol a chyfrannu at sesiynau gwybodaeth yn rheolaidd | Creu cofrestr o gynlluniau arwain a mentora (gofyn i drefnwyr gofrestru eu rhaglenni), cyfrannu sesiynau gwybodaeth, trefnu gweminarau a chreu pecynnau gwybodaeth. | 1 | Ymgysylltu pwrpasol ac effeithiol ag ystod eang o rhanddeiliaid sydd â chyswllt uniongyrchol ag ymgeiswyr posibl ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol. | |
| | A6 - Cynnig cyfleoedd cysgodi ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sydd â diddordeb | Cyfle cysgodi i'r cyhoedd gyda blog (a chyfryngau eraill) sy'n lledaenu'r profiad. | 3 | Ehangu gwelededd ar gyfer y materion mae'r Bwrdd yn ymdrin â nhw (y pecyn taliadau). | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Daethom hefyd i'r casgliad bod pobl yn ystyried ac yn disgwyl i'r Cynulliad fod yn weithle ar gyfer yr 21ain ganrif. Mae llai o bwyslais ar gyflog a diogelwch swydd, ac yn hytrach, mwy o bwyslais ar gefnogaeth, cyfleusterau a threfniadau gwaith. Mae disgwyliadau y gellir mynd i'r afael â, a datrys, ffiniau daearyddol drwy dechnoleg, ac y dylai patrymau gweithio hyblyg fod mewn lle er mwyn ffitio ag anghenion cymhleth unigolion sydd yn y swydd (e.e. cyfrifoldebau gofal, datblygiad proffesiynol ayyb). Fodd bynnag, gwnaethom hefyd ddarganfod bod cyfranogwyr am gael gwybodaeth fanylach am y swydd. Hefyd, roedd ffactorau sy'n gysylltiedig â bod yn wleidydd etholedig, megis hinsawdd wleidyddol elyniaethus, aflonyddu, trolio, ymyrryd â phreifatrwydd, a'r ymdeimlad nad yw'r cyhoedd yn gwerthfawrogi (neu'n gwybod) beth mae gwleidyddion yn ei wneud, yn rhwystrau pellach.<br><br>CANLYNIADAU DYMUNOL:<br>Disgwylir y bydd y casgliadau hyn yn gymorth i ystyriaethau'r Bwrdd wrth gynllunio'r Penderfyniad ar gyfer y Cynulliad nesaf sy'n addas i'r diben.<br><br>O fewn cyd-destun datblygiadau diweddar yng Nghymru (Deddf Cymru 2017, adroddiad PADdEC 2017 ac ymgynghoriad Comisiwn y Cynulliad ar ddiwygio etholiadol), mae'n bwysig nad yw'r penderfyniad newydd ar gyfer y Cynulliad yn rhwystro ystod ehangach o ymgeiswyr rhag sefyll yn Etholiadau'r Cynulliad. | A7 - Alinio darpariaeth gofal plant â chyfnod eistedd y Cynulliad ac amserlenni ACau | Ystyried darpariaeth gofal plant bore cynnar / nosweithiau hwyr sy'n cymryd i sylw amser teithio / cymudo | 2 & 4 | Cael gwared ar rwystrau i unigolion â chyfrifoldebau gofal | |
| | A8 - Materion i'w codi gyda Chomisiwn y Cynulliad er mwyn ystyried: priodoldeb y ddarpariaeth o ran gweithio hyblyg (gan gynnwys pleidleisio o bell) a rhinweddau rhannu swydd, neu ail swyddi, ar gyfer Aelodau Cynulliad | Cyflwyno ymateb i ymgynghoriad Comisiwn y Cynulliad. | 2&3 | Gwella gweledEdd y Bwrdd a sicrhau bod trefniadau gwaith a'r amgylchedd yn addas i'r diben. | |
| | A9 - Egluro a rhoi cyhoeddusrwydd i reolau 'treuliau eithriadol' a'r gefnogaeth benodol sydd ar gael i ACau | Cynnwys mwy o fanylder yn y penderfyniad cyfredol a dyfodol. | 1 | Sicrhau eglurder a gwella dealltwriaeth rhanddeiliaid o'r rheolau ynglŷn â threuliau eithriadol | |
| | A10 - Darparu lwfans i ACau i gefnogi cyfleoedd a phrofiadau ar gyfer pobl o'u hetholaethau a rhanbarthau | Darparu lwfans blynyddol a chyhoeddi rheolau ynglŷn â hynny. | 2 | Ymgysylltu effeithiol â ACau a'u hetholwyr | |
| | A11 - Archwilio i *Gronfa Mynediad at Wleidyddiaeth* gyda'r Comisiwn Etholiadol ac eraill | Trefnu / noddi gweithdy / seminar gyda rhanddeiliaid allanol (gan gynnwys y Comisiwn Etholiadol) er mwyn archwilio i rinweddau Cronfa Mynediad at Wleidyddiaeth a sut byddai'n gweithio | 1 & 2 | Ehangu gweledigaeth ar gyfer y materion mae'r Bwrdd yn ymdrin â nhw. Ehangu gweledigaeth ag ymgysylltu â materion amrywiaeth. | |
| | Mesur y Weithgaredd | Olrhain yr Allbwn | | Olrhain Canlyniadau | Asesu Effaith |
| | A1-5 | Ffynonellau'r dystiolaeth*:<br>• Strategaeth Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar gyfer 2021-25 sy'n cefnogi Strategaeth gyfan y Bwrdd<br>• Ail-ddylunio'r wefan a sianeli cyfathrebu digidol<br>• Ased amlbwrpas ac aml-sianel: fersiynau hawdd i'w darllen o'r penderfyniad, eglurhad ar fideo, pdf rhyngweithiol, infograffeg, hyfforddiant sylfaenol / deunyddiau addysgol<br>• Mynychu / noddi digwyddiadau gan y Bwrdd<br>• Digwyddiadau y gwnaeth y Bwrdd gyfrannu deunyddiau gwybodaeth atynt | | Ffynonellau'r dystiolaeth*:<br>• Metrig ymgysylltu ar-lein: Metrig ymgysylltu uniongyrchol<br>• Galwadau am ddeunyddiau gwybodaeth a sesiynau gwybodaeth gan randdeiliaid mewnol ac allanol<br>• Holiaduron adborth o ddigwyddiadau | I'w wneud ar ddiwedd y tymor / adroddiadau gwaddol |
| | A6 | • Cyfres o erthyglau blog ynglŷn â chyfleoedd a'r profiad o gysgodi, yn ogystal â rôl y Bwrdd a'r materion y mae'n ymdrin â nhw | | | |
| | A7-10 | • Penderfyniad Newydd y Cynulliad | | | |
| | A11 | • Adroddiad casgliadau Gweithdai / datganiadau i'r wasg | | | |

*Rhestr fynegol - dim yn rhestr gyflawn / ni fwriedir o reidrwydd i fod yn derfynol

**AS – Amcanion Strategol

PRIFYSGOL CAERDYDD
CARDIFF UNIVERSITY

Canolfan Llywodraethiant Cymru
Wales Governance Centre

LONDON METROPOLITAN UNIVERSITY
SOCIAL PROFESSIONS